

Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1

Hydref 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddTai

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddTai@senedd.cymru**
X: **@SeneddLlywLTai**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddTai

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
John Griffiths AS**
Llafur Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig



Lesley Griffiths AS
Llafur Cymru



Siân Gwenllïan AS
Plaid Cymru




Joel James AS
Ceidwadwyr Cymreig



Lee Waters AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



Natasha Asghar AS
Ceidwadwyr Cymreig

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y Bil.



Laura Anne Jones AS
Reform UK

Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

Adroddiad Cyfnod 1

Hydref 2025



Contents

Argymhellion a Chasgliadau	7
Cylch gorchwyl.....	13
Ein dull.....	14
Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil.....	15
2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	16
Cefndir y Bil.....	17
Egwyddorion cyffredinol	18
Adnoddau	22
Dull fesul cam	24
Ymyriadau ehangach	25
Cymhwysedd deddfwriaethol	27
Ein barn ni.....	28
3. Rhan 1: Digartrefedd	32
Helpu i atal digartrefedd	32
Ein barn ni.....	36
Asesu anghenion a gwneud cynlluniau ar gyfer sicrhau llety a chymorth ac adolygiadau.....	37
Ein barn ni.....	41
Diwygio dyletswyddau i sicrhau llety.....	41
Pobl sydd â chysylltiad lleol.....	41
Amgylchiadau lle mae'r ddyletswydd i sicrhau llety yn dod i ben	47
Diddymu hawlogaeth drwy gyfeirio at anghenion blaenoriaethol a digartrefedd bwriadol	50
Diddymu'r prawf angen blaenoriaethol.....	51
Diddymu'r prawf digartrefedd bwriadol	55

Atgyfeiriadau cysylltiad lleol.....	60
Ein barn ni.....	64
Dyletswyddau pellach i atal digartrefedd	64
Ein barn ni.....	67
Ymddygiad annerbyniol sy'n dod â dyletswyddau i ben.....	68
Ein barn ni.....	73
Dyletswydd i ofyn a gweithredu	74
Cyrff cyhoeddus nad ydynt wedi'u nodi yn y Bil	79
Ein barn ni.....	83
Darpariaeth ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.....	87
Pobl ifanc sy'n gadael gofal	87
Protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl y mae arnynt angen arbennig am gymorth	90
Personau a gedwir yn gaeth.....	93
Diffiniad o gamdriniaeth ddomestig.....	95
Ceisio barn pobl ddigartref	95
Ein barn ni.....	96
Cyflwr llety	96
Ein barn ni.....	100
Cydweithredu	101
Ein barn ni.....	104
Gweld llety.....	105
Ein barn ni.....	105
4. Rhan 2: Dyrannu tai cymdeithasol	106
Personau cymhwysol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol.....	106
Ein barn ni.....	108
Ffafiaeth i bersonau mewn cynlluniau dyrannu.....	111

Manipiwleiddio bwriadol	111
Ffafiaeth i bobl ifanc sy'n gadael y system ofal	115
Grwpiau eraill	117
Cofrestrau	119
Ein barn ni	121
Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar	122
Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	125

Argymhellion a Chasgliadau

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).....Tudalen 28

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'n sylweddol y Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2026-27, ac at hynny, dylai ganfod ffyrdd arloesol o godi arian i ddarparu'r cyflenwad o dai cymdeithasol sydd ei angen i gyflawni amcanion y Bil.....Tudalen 29

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparu mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy yn flaenoriaeth drawslywodraethol ac nad yw'n cael ei danseilio gan bolisiâu eraill.Tudalen 29

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell diwygio'r Bil i osod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen benodol sy'n nodi'r dull fesul cam o weithredu'r ddeddfwriaeth..... Tudalen 30

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Senedd am gynnydd wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys diweddariad erbyn diwedd 2029 ar y camau y mae wedi'u cymryd tuag at ei gweithredu'n llawn. Tudalen 30

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith pellach i gasglu tystiolaeth ynghylch a ddylid caniatáu esemptiad i'r prawf cysylltiad lleol i grwpiau ychwanegol.....Tudalen 47

Argymhelliad 7. Dylid cryfhau'r Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd i gyfeirio ceiswyr at gyngor annibynnol.
..... Tudalen 50

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y darpariaethau eraill sy'n effeithio ar bobl sy'n gadael gofal yn cael eu gweithredu'n ddigon cynnar i liniaru unrhyw effaith negyddol bosibl ar bobl sy'n gadael gofal yn sgil diddymu'r prawf angen blaenoriaethol.Tudalen 55

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi modelau arfer da o wasanaethau cymorth dwys ar gyfer yr aelwydydd sydd â'r lefel uchaf o angen cymhleth, a dylai ddarparu'r adnoddau a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i'w gwneud yn ofynnol darparu'r gwasanaethau hyn ym mhob awdurdod lleol lle y mae eu hangen.
..... Tudalen 60

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder y gellir estyn y ddyletswydd i helpu i gadw llety addas y tu hwnt i ddeuddeg mis, yn unol ag argymhellion y Panel Arbenigol, a chyflwyno gwelliant i bennu hyn ar wyneb y Bil. Tudalen 68

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad pellach o'r angen posibl o dan y ddyletswydd i ddarparu cymorth i gadw llety addas drwy ddefnyddio ffigurau gan nifer uwch o awdurdodau lleol a darparu amcangyfrif diwygiedig o'r costau disgwyliedig cyn gweithredu'r ddarpariaeth hon. Tudalen 68

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i ddarparu ar gyfer adolygiad ffurfiol o effaith y ddyletswydd 'gofyn a gweithredu' a gyflwynwyd gan adran 21. Dylai adolygiad gynnwys sut mae'r ddyletswydd yn gweithio i'r cyrff cyhoeddus a restrir wrth atal digartrefedd a'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhai nad ydynt wedi'u rhestru, monitro'r sectorau hyn, ac ystyried a oes angen gwneud newidiadau i'r rhestr. Tudalen 85

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n disgwyl i arfer da gael ei fabwysiadu'n gyson o ran sut mae ysgolion yn nodi ac yn hysbysu awdurdodau lleol am y risg o ddigartrefedd, gan gynnwys ei rôl ei hun wrth lledaenu gwybodaeth. Tudalen 85

Argymhelliad 14. Yng ngoleuni'r dystiolaeth gref o blaid cynnwys ysgolion a gofal sylfaenol ar y rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd 'gofyn a gweithredu', dylai Llywodraeth Cymru fonitro effeithiolrwydd ei dulliau amgen gyda'r bwriad o ychwanegu'r sectorau hyn at y ddyletswydd os oes angen, gan ddefnyddio'r pŵer i ddiwygio'r rhestr drwy is-ddeddfwriaeth. Tudalen 86

Argymhelliad 15. Rydym yn cefnogi'r dystiolaeth gan NYAS ac yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru asesu'r achos dros ymestyn darpariaethau sydd wedi'u hanelu at bobl sy'n gadael gofal yn y dyfodol, fel eu bod yn berthnasol i bawb hyd at 25 oed, nid dim ond y rhai mewn addysg neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd i sicrhau bod llety addas ar gael i bobl sy'n gadael gofal a'r flaenoriaeth resymol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol, yr ydym yn eu trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Tudalen 90

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau presennol i ddiwygio'r gofynion addasrwydd, ac i wahardd y defnydd o lety dros dro sydd â pheryglon Categori 1 ac sy'n anaddas i bobl fyw ynddo. Tudalen 100

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y newidiadau i'w gwneud i Orchymyn Digartrefedd (Addaswydd Llety) (Cymru) 2015, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer is-ddeddfwriaeth o'r fath. Dylid gwneud newidiadau i wahardd llety sy'n anaddas i bobl fyw ynddo cyn gynted â phosibl, waeth beth fo'r newidiadau pellach a wneir, yr ydym yn deall eu bod wedi'u cynllunio yn seiliedig ar yr adolygiadau llety dros dro sy'n ofynnol yn ôl y Bil.
.....Tudalen 100

Argymhelliad 18. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau atgyfeiriadau wedi'u diffinio'n fanwl sy'n nodi'r amgylchiadau y gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrthod atgyfeiriad, ac sydd hefyd yn gwneud amod o rannu gwybodaeth yn effeithiol am unrhyw anghenion cymorth a allai fod gan yr ceisydd.....Tudalen 105

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu safon gyffredin genedlaethol ar gyfer data ar restrau aros a dyraniadau tai cymdeithasol, gan gyhoeddi data cadarn ar lefel leol a chenedlaethol.....Tudalen 109

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei hachos dros gynnwys y ddarpariaeth i greu meini prawf ar gyfer personau cymhwysol yn y Bil, ac oni bai y gall wneud hynny, dylid dileu'r ddarpariaeth.....Tudalen 110

Argymhelliad 21. Gan y bydd angen diweddarau'r Cod Canllawiau i adlewyrchu'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y ddeddfwriaeth hon, dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Canllawiau i nodi y gall awdurdod lleol ysgrifennu at ymgeisydd, gan nodi eu bod yn ystyried canfod eu bod yn fwriadol yn manipiwleiddio'r system dai, yn yr un modd ag y mae'r Cod Canllawiau yn darparu pwerau o'r fath yng nghyd-destun bwriadoldeb.....Tudalen 115

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â phryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl sy'n codi o ganlyniad i adran newydd 167A(2)(b)(ii) o Ddeddf Tai 1996. Tynnodd tystiolaeth a ddarparwyd gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol sylw at sut y gallai'r prawf manipiwleiddio bwriadol effeithio'n negyddol ar bobl nad ydynt efallai'n bwriadu manipiwleiddio'r system dai, ond y gellir ystyried eu bod wedi gwneud hynny o ystyried y ffordd y mae'r Bil wedi'i ddrafftio.
.....Tudalen 115

Casgliad 1. Yn ein hadroddiad gwaddol ar ddiwedd tymor y Senedd hon, byddwn yn argymhell i'n pwyllgor olynol ei fod yn ceisio diweddariadau rheolaidd gan y llywodraeth nesaf ar amseriad gweithredu'r darpariaethau.....Tudalen 31

Casgliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu ymhellach ag awdurdodau lleol i ddeall eu pryderon ynghylch lefel yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu darpariaethau sy'n ymwneud â'r Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety.....Tudalen 41

Casgliad 3. Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb gan ein bod yn cytuno na ddylai fod yn rhan o system ddigartrefedd sy'n ystyriol o drawma. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gan awdurdodau lleol bryderon sylweddol ynghylch hyn, ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru weithio cyn gweithredu i helpu pob awdurdod lleol i baratoi drwy fabwysiadu arfer da presennol i osgoi'r defnydd ffurfiol o fwriadoldeb.....Tudalen 60

Casgliad 4. Er ein bod yn cefnogi rhoi terfyn ar fwriadoldeb i symud i wasanaeth sy'n fwy ystyriol o drawma, rydym hefyd yn deall pryderon y rhai sy'n poeni y gellid defnyddio manipiwleiddio bwriadol mewn ffyrdd tebyg, gan olygu nad yw pobl agored i niwed yn gallu cael mynediad at dai cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau drwy ganllawiau a hyfforddiant i sicrhau bod manipiwleiddio bwriadol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.Tudalen 60

Casgliad 5. Rydym yn cefnogi'r cyfnod hirach y gall atgyfeiriadau cysylltiad lleol sy'n ymwneud â charcharorion ddigwydd ynddo. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu pa mor effeithiol fydd hyn mewn gwirionedd, yn enwedig dros y ffin. Mae hwn yn faes pryder ac rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu hyn. Byddem hefyd yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y bydd hyn yn gymwys i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau ar ôl gwneud eu tymor.....Tudalen 64

Casgliad 6. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar y gwaith paratoi ar gyfer gweithredu, gynnwys manylion am sut y mae'r gweithgor llety ar ôl y carchar yn bwrw ymlaen â'i drefniadau i ddiwallu'r angen am atgyfeiriadau cysylltiad lleol cynharach ar gyfer carcharorion.Tudalen 64

Casgliad 7. Rydym yn pryderu bod rhoi terfyn ar ddyletswydd i ddarparu cymorth digartrefedd yn gam cryf ac yn credu y dylid rhoi opsiynau ar gyfer darparu rhagor o gymorth ar waith cyn cymryd camau o'r fath fel dewis olaf. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i egluro mai dim ond os yw'r awdurdod lleol yn fodlon nad oes unrhyw ffordd arall y gall gyflawni swyddogaethau digartrefedd ar gyfer y ceisydd hwnnw y gellir dod â dyletswyddau i ben.....Tudalen 73

Casgliad 8. Rhaid i'r canllawiau ar ymddygiad annerbyniol sy'n dod â dyletswyddau i ben fod yn gryf a phwysleisio na ddylid dod â dyletswyddau

goroeswyr cam-drin i ben o ganlyniad i ymddygiad annerbyniol person camdriniol sy'n preswyllo gyda nhw.....Tudalen 74

Casgliad 9. Bydd hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a phecynnau hyfforddi yn hanfodol o ran gallu nodi arwyddion digartrefedd ac o ran sut i ymateb. Rydym yn nodi o'r amserlen weithredu a grybwyllwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet fod y ddyletswydd i fod i ddechrau fel rhan o'r ail gam yn 2028-29, ac er bod amser sylweddol i gynllunio ymlaen llaw, rhaid defnyddio'r amser hwn yn ddoeth.
.....Tudalen 84

Casgliad 10. Bydd gweithredu effeithiol yn allweddol i lwyddiant y darpariaethau 'gofyn a gweithredu' a rhaid i randdeiliaid fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio system sy'n gweithio i bawb. Rhaid i brofiad CAVHIS a mewnbwn cyrff eraill fod ar flaen y gad o ran cynllunio ar gyfer gweithredu.....Tudalen 84

Casgliad 11. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau cryf ar y defnydd o'r pŵer i atgyfeirio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.....Tudalen 104

Casgliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y mae'n bwriadu monitro effaith y darpariaethau o ran derbyniadau a gwrthodiadau dyraniadau.
.....Tudalen 104

Casgliad 13. Credwn, ar ôl iddynt gael eu gweithredu, y bydd angen monitro'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydweithredu rhwng awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ofalus i asesu sut maent yn gweithio'n ymarferol.....Tudalen 105

Casgliad 14. Bydd angen canllawiau clir ar weithredu'r pŵer yn adran 35 i bennu categorïau o bobl sy'n gymwys ar gyfer tai cymdeithasol. Er bydd awdurdodau lleol angen hyblygrwydd i ddefnyddio'r pŵer i ddiwallu eu hanghenion lleol, dylid osgoi gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru er mwyn atal loteri cod post. Dylai'r canllawiau hefyd fod yn glir y dylid glynu wrth ddeddfwriaeth cydraddoldeb wrth benderfynu ar feini prawf cymhwyso. Dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod yn rhan o drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch beth ddylai fod yn 'feini prawf cymhwyso'.....Tudalen 110

Casgliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer personau cymhwysol a'i dileu yn y dyfodol os nad oes ei hangen mwyach neu os yw'n achosi canlyniadau sylweddol anfwriadol.....Tudalen 110

Casgliad 16. Nid yw anghymhwyso o ddyraniad tai cymdeithasol yn darparu ateb cynaliadwy i fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol a dylid darparu cymorth

pellach cyn cymryd camau o'r fath. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau cryf sy'n seiliedig ar drawma i sicrhau mai dim ond mewn achosion eithafol y defnyddir gwaharddiad o dai cymdeithasol..... Tudalen 111

Casgliad 17. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i ystyried diwygio'r Bil i ganiatáu i fathau penodol o ddyrannu tai cymdeithasol ddigwydd y tu allan i'r gofrestr tai gyffredin, ac yn gofyn am ddiweddariad fel rhan o'r ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil..... Tudalen 121

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil") ar 19 Mai 2025 a chafodd ei anfon i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i graffu ar ei egwyddorion cyffredinol. Mae pwyllgorau eraill y Senedd hefyd wedi gwneud gwaith craffu ar agweddau ariannol a chyfansoddiadol ar y Bil.

1. Ar 19 Mai 2025, cyflwynodd Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ("yr Ysgrifennydd Cabinet") y Bil a'r Memorandwm Esboniadol ("y Memorandwm") sy'n cyd-fynd ag ef. Cyhoeddwyd Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer y Bil hefyd.
2. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Bil i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ("y Pwyllgor") er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 17 Hydref 2025.

Cylch gorchwyl

3. Ar 22 Mai 2025, gwnaethom gytuno ar y fframwaith a ganlyn wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, i ystyried:
 - Egwyddorion cyffredinol y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi a nodir yn y Bil, sef:
 - Ehangu mynediad at wasanaethau digartrefedd a rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf.
 - Ehangu cyfrifoldeb i rai awdurdodau cyhoeddus penodedig am adnabod unigolion sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac ymateb yn effeithiol.
 - Blaenoriaethu'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

- Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt.
- A oes canlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.
- Asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol.
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol.
- Materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- Y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth.
- Unrhyw fater yn ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth.
- Unrhyw fater arall sy'n ymwneud â goblygiadau cyfansoddiadol neu oblygiadau eraill y Bil.

Ein dull

4. Rhwng 23 Mai a 20 Mehefin 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ein gwaith, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Cafwyd 52 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac maent wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Cawsom sesiwn frifio dechnegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 22 Mai.

5. Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 4 Mehefin a 18 Medi. Hefyd, gwnaethom gynnal cyfres o ddeg sesiwn tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allanol ar 19 Mehefin a 26 Mehefin. Mae rhestr o dystion ar gael yn Atodiad A, ac mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn Atodiad B.

6. Fel rhan o'n gwaith diweddar ar gymorth tai i bobl sy'n agored i niwed, cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd gyfres o grwpiau ffocws a chyfweiliadau â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau tai a gweithwyr y rheng flaen sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hynny. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd drwy'r ymgysylltiad hwnnw hefyd yn berthnasol i'n gwaith craffu ar y Bil ac fe'u hadlewyrchir drwy'r adroddiad hwn.

7. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth frifio i lywio ein gwaith craffu.

Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil

8. Cafodd Pwyllgor Cyllid y Senedd dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar oblygiadau ariannol y Bil ar 11 Mehefin 2025. Ar 23 Mehefin 2025 clywodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet am ba mor briodol yw'r darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r ddau bwyllgor wedi adrodd ar eu casgliadau.

2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Mae'r Bil yn cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddigartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol i gefnogi'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

9. Mae'r Memorandwm yn nodi bod pwysau sylweddol wedi bod ar wasanaethau digartrefedd ledled Cymru o ganlyniad i ffactorau fel pandemig y Coronafeirws, yr ymateb dyngarol i'r rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw. Dywed nad yw'r dull presennol o ymdrin â digartrefedd yn 'gynaliadwy' gyda niferoedd uchel o bobl yn cyflwyno eu hunain i awdurdodau lleol, niferoedd uchel mewn llety dros dro, a chyfraddau atal yn gostwng. Dywed y Memorandwm, rhwng dechrau'r pandemig a mis Mehefin 2023, fod dros 38,600 o bobl a oedd yn profi digartrefedd wedi cael eu cefnogi gyda llety dros dro brys. Nid yw nifer y bobl ddigartref wedi gostwng ers y pandemig oherwydd problemau ehangach gyda chostau byw a chyflenwad tai.

10. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) rai o'r pwysau ar wasanaethau digartrefedd:

*"There have been significant increases in demand for services from homelessness and support services, aligned to both homelessness and temporary accommodation use reaching record levels in Wales during 2024. But councils and partners are finding there is also an increase in the complexities of need from some people seeking services and support. This can make it more difficult for councils to find suitable accommodation that can meet their specific needs. Ensuring safeguarding of an individual and wider residents are key considerations."*¹

11. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae diwygio deddfwriaethol yn gam angenrheidiol i gyflawni trawsnewid systemig, ochr yn ochr â newidiadau ehangach o ran polisi ac arfer, a buddsoddiad yn y cyflenwad tai. Cred y dylai'r mesurau hyn wella'r cyfraddau atal, arwain at wasanaethau sy'n canolbwyntio

¹ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

mwy ar unigolion, a gwneud gwell defnydd o'r cyflenwad llety i'r rhai sy'n wynebu'r angen mwyaf.

12. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y Bil yn diwygio deddfwriaeth bresennol o ran digartrefedd a thai yng Nghymru drwy ddiwygio Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996") i wella prosesau atal a lleddfu digartrefedd yng Nghymru. Dywed y bydd y Bil yn:

- Ehangu mynediad at wasanaethau digartrefedd a darparu cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf.
- Ehangu cyfrifoldeb i rai awdurdodau cyhoeddus penodedig am adnabod unigolion sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac ymateb yn effeithiol.
- Blaenoriaethu'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

13. Mae'r Bil yn ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd ac annog camau cynharach i'w atal. Mae'n gwneud hyn drwy roi diwedd ar y profion ynglŷn ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, a thrwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol helpu i atal digartrefedd os yw'n debygol y bydd ceisydd yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis.

Cefndir y Bil

14. Mae'r Memorandwm yn nodi bod cyflwyno'r Bil yn dilyn blynyddoedd o ymgysylltu â rhanddeiliaid, a gychwynnwyd gan waith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Ar ôl i'r Grŵp gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru, comisiynodd Julie James AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio ar y pryd, yr elusen ddigartrefedd Crisis i greu grŵp pellach, y Panel Adolygu Arbenigol. Ym mis Medi 2023 gwnaeth y grŵp hwn argymhellion manwl i Lywodraeth Cymru ar sut y dylid diwygio deddfwriaeth. Ym mis Hydref 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd.

15. Wrth gyflwyno'r Bil, gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mai 2025 yn egluro:

"Mae angen diwygio beiddgar i newid y patrwm a'r cynnydd tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Bydd yn helpu i greu system ddigartrefedd yng Nghymru sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan symud i ffwrdd o system sy'n ymateb i

argyfwng i system sy'n canolbwyntio ar atal—y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â risg digartrefedd yng Nghymru.”²

Egwyddorion cyffredinol

16. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y bydd y ‘pecyn o ddiwygiadau’ o fewn y Bil yn atal mwy o achosion o ddigartrefedd drwy ymyrryd yn gynharach, a chynnig mwy o ffyrdd o symud pobl drwy'r system, a dywedodd:

“At the moment, we have a system that really focuses on the crisis edge, and we know that we need to move towards that preventative side of services, which we know is cost-effective, not just economically, but in terms of the human cost as well.”

17. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn:

“seeks to prevent homelessness as a young person transitions from care, and tackles homelessness after a period in custody as well. It places responsibility for homelessness prevention across the public sector, making it a public service response, and makes the most effective use of housing supply, relieving that pressure on temporary accommodation, use, and providing local authorities with more ways to accommodate people.”

18. Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud nad yw gwneud dim yn opsiwn, a:

“Without reform, homelessness will increase, as will the cost to the public purse.”

19. Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet ‘efallai na fydd yn bosibl gwneud hyn i gyd ar unwaith’, gan egluro'r rheswm dros ffocws cynharach ar y mesurau ataliol tra byddai disgwyl i ddarpariaethau eraill fel diddymu bwriadoldeb ac angen blaenoriaethol gael eu gweithredu'n ddiweddarach.³

20. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a glywsom ganddynt yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch egwyddorion cyffredinol y Bil. Roedd yr Athro Suzanne Fitzpatrick, a oedd yn cadeirio'r Panel Adolygu Arbenigol, yn croesawu'r Bil, gan ddweud ei fod yn ‘drîw i'r pecyn cytbwys a chydlynol yr oedd y Panel Adolygu Arbenigol yn

² Y Cyfarfod Llawn, 20 Mai 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 139

³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 4-6

ymdrechu i'w gyflawni'. Dywedodd yr Athro Fitzpatrick wrthym fod angen deddfwriaeth i gyflawni'r diwygiad sydd ei angen:

"In particular, I think legislation is required to dismantle the current barriers that particularly single homeless people face in accessing rehousing help through the legislation.

*I also think legislation is particularly required to reorientate practice towards more upstream forms of prevention and also to increase the flow of people out of the system into settled housing via widening the range of rehousing options that are available to local authorities to discharge duty, but also to improve access to social housing."*⁴

21. Cyfeiriodd Liz Davies CB at y Bil fel un 'trawsnewidiol', a dywedodd wrthym, er y gellid cyflawni rhai o'r darpariaethau drwy is-ddeddfwriaeth, mae'n debyg, fod cael deddfwriaeth sylfaenol yn 'anfon neges wleidyddol bwerus', gan ychwanegu bod y dull hwn yn hytrach na cheisio ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth yn 'gwbl angenrheidiol'.⁵

22. Dywedodd Shelter Cymru wrthym fod angen newid deddfwriaethol i wireddu ymrwymiad i roi diwedd ar ddigartrefedd neu i'w wneud yn brin, yn fyr ac yn rhywbeth nad yw'n digwydd eto, gan egluro:

*"having the legislation acts as a driver in of itself to deliver all the other things that are needed to make that possible. The legislation on its own can't do this, but the legislation with commitments on when it's going to come in, clear timelines, can drive the additional funding, resourcing, housing supply that's going to be necessary."*⁶

23. Dywedodd Cymorth Cymru wrthym hefyd fod 'gwir angen' am y Bil, gan ychwanegu:

"so many of the barriers that currently prevent people from getting the help that they need are so firmly embedded in the legislative framework, and therefore only legislative change

⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 6-7

⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 157

⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 161

would be able to remove those barriers and ensure that people get the help that they need.”⁷

24. Roedd The Wallich a Cymorth i Fenywod Cymru yn cytuno, gyda The Wallich yn dweud wrthym fod ‘angen deddfwriaeth newydd ar frys’ a bod ‘diffygion yn y darpariaethau presennol’ yn golygu y gellir gwrthod neu dynnu cefnogaeth yn ôl, gan adael rhai pobl i syrthio drwy’r bylchau.⁸

25. Clywsom gan Crisis y gallai’r Bil wneud ‘gwahaniaeth enfawr’ gan nad yw’r ddeddfwriaeth bresennol yn gweithio. Cyfeiriodd at y ‘Monitor Digartrefedd’ a ddangosodd y gallai digartrefedd godi 24 y cant erbyn 2041 os na chymerir camau gweithredu.⁹

26. Er y gefnogaeth gan rai sectorau, mynegodd cynrychiolwyr awdurdodau leol bryderon ynghylch rhai darpariaethau yn y Bil, gan gynnwys rhai nad oeddent yn cefnogi’r egwyddorion cyffredinol. Dywedodd CLILC fod cynghorau’n ‘cefnogi uchelgais y Bil ac yn cydnabod ac yn croesawu newidiadau a wnaed i’r cynigion gan Lywodraeth Cymru ers y Papur Gwyn’, ond eu bod yn parhau i fod yn bryderus ynghylch effaith y Bil ‘os cyflwynir yr holl gymalau yn eu ffurf bresennol’.¹⁰

27. Roedd cytundeb ymhlith cynrychiolwyr awdurdodau lleol nad yw’r dull presennol yn gynaliadwy, gyda phob un yn disgrifio’r lefel uchel o alw am wasanaethau cymorth a’r pwysau ar lety dros dro yn eu hardal, fodd bynnag, mynegwyd gwahanol safbwyntiau ynghylch a fydd y Bil yn cynyddu neu’n lleihau’r galw am wasanaethau o’r fath. Cafodd y mesurau ataliol yn y Bil groeso cyffredinol, ond mynegwyd pryder y gallai mesurau eraill roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau tai.

28. Dywedodd Cyngor Caerdydd wrthym nad yw’n cefnogi’r Bil gan ei fod yn credu y gallai’r dull waethygu’r pwysau ar wasanaethau cymorth, a byddai’n well ganddo i’r Bil beidio â bwrw ymlaen:

“we believe that more legislation and another homelessness Bill like this will make it even more unsustainable because the unintended consequences that the Bill might bring in is increased numbers into temporary accommodation and

⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 261

⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 265

⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 391

¹⁰ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

increased length of time in temporary accommodation as well.”¹¹

29. Awgrymodd y gellid cyflawni ei amcanion drwy bolisi lleol a gweithio mewn partneriaeth effeithiol:

“we’re already trying to achieve the aims and the principles that the Bill is attempting to bring in. And we absolutely agree with the principles and the ethos of the Bill. However, what we think will happen is it will encourage more people into a system that can’t cope already. And what the Bill will do is reduce personal responsibility for people’s housing circumstances and will push that balance towards the local authority by the removal of priority need, intentionality, and a reduction of the provision of unreasonable failure to co-operate. So, it will push more people into a system that already can’t cope, and it will undermine the principles that the Bill is trying to achieve.”¹²

30. Er bod cynrychiolwyr awdurdodau lleol eraill yn rhannu pryderon y gallai rhai darpariaethau gynyddu’r galw am wasanaethau, mynegwyd cefnogaeth i agweddau eraill ar y Bil. Croesawodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yr agwedd atal, gan nodi bod ‘croeso mawr i allu ymyrryd a helpu pobl cyn gynted â phosibl’. Fodd bynnag, roedd yn rhannu pryder y byddai agweddau eraill o bosibl yn ‘cynyddu nifer y bobl sydd eisoes yn dod i mewn i system orlawn pan nad oes cyflenwad tai i ddiwallu’r angen hwnnw.’¹³

31. Cytunodd Cyngor Dinas Casnewydd y gallai rhai agweddau ar y Bil, yn enwedig cael gwared ar fwriadoldeb ac angen blaenoriaethol, ‘gynyddu’r pwysau ar y system yn fawr’, ac:

“Unless we can find a sustainable flow of housing supply to meet that demand, I can’t see any other scenario than people spending longer in unsuitable, temporary accommodation.”¹⁴

32. Mynegodd Cyngor Sir Powys bryderon ynghylch y cyflenwad tai:

“Wales is still facing a serious shortage of homes—especially ones that are genuinely affordable for people on low and

¹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 12

¹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 15

¹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 19

¹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 22

middle incomes. The Bill doesn't really tackle this core issue. Instead, it focuses on expanding people's rights and increasing the responsibilities of housing authorities, without addressing the fact that in many areas, there simply aren't enough homes available or accessible in the first place."¹⁵

33. Mynegodd Cyngor Gwynedd bryder nad oedd digon o ymgynghori wedi bod ag awdurdodau lleol:

*"nid ydym o'r farn fod y trafodaethau hyd yma wedi canolbwyntio yn ddigonol ar farn Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid allweddol sydd â gwybodaeth hanfodol yn y maes. Mae diffyg ystyriaeth i faterion ymarferol ar sut mae'r maes yn gweithredu dydd i ddydd wrth lunio'r fframwaith yn golygu nad yw'n adlewyrchu sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen."*¹⁶

34. Ystyrir y pryderon penodol a fynegwyd gan awdurdodau lleol yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Adnoddau

35. Cyfeiriodd CLILC at wariant net o £100.8 miliwn gan gynghorau ar ddigartrefedd yn 2025-26 a phryder sylweddol ar draws cynghorau ynghylch cyllido presennol y lefelau cyfredol o alw am wasanaethau digartrefedd, heb sôn am sicrhau y gellir gweithredu dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd o dan y Bil yn effeithiol. O ran y costau a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodwyd:

"The financial analysis of the impact of the Bill as a whole is detailed but also complex, not easy to decipher even for seasoned financial experts. The assumptions behind some of the savings seem optimistic, not only in their scale but also in the timing of when they might be realised. While some of the data has been provided by councils, the information supplied did not always reflect the final proposals in the Bill and therefore may undermine elements of the assumptions made in the financial assessment."

¹⁵ HSHAWB 51, Cyngor Sir Powys (Saesneg yn unig)

¹⁶ HSHAWB 41, Cyngor Gwynedd

36. Galwodd CLILC am fonitro'n agos y costau gwirioneddol o weithredu, ac i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru os yw costau'n fwy na lefel y cyllid a ddarperir. Nododd y bydd yn 'angenrheidiol cytuno sut y bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu ar ddechrau'r broses a'i chyd-gynhyrchu â llywodraeth leol'. Mae'n pwysleisio:

*"It is crucial that Welsh Government commit to fully funding the financial implications of the Bill on an on-going basis."*¹⁷

37. Mynegodd Cartrefi Cymunedol Cymru bryder hefyd ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil, gan nodi bod yn rhaid i'r broses eang o newid system a ragwelir drwy'r ddeddfwriaeth gyfateb â 'chyllid digonol ar gyfer yr holl elfennau sydd ynddi'. Dywedodd wrthym:

*"We are concerned that the Regulatory Impact Assessment (RIA) as drafted does not account adequately for the scale of increased demand on services and the knock-on impacts to other bodies, including RSLs. The very welcome move to supporting more people to stay in their homes will necessitate a real step change in the funding of programmes such as the Housing Support Grant (HSG)."*¹⁸

38. Cydnabu Cymorth Cymru y bydd angen 'adnoddau ymlaen llaw i weithredu'r darpariaethau' er mwyn sicrhau bod bwriadau'r ddeddfwriaeth hon yn cael eu cyflawni, ac yna bydd ymrwymiad parhaus gan lywodraethau'r dyfodol i adeiladu tai cymdeithasol a buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth. Fodd bynnag, roedd yn ei ystyried yn 'ddarn o ddeddfwriaeth buddsoddi-i-arbed' gan ddadlau y byddai'r mesurau ataliol yn y pen draw yn 'lleddfu pwysau ar awdurdodau lleol ac ar lety dros dro'.¹⁹

39. Dadleuodd yr Athro Fitzpatrick a'r Athro Peter Mackie hefyd y bydd y Bil yn cael effaith gadarnhaol ar y galw am lety dros dro, gyda'r elfennau ataliol yn lleihau nifer y bobl sy'n symud i mewn, a'r dyletswyddau ar landlordiaid cymdeithasol yn cynyddu nifer y bobl sy'n symud allan.

40. Pwysleisiodd Cymorth Cymru a Sefydliad Tai Siartredig Cymru yr angen i'r Grant Cymorth Tai gael ei ariannu'n ddigonol i ddarparu gwasanaethau cymorth digartrefedd, gyda Cymorth Cymru yn dweud wrthym fod angen grant sydd wedi'i

¹⁷ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

¹⁸ HSHAWB 14, Cartrefi Cymunedol Cymru (Saesneg yn unig)

¹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 271-272

ariannu'n dda i alluogi awdurdodau lleol i ddiwallu'r angen, ac i staff gael cyflog da i alluogi cadw a recriwtio staff o ansawdd da i sicrhau canlyniadau gwell.²⁰

41. Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet y newid ymarferol a diwylliannol sylweddol y mae'r Bil hwn yn ei gwneud yn ofynnol, a dywedodd wrthym ei bod yn cydnabod yr angen i wasanaethau cyhoeddus gael eu hariannu'n deg a'u darparu'n effeithiol ac yn effeithlon, a bod angen 'buddsoddiad ymlaen llaw'. Ychwanegodd y bydd y buddsoddiad ymlaen llaw yn arwain at arbedion cost sylweddol dros amser. Clywsom, o ganlyniad, fod dull graddol o weithredu'r Bil yn cael ei gynnig.²¹

42. Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at gytundeb partneriaeth strategol Llywodraeth Cymru â llywodraeth leol, sy'n dweud, lle mae cyfrifoldebau newydd yn dod â chost ychwanegol, nad yw bob amser yn ymwneud â cheisio'r arian ychwanegol hwnnw, ond yn hytrach â nodi cyllid y gellid ei ailgyfeirio o rywle arall i gael yr effaith fwyaf bosibl honno, a thu hwnt i hynny, y byddai unrhyw gyfrifoldebau newydd yn cael eu hariannu. Ychwanegodd y byddai cyllid yn y dyfodol yn fater i lywodraethau'r dyfodol.²²

Dull fesul cam

43. Bydd dull fesul cam yn cael ei fabwysiadu i weithredu darpariaethau'r Bil. Mae Adran 42 yn nodi y daw darpariaethau eraill yn Rhannau 1 a 2 y Bil (ac Adran 40 yn Rhan 3) i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol Cymru. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei bod yn debygol y bydd gweithredu'r Bil yn cael ei grwpio i'r tri phrif gyfnod hynny, a phob un yn dod ar ôl cyfnod cyn-weithredu. Clywsom y byddai'r cam cyntaf yn cynnwys gweithredu'r darpariaethau atal, cefnogi a dyrannu, y byddai'r darpariaethau 'gofyn a gweithredu' yn cael eu cynnwys yn yr ail gam gweithredu ac y bydd y cam olaf yn gweld diddymu'r profion angen blaenoriaethol a bwriadoldeb.²³

44. Ychwanegodd swyddog o Lywodraeth Cymru, pe bai Cydsyniad Brenhinol yn digwydd ddechrau 2026, y bwriad fyddai cyfnod cyn-weithredu o 12 mis i ddatblygu llawer o'r hyfforddiant a'r canllawiau, gweithio gydag awdurdodau lleol i drawsnewid rhwng y systemau, a'u paratoi ar gyfer y newidiadau. Byddai'r cyfnod gweithredu cyntaf yn 2027-28, yr ail gyfnod yn y flwyddyn ganlynol a'r dyddiad

²⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 330

²¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 7

²² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 9

²³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 24

diweddaraf ar gyfer cychwyn y darpariaethau yng nghyfnod olaf y gweithredu fyddai 2030-31.²⁴

Ymyriadau ehangach

45. Clywsom gan sawl tyst fod angen cynnydd sylweddol yn nifer y tai fforddiadwy ochr yn ochr â'r darpariaethau yn y Bil. Dywedodd CLILC:

“An increased pace and scale in the development of housing, significantly increasing housing supply is critical for the reduction in homelessness, particularly the need for more affordable housing in line with identified current and future need. More social and affordable housing will enable councils to continue on the path of homelessness prevention and reduction. Without significantly increased access to housing to move people to permanent from temporary accommodation, even without any of the changes or additional duties and responsibilities set out in the Bill, risks undermining progress made so far and will lead to continued numbers of people presenting as homeless and living in temporary accommodation (and longer waits for those on social housing waiting lists).”²⁵

46. Nododd Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd yr angen am dai mwy fforddiadwy a galwodd am ‘gynnydd cyflym ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth hon ar fwrw ymlaen ag argymhellion o adroddiad diweddar y Tasglu Tai Fforddiadwy, yn ogystal â mynd i'r afael â rhwystrau systemig ehangach i gyflenwad’.²⁶ Mynegwyd pryder gan Gymdeithas Tai Sir Fynwy ynghylch y diffyg presennol a rhagweledig yn y stoc dai sydd ar gael a'i fod yn ‘heriol iawn’ gwireddu'r uchelgais o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru ‘heb gynnydd sylweddol yn y cyflenwad o gartrefi addas a fforddiadwy’.²⁷

47. Er bod y Bil a'i ffocws ar atal wedi cael croeso gan CIH Cymru, dywedodd wrthym hefyd na all deddfwriaeth newydd ar ei phen ei hun ddatrys digartrefedd, gan ychwanegu:

“We also need that adequate supply of cross-tenure affordable homes across Wales, and we also need to ensure that our

²⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

²⁵ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

²⁶ HSHAWB 14, Cartrefi Cymunedol Cymru (Saesneg yn unig)

²⁷ HSHAWB 13, Cymdeithas Tai Sir Fynwy (Saesneg yn unig)

workforce is at the right level to implement not only the current legislation, but any new legislation that comes up.”²⁸

48. Roedd Cyngor Caerdydd yn ystyried cynnydd yn y cyflenwad tai ac yn y Lwfans Tai Lleol fel y ddwy ymyrraeth allweddol a fyddai â'r effaith fwyaf ar fywydau pobl ac yn eu hatal rhag mynd i mewn i'r system ddigartrefedd, yn hytrach na deddfwriaeth newydd.²⁹

49. Cyfeiriodd Sefydliad Bevan hefyd at yr ymyriadau ehangach sydd eu hangen ochr yn ochr â'r Bil:

“We are concerned that the legal proposals will do little to bring homelessness rates down without significant additional funding for local authorities, wider intervention in the housing market and boosting the supply of affordable, long term social homes.”³⁰

50. Dywedodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru:

“Until the necessary housing supply is made available, the overall Welsh Government aim of making homelessness rare, brief, and unrepeated will not be realised.”³¹

51. Mynegodd Tai Pawb farn debyg, gan nodi nad yw'n debygol y bydd y targed presennol o 20,000 o gartrefi cymdeithasol yn nhymor y Senedd hon yn cael ei gyflawni. Dywedodd:

“To achieve the goals of this legislation, we will need to boost the supply of homes. In doing this, we must ensure that we build the right homes in the right places to address homelessness.”³²

52. Nododd The Wallich hefyd y bydd 'llwyddiant neu fethiant y ddeddfwriaeth hon yn dibynnu'n fawr ar allu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy hygyrch yn sylweddol', gan ychwanegu:

“Without enough appropriate homes support services will continue to struggle when moving people on from temporary

²⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 393

²⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 84

³⁰ HSHAWB 45, Sefydliad Bevan (Saesneg yn unig)

³¹ HSHAWB 03, Cyngor Ffoaduriaid Cymru (Saesneg yn unig)

³² HSHAWB 07, Tai Pawb (Saesneg yn unig)

accommodation, and prevention efforts will be significantly hamstrung.”³³

53. Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod cyflenwad tai a'r gweithlu yn agweddau allweddol ar ddarparu gwasanaethau digartrefedd. O ran cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi fforddiadwy erbyn diwedd tymor y Senedd hon, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gyflawni hynny, gan ychwanegu ei fod yn 'flaenoriaeth wirioneddol' i'r llywodraeth.³⁴

54. Mewn cyfarfod dilynol, cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at lefelau hanesyddol o fuddsoddiad o £2 biliwn yn ystod tymor y Senedd hon i gynyddu'r cyflenwad tai a bod grŵp gweithredu wedi'i sefydlu ac wedi cyfarfod yn dilyn argymhellion y Tasglu Tai Fforddiadwy. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“we're going to leave no stone unturned in this. This is very much a focus not just within my portfolio, but across Government, and I'm determined to see the work that we can do in this housing supply area go as quickly as possible.”³⁵

Cymhwysedd deddfwriaethol

55. Ar ôl cyflwyno'r Bil, nododd datganiad y Llywydd ar gydsyniad deddfwriaethol fod Adrannau 14, 21, 22 a 32 yn gofyn am gydsyniad Llywodraeth y DU ac felly, yn ei barn hi, na fyddent o fewn deddfwriaeth y Senedd hyd nes bod y cydsyniad hwnnw wedi'i gael.

56. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

“Officials have been engaged with relevant UK Government departments for several months now on this. Engagement has involved operational-level discussions about policy aims, relevant Bill sections, and those practical implications should consent be granted. I believe that overall discussions have been positive and the discussions are, obviously, continuing. We're working with Wales Office colleagues to manage the consent process. We're in regular contact to support and respond to any questions either the Wales Office or relevant departments have had. We've engaged directly with Ministry of Housing,

³³ HSHAWB 08, The Wallich (Saesneg yn unig)

³⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 15-24

³⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 16

*Communities and Local Government, DWP, the Ministry of Defence and the Home Office on the White Paper principles.*³⁶

Ein barn ni

57. Rydym yn croesawu'r bwriadau polisi y tu ôl i'r darpariaethau yn y Bil hwn. Mae ein gwaith ar dai a digartrefedd dros y blynyddoedd diwethaf wedi dangos yn gyson y pwysau sylweddol ar y system a'r angen i gymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Rydym yn cydnabod bod y Bil hwn wedi cymryd amser i'w ddatblygu ac rydym yn croesawu'r mewnbwn a'r ymrwymiad gan randdeiliaid o bob cwr o'r sector tai yn y broses hon. Rhoddodd llawer o'r rhai a oedd yn rhan o'r Panel Adolygu Arbenigol dystiolaeth inni, a soniwyd am y cyfaddawdau a wnaed gan bawb dan sylw er mwyn sicrhau consensws ar rai o'r darpariaethau.

58. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd inni ar yr ystod o ddarpariaethau yn y Bil hwn, rydym yn cydnabod nad yw pob agwedd yn cael ei chefnogi gan bob ochr i'r sector. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd inni yn gyffredinol yn gefnogol i'r egwyddorion cyffredinol ac rydym yn cydnabod bod y Bil hwn yn rhoi cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl sydd angen cymorth digartrefedd neu dai cymdeithasol, ac i brofiad y gweithlu ymroddedig. Felly, rydym wedi dod i'r casgliad ein bod yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein hystyriaeth o bob un o'r darpariaethau ac mae ein hargymhellion yn ceisio gwneud gwelliannau lle credwn fod eu hangen i gryfhau'r ddeddfwriaeth hon a sicrhau bod eu gweithrediad yn fwy effeithiol.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

59. Er ein bod yn croesawu egwyddorion cyffredinol y Bil, rydym yn pwysleisio na fydd y ddeddfwriaeth ynddi ei hun yn ddigon i gyflawni'r uchelgais o roi diwedd ar ddigartrefedd. Er bod y Bil yn darparu fframwaith ar gyfer newid, bydd digon o adnoddau a chyflenwad tai yn allweddol i gyflawni'r newidiadau. Roedd rhanddeiliaid yn glir yn eu tystiolaeth ar y Bil ac fel y clywsom drwy ein gwaith blaenorol ar ddigartrefedd a chyflenwad tai cymdeithasol, mae cynyddu argaeledd tai fforddiadwy yn allweddol, a heb swm sylweddol mwy o gartrefi, bydd pobl yn parhau i fyw mewn llety dros dro am gyfnodau hir. Mae angen ymdrech fawr gan Lywodraeth Cymru a'r sector tai i ddarparu mwy o dai cymdeithasol, a fydd yn hollbwysig i lwyddiant y Bil. Mae ffocws

³⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 131

trawslywodraethol ar gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth gyfredol Cymru, a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yn hanfodol.

60. Nodwn nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o faint o gartrefi cymdeithasol newydd sydd eu hangen yng Nghymru na chost eu darparu, sy'n debygol o fod yn sylweddol.

61. Er bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cydnabod yr angen i gynyddu'r cyflenwad tai, rydym yn parhau i bryderu, wrth inni agosáu at ddiwedd tymor y Senedd hon, nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi unrhyw sicrwydd ynghylch a fydd ei tharged o ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol i'w rhentu yn cael ei gyrraedd. Rydym wedi bod yn gefnogol i'r nod hwn erioed, fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2024 ar y cyflenwad o dai cymdeithasol, mae angen i dai cymdeithasol gynnwys 'màs critigol' sy'n o leiaf 20 y cant o stoc dai gwlad er mwyn creu opsiynau i bobl a chydbwyso prisiau yn y farchnad breifat. Nodwyd gennym fod tai cymdeithasol ond yn cyfrif am tua 16 y cant o'r stoc dai yng Nghymru ar hyn o bryd, a phe bai Cymru yn cyrraedd y ffigur o 20 y cant, y byddai gennym tua 60,000 yn fwy o gartrefi cymdeithasol nag sydd gennym ar hyn o bryd. Gallai hyn wneud gwahaniaeth sylweddol. Felly, rydym yn ailadrodd ein barn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy uchelgeisiol yn ei gweledigaeth ar gyfer tai cymdeithasol a chynllunio y tu hwnt i amserlen tymhorau unigol y Senedd. Credwn y gall Llywodraeth bresennol Cymru osod cynsail ar gyfer llywodraethau'r dyfodol drwy wneud y nod o 20 y cant yn flaenoriaeth, a darparu cyllid priodol yn ei chyllideb sydd ar ddod ar gyfer 2026-27. Mae buddsoddi mewn tai yn fuddsoddiad ataliol ac felly mae angen iddo fod yn flaenoriaeth strategol uwch i Lywodraeth Cymru, nid yn unig i gynyddu lefel gwariant y llywodraeth ond hefyd i sicrhau bod polisiau ar draws y llywodraeth yn tynnu i'r un cyfeiriad, i ddarparu mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'n sylweddol y Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2026-27, ac at hynny, dylai ganfod ffyrdd arloesol o godi arian i ddarparu'r cyflenwad o dai cymdeithasol sydd ei angen i gyflawni amcanion y Bil.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparu mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy yn flaenoriaeth drawslywodraethol ac nad yw'n cael ei danseilio gan bolisiau eraill.

62. Bydd adnoddau'n allweddol i gyflawni amcanion y Bil yn gyflym ac yn gyson ledled Cymru. Rydym yn nodi gyda phryder fod y sectorau llywodraeth leol a thai cymdeithasol ill dau wedi cwestiynu costau amcangyfrifedig gweithredu'r darpariaethau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er ein bod yn cydnabod

bod y Bil wedi'i fwriadu i gyflawni arbedion tymor hwy o ganlyniad i'r mesurau ataliol, rydym yn deall amheuaeth yr awdurdodau lleol ynghylch yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Gallai maint yr argyfwng tai presennol olygu bod unrhyw arbedion yn cael eu llyncu gan lefel y galw y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ymdopi ag ef.

63. Mae costau sylweddol hefyd nad ydynt wedi'u cyfrif, gan gynnwys i'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cymorth Tai, y bydd angen cynnydd sylweddol a chynaliadwy yn y ddau ohonynt. Felly, credwn y bydd angen monitro'r costau'n ofalus. Mae'r goblygiadau ariannol wedi cael eu hystyried yn fanylach gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ac rydym yn nodi ei safbwynt y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid i awdurdodau lleol y tu hwnt i'r blynyddoedd cychwynnol o weithredu, pe bai diffygion cyllido yn codi o ganlyniad i fanteision nad ydynt yn cael eu gwireddu ar y cyflymder a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er ein bod yn cydnabod bod achos dros hyn, teimlwn fod angen i bob sector ddangos yr arweinyddiaeth leol a chenedlaethol sydd ei hangen i gyflawni amcanion y Bil. Credwn fod cyfrifoldeb ar bob sector, ond y bydd angen i Lywodraeth Cymru gefnogi'r broses gyflawni drwy sicrhau bod digon o adnoddau ar gael.

64. Rydym yn croesawu'r eglurder a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu'r darpariaethau. Bydd y dull fesul cam o weithredu yn allweddol i sicrhau digon o amser paratoi a hyfforddiant i bawb a fydd yn cyflawni'r amcanion. Rydym yn trafod hyn ymhellach drwy'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, nodwn nad yw'r amserlen a fwriedir wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac rydym yn teimlo y byddai'r sector yn elwa o fwy o sicrwydd. Byddwn yn argymhell i'n pwyllgor olynol yn y Seithfed Senedd ei fod yn ceisio diweddariadau rheolaidd gan y llywodraeth nesaf ar amseriad gweithredu'r darpariaethau. Bydd diweddariadau o'r fath yn hanfodol wrth roi sicrwydd i'r sector y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n llawn erbyn 2031.

65. Credwn y dylid darparu eglurder gwell o ran yr amserlen ar gyfer gweithredu'r darpariaethau yn y Bil. Felly, rydym yn argymhell cynnwys gofyniad ar wyneb y Bil ar gyfer cyhoeddi amserlen benodol sy'n nodi'r dull fesul cam o weithredu'r ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymhell diwygio'r Bil i osod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi amserlen benodol sy'n nodi'r dull fesul cam o weithredu'r ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Senedd am gynnydd wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r

ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys diweddariad erbyn diwedd 2029 ar y camau y mae wedi'u cymryd tuag at ei gweithredu'n llawn.

Casgliad 1. Yn ein hadroddiad gwaddol ar ddiwedd tymor y Senedd hon, byddwn yn argymhell i'n pwyllgor olynol ei fod yn ceisio diweddariadau rheolaidd gan y llywodraeth nesaf ar amseriad gweithredu'r darpariaethau.

3. Rhan 1: Digartrefedd

Mae'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil yn ymwneud â Digartrefedd.

Helpu i atal digartrefedd

66. Mae Adrannau 1 a 2 o'r Bil yn ymwneud ag atal digartrefedd. Mae Adran 1 yn diwygio Deddf 2014 fel bod person yn cael ei ystyried "o dan fygythiad o ddigartrefedd" os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis, yn hytrach na'r cyfnod presennol o 56 diwrnod. Mae'r gwelliant hefyd yn nodi bod person o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw wedi cael hysbysiad ysgrifenedig yn ei gwneud yn ofynnol iddo ildio meddiannaeth o'i lety, neu os yw cais wedi'i wneud i'r Uchel Lys neu'r llys sirol i adennill meddiant. Mewn llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i gwestiwn ynghylch Adran 1(2)(a) ac a yw'r Bil yn ddigon eang i gynnwys ystod o hysbysiadau meddiant, nid dim ond hysbysiad a gyhoeddir o dan Adran 173 o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

67. Datganodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"Bwriad adran newydd 55(4)(a) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yw cofnodi hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson roi'r gorau i feddiannu ei lety, p'un a yw'n seiliedig ar fai ai peidio. Mae "hysbysiad" yn adran newydd 55(4)(a) o Ddeddf 2014 yn cynnwys nid yn unig hysbysiadau y caniateir eu cyflwyno mewn perthynas â chontractau meddiannaeth o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") ond hefyd hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson roi'r gorau i feddiannu ei lety, beth bynnag fo'r trefniadau sylfaenol."

68. Aeth ymlaen i ddweud bod:

"adran newydd 55(4)(a) o'i hystyried ynghyd â pharagraffau (b) a (c) o'r adran honno yn bodloni'r bwriad polisi. Maent yn caniatáu nid yn unig i bobl y mae'n ofynnol iddynt adael eu cartrefi gael mynediad at gymorth o dan y Ddeddf, ond hefyd i'r rhai y gallai fod yn ofynnol iddynt adael eu cartrefi yn y dyfodol agos."

69. Mae Adran 2 yn dileu Adran 65 o Ddeddf 2014 ac yn atgyfnerthu geiriad Adran 66 fel bod yn rhaid i'r awdurdod lleol "gynorthwyo i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw."

70. Mae'r Memorandwm yn nodi mai "nod y diwygiad hwn yw estyn y cyfnod o amser pan fydd awdurdod lleol yn gallu gweithio gyda cheisydd i'w atal rhag mynd yn ddigartref" a "rhoi eglurder i awdurdodau lleol a cheiswyr bod hysbysiadau yn ceisio meddiannaeth yn fygythiad o ddigartrefedd". Mae'n egluro mai'r bwriad y tu ôl i ymestyn y cyfnod atal yw y bydd yn "annog ceiswyr i gysylltu'n gynharach, cyn bod eu sefyllfa wedi dwysáu ac wedi mynd yn fwy cymhleth". Cred Llywodraeth Cymru fod hyn yn golygu y bydd gan awdurdodau lleol "gwell cyfle i atal digartrefedd".

71. Mae'r Memorandwm yn egluro ymhellach fod y cyfnod atal estynedig yn cydfynd â deddfwriaeth ddigartrefedd â Deddf 2016, lle gellir rhoi Hysbysiad Landlord yn Ceisio Meddiant i ddeiliad contract safonol cyfnodol ar sail 'dim bai' gan roi chwe mis o rybudd. Bydd aelwydydd o'r fath yn gallu cyflwyno eu hunain i awdurdod lleol cyn gynted ag y byddant yn derbyn hysbysiad, gan roi "cymaint o amser â phosibl" i'r awdurdod atal digartrefedd neu nodi opsiynau tai eraill.

72. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod 'cyfnod atal hirach yn golygu y gall pobl ofyn am gymorth yn gynharach' ac mae'n rhoi 'cyfle gwell a mwy o opsiynau i awdurdodau tai lleol atal digartrefedd', gan ychwanegu:

"Local authorities have been very clear with us that they need more time to prevent homelessness. The current 56-day time period isn't sufficient and it does delay people seeking help and then pushes them to the crisis point.

*So, through extending the prevention period to six months, we will give local authorities and the applicant a greater opportunity to prevent homelessness from occurring."*³⁷

73. Cafodd y darpariaethau i ymestyn y cyfnod atal groeso cyffredinol gan y rhanddeiliaid y clywsom ganddynt. Dywedodd Cymorth Cymru wrthym nad yw'r cyfnod atal presennol o 56 diwrnod yn ddigonol mwyach i allu datrys problemau tai pobl, ac felly mae ymestyn hynny i chwe mis yn angenrheidiol.³⁸ Cymeradwyodd yr Athro Fitzpatrick a'r Athro Mackie yr estyniad. Roedd The

³⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 46-47

³⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 262

Wallich, Tai Pawb, Housing Justice Cymru, Sefydliad Bevan a Chyngor Ffoaduriaid Cymru hefyd yn cefnogi'r darpariaethau, gyda The Wallich yn nodi y bydd yn galluogi gwasanaethau tai i gael cymorth priodol ar waith yn gynt, a rheoli llwythi achosion yn fwy effeithiol.³⁹

74. Disgrifiodd Shelter Cymru y cyfnod atal estynedig fel 'cam cadarnhaol' a dywedodd ei fod yn gydnabyddiaeth groesawgar o'r angen i ddarparu cefnogaeth i bobl cyn gynted â phosibl. Dywedodd Shelter Cymru wrthym, os caiff ei weithredu'n gywir, y gallai'r ddyletswydd atal estynedig arwain at 'lai o bobl yn cyrraedd y cam o fod angen llety dros dro' a fyddai, gobeithio, yn lleddfu'r pwysau ar y system.⁴⁰ Fodd bynnag, nododd y bydd sicrhau bod yr estyniad yn cyflawni effaith ymarferol i unigolion ac aelwydydd yn golygu y bydd angen mwy na newid deddfwriaethol yn unig, a'i fod am ddeall sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w alluogi i ganolbwyntio mwy o amser swyddogion ar fesurau atal.⁴¹ Yn yr un modd, dywedodd Housing Justice Cymru:

*"it is vital that this provision translates into practice with local authorities resourced to undertake prevention work with individuals at the point at which they present."*⁴²

75. Er gwaethaf croesawu'r estyniad, cyfeiriodd Sefydliad Bevan at bryderon ynghylch pa mor ystyrlon fydd yr estyniad hwn yn ymarferol, a beth fydd yn digwydd mewn gwirionedd yng nghanau cynnar y cyfnod chwe mis.⁴³

76. Clywsom fod rhai awdurdodau lleol eisoes wedi gweithredu cyfnod atal estynedig, gan gynnwys Caerdydd, Conwy, Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:

*"The Policy intention has already been considered and implemented in Neath Port Talbot prior to the introduction of the Bill. This can only have a positive impact on clients and ensures early intervention support is provided and homelessness is rare, brief and unrepeated."*⁴⁴

³⁹ HSHAWB 08, The Wallich (Saesneg yn unig)

⁴⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 163

⁴¹ HSHAWB 12, Shelter Cymru (Saesneg yn unig)

⁴² HSHAWB 42, Housing Justice Cymru (Saesneg yn unig)

⁴³ HSHAWB 45, Sefydliad Bevan (Saesneg yn unig)

⁴⁴ HSHAWB 16, Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot (Saesneg yn unig)

77. Er gwaethaf cefnogi egwyddor cyfnod atal chwe mis, mynegodd Cyngor Caerdydd bryder fod ei effeithiolrwydd yn gyfyngedig oherwydd prinder opsiynau tai fforddiadwy:

“Homelessness services already assist people up to six months before they face homelessness. Despite these efforts, finding suitable accommodation to prevent homelessness remains challenging due to the difficult housing market.”⁴⁵

78. Cydnabu CIH Cymru y byddai cyfnod estynedig yn darparu mwy o amser a chwmpas ar gyfer gwaith atal, ond teimlai ei fod hefyd yn debygol o gynyddu nifer y bobl sydd â dyletswydd a’r gwaith papur cysylltiedig sy’n cyd-fynd â llwythi achosion cynyddol, gan ychwanegu:

“We are concerned that any additional administrative burden, by its nature needing to be person-centred and transparent at all stages, will overload an already stretched workforce at local authority level.”⁴⁶

79. Mynegodd Cyngor Abertawe bryder ynghylch ymestyn yr amserlenni o 56 diwrnod i chwe mis, gan ddatgan ei fod yn ‘rhy hir’ a bod amgylchiadau’n gallu newid yn sylweddol mewn cyfnod o chwe mis. Ychwanegodd:

“It means that there will be significantly more cases for caseworkers to manage at any given time and will add further pressure to services that are already under significant strain. It will undoubtedly require additional resources to manage the increased workload.”⁴⁷

80. Nododd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl ei fod yn cefnogi cynyddu’r cyfnod atal i chwe mis i gyd-fynd â deddfwriaeth Rhentu Cartrefi Cymru, ac er gwaethaf cydnabod y dylai’r newid hwn alluogi aelwydydd i geisio cymorth cyn gynted ag y derbynnir hysbysiad Adran 173, mynegodd bryder y bydd awdurdodau lleol yn parhau i gynghori tenantiaid i ‘aros yn eu lle’, er gwaethaf bwriad y Bil. Ychwanegodd:

“We particularly believe this will be the case where the private rented sector stock continues to shrink and local authorities face resource constraints. Financial pressures coupled with the

⁴⁵ HSHAWB 35, Cyngor Caerdydd (Saesneg yn unig)

⁴⁶ HSHAWB 28, CIH Cymru (Saesneg yn unig)

⁴⁷ HSHAWB 44, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)

proportionally larger number of fault-based claims mean that local authorities are unlikely to be able to fully assess applications.”⁴⁸

81. O ran darpariaethau ehangach yn ymwneud ag adolygiadau, dywedodd yr Athro Fitzpatrick wrthym nad oedd yn glir a allai rhywun ofyn am adolygiad ynghylch a oedd awdurdod lleol wedi cymryd y camau rhesymol sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod atal chwe mis.⁴⁹ Dywedodd Shelter Cymru wrthym y dylai'r hawliau adolygu ddod ynghyd â mynediad at gyngor arbenigol annibynnol.⁵⁰

82. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn rhoi hawl i geisydd ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg tra bod y cynllun yn cael ei gynnal, a bod yr hawl honno i adolygu yn cynnwys adolygiad o briodoldeb y camau i'w cymryd gan yr awdurdod yn ystod cyfnod o chwe mis.⁵¹

83. Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel enghraifft o awdurdod lleol sydd eisoes wedi ailstrwythuro ei wasanaethau i arfer mwy ataliol wrth ragweld y Bil, ac sydd bellach yn nodi cyfradd atal o 80 y cant.

84. Gwnaethom drafod gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i rannu arfer gorau ar draws awdurdodau lleol, a dywedodd wrthym:

“We have organised some best practice events across Wales, where local authorities can share their experiences. We've had learning events, enabling local authorities to hear and see some of that innovative practice, just from further afield, such as the work that's going on in Manchester, and also the work that's going on in Scotland.

We've also got a rapid rehousing summit, to showcase some of those progressive approaches, later this month.”⁵²

Ein barn ni

85. Rydym yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil i ymestyn yr amser sydd gan awdurdodau lleol i weithio gyda phobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref

⁴⁸ HSHAWB 19, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl (Saesneg yn unig)

⁴⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 89

⁵⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 209

⁵¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 91

⁵² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 79-81

gyda'r nod o nodi ateb addas a'u hatal rhag dod yn ddigartref. Mae atal digartrefedd yn allweddol a gallai cynyddu'r amser sydd ar gael wneud gwahaniaeth sylweddol. Nodwn dystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet fod rhai awdurdodau lleol eisoes wedi ailstrwythuro eu gwasanaethau i ganolbwyntio mwy ar atal a bod rhai wedi dechrau gweld canlyniadau hyn. Credwn, lle profir bod ymyriadau o'r fath yn llwyddiannus, y bydd yn hanfodol rhannu'r gwersi a ddysgwyd gydag awdurdodau lleol eraill a fydd yn gallu elwa o'r profiadau. Rydym yn cydnabod yr ymdrechion sydd eisoes yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru i ledaenu'r wybodaeth hon, fodd bynnag teimlwn y dylai gymryd camau mwy rhagweithiol y tu hwnt i ddosbarthu i sicrhau bod yr arfer da hwn yn cael ei fabwysiadu.

86. Er ein bod yn croesawu'r cyfnod atal estynedig, rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid mai dim ond os cânt eu gweithredu'n briodol y bydd y darpariaethau'n effeithiol. Bydd yn hanfodol bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyfnod estynedig yn ei gyfanrwydd fel bod y gwaith atal yn dechrau cyn gynted â phosibl. Rydym yn croesawu eglurhad yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd hawliau adolygu ar gael i geiswyr o fewn y cyfnod atal chwe mis, a fydd yn helpu i sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd mewn modd amserol. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd argaeledd opsiynau llety hyfyw yn ffactor o ran effeithiolrwydd cynyddu cyfraddau atal.

Asesu anghenion a gwneud cynlluniau ar gyfer sicrhau llety a chymorth ac adolygiadau

87. Mae Adran 3 yn diwygio Adran 62 o Ddeddf 2014 i'w gwneud yn ofynnol, pan fydd awdurdod lleol yn cynnal asesiad o sefyllfa tai ceisydd, fod anghenion cymorth y ceisydd yn cael eu cynnwys a bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw i'r safbwyntiau hynny. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen ar y ceisydd o ran deall gwybodaeth a gyfathrebu gan yr awdurdod lleol. Y bwriad yw ei gwneud yn haws i geiswyr ddeall llythyrau a mathau eraill o gyfathrebu.

88. Mae Adran 4 yn diwygio Deddf 2014 i fewnosod darpariaeth newydd sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i baratoi a chynnal Cynllun Atal, Cefnogaeth a Llety ar gyfer ceiswyr y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt. Mae hyn yn datblygu ymhellach y Cynlluniau Tai Personol cyfredol. Mae'r adran yn amlinellu'r broses ar gyfer paratoi cynllun atal, cefnogaeth a llety ac yn nodi'r amgylchiadau pan fo'n rhaid i awdurdodau tai lleol adolygu'r cynllun. Yn y Memorandwm, nodir mai bwriad y Cynllun Atal, Cefnogaeth a Llety yw cynnig

adnodd i gefnogi dull o ymdrin â digartrefedd sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma.

89. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y Cynllun Atal, Cefnogaeth a Llety yn darparu cofnod ffurfiol o'r camau i'w cymryd i atal digartrefedd a bydd yn cael ei ddatblygu ar y cyd rhwng y ceisydd a'r awdurdod lleol.⁵³

90. Mae Adran 5 yn diwygio Deddf 2014 i roi hawliau newydd i geiswyr ofyn am adolygiad mewn perthynas â'r penderfyniadau a'r asesiadau a ganlyn a wneir gan awdurdod tai lleol:

- penderfyniad i beidio â chynnal asesiad o achos unigolyn;
- asesiad o anghenion tai;
- asesiad o'r gefnogaeth y mae ei hangen ar geisydd i gadw llety neu oresgyn rhwystrau i fyw'n annibynnol; a
- Chynllun Atal, Cefnogaeth a Llety.

91. Y bwriad wrth gyflwyno'r hawliau newydd i ofyn am adolygiad yw darparu mwy o dryloywder ac atebolrwydd.

92. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio hawl bresennol i adolygiad mewn perthynas ag addasrwydd y llety a gynigir gan awdurdod tai. Mae'n ymestyn yr amserlenni presennol fel y gall ceiswyr ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg cyn derbyn cynnig. Ar ôl derbyn cynnig, gall ceiswyr ofyn am adolygiad o fewn chwe mis i'r llety gael ei ddarparu, neu ar unrhyw adeg pan fydd dyletswydd o dan Adran 66, 68 neu 75 o Ddeddf 2014 yn gymwys. Y bwriad yw helpu i leihau digartrefedd mynych drwy sicrhau y gall mwy o geiswyr gael mynediad at y llety cywir ar yr amser cywir.

93. Roedd y rhan fwyaf o'r tystion o blaid cyflwyno Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety, gan gynnwys The Wallich, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, yr Athro Mackie a Chomisiynydd Plant Cymru. Dywedodd Cymorth Cymru wrthym y bydd Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety yn helpu i sicrhau bod yr angen am gymorth yn cael ei asesu, a bod y mecanweithiau priodol ar waith i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth.⁵⁴

94. Er i randdeiliaid gefnogi'r syniad o'u cyflwyno, awgrymodd rhai newidiadau i'r darpariaethau ar Gynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety, yn unol ag argymhellion a

⁵³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 49

⁵⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 326

wnaed gan y Panel Adolygu Arbenigol. Cyfeiriodd yr Athro Mackie at y gofyniad i awdurdod tai geisio cytuno â'r ceisydd ar unrhyw gamau y mae'r ceisydd i'w cymryd, a dywedodd nad oedd y Panel yn argymhell eu cynnwys. Argymhellodd y dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i ailganolbwyntio'r Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety ar anghenion cymorth, dyheadau, a'r camau rhesymol y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd – ac esemptio camau y gallai aelwydydd eu cymryd.⁵⁵ Pwysleisiodd Crisis y dylai'r Cynlluniau hefyd gynnwys cyfeiriad at gofnodi barn y ceisydd ar addasrwydd – fel yr awgrymwyd gan y panel.⁵⁶

95. Dywedodd Shelter Cymru fod gorfodi a safoni Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety yn 'welliant clir ar y trefniadau presennol' a bod y darpariaethau'n dangos symudiad tuag at ffordd o weithio sy'n canolbwyntio mwy ar y person ac sy'n ystyriol o drawma. Cyfeiriodd at amrywiadau yn arfer cyfredol awdurdodau lleol o amgylch Cynlluniau Tai Personol ac roedd yn galw am ganllawiau cliriach ar Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety, ochr yn ochr ag adnoddau a hyfforddiant priodol i wneud y cynlluniau'n 'ystyrlon ac yn effeithiol'. Roedd hefyd yn croesawu'r hawliau adolygu estynedig i geiswyr, a nodir yn Adran 5, ond galwodd eto am ganllawiau, gan gynnwys yr angen i ddarparu digon o wybodaeth i geiswyr actifadu'r hawliau adolygu hyn – gan gynnwys cyfeirio at opsiynau cyngor annibynnol, am ddim, sydd â sicrwydd ansawdd.⁵⁷

96. Galwodd Llamau hefyd am ganllawiau statudol ar ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety, gan ychwanegu:

"These plans must be person-centred and trauma-informed, and guidance will help ensure consistency across Wales while allowing for local adaptation."⁵⁸

97. Mynegwyd pryder gan sawl awdurdod lleol y byddai gweithredu'r Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety, pwyntiau adolygu ychwanegol, a chynnydd posibl mewn cyflwyniadau yn cymryd mwy o amser i staff y rheng flaen. Cytunodd CLILC y dylid adolygu'r Cynlluniau bob wyth wythnos yn ystod y cyfnod atal ond galwodd am welliant i adolygu'r Cynlluniau yn llai aml yn ystod cyfnod dyletswydd digartrefedd Adran 75, gan y byddai hyn yn cymryd llawer iawn o amser i awdurdodau lleol, ac o bosibl yn rhwystredig i geiswyr yn ystod eu harhosiad mewn llety dros dro. Roedd yn dadlau y byddai ceiswyr sydd ag anghenion cymorth eisoes yn cael adolygiadau misol gyda'u gweithiwr cymorth dynodedig yn ystod y cyfnod hwn,

⁵⁵ HSHAWB 06, Yr Athro Peter Mackie, Prifysgol Caerdydd (Saesneg yn unig)

⁵⁶ HSHAWB 43, Crisis (Saesneg yn unig)

⁵⁷ HSHAWB 12, Shelter Cymru (Saesneg yn unig)

⁵⁸ HSHAWB 49, Llamau (Saesneg yn unig)

ac roedd yn galw ar awdurdodau lleol i allu pennu lefel angen y ceisydd ac addasu amseroldeb yr adolygiad yn unol â hynny.⁵⁹

98. Amcangyfrifodd rhai awdurdodau lleol y cynnydd posibl mewn llwyth gwaith staff, gyda Chyngor Sir Caerfyrddin yn awgrymu y gallai arwain at dreulio 56 awr ar adolygiadau sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety ar gyfer un achos dros gyfnod o chwe mis.⁶⁰ Nododd Cyngor Caerdydd, er bod y Cynlluniau'n 'ddatblygiad adeiladol', y bydd yr adolygiadau rheolaidd yn 'ychwanegu straen sylweddol', gan ychwanegu:

*"Cardiff Council could be required to complete over 2,000 PSAPs every two months. Meeting this level of demand will require substantial investment- both in staffing and other financial resources- to ensure services can respond effectively."*⁶¹

99. Mynegodd Cyngor Sir Penfro bryder na fydd yn gallu bodloni'r galw o fewn yr adnoddau presennol⁶², tra bod Cyngor Sir y Fflint wedi dweud wrthym fod cyllid yn 'risg enfawr o ran pwyntiau cyswllt ychwanegol gyda thrigolion', ac y bydd heriau o ran darparu'r amser sydd ei angen ar staff y rheng flaen.⁶³

100. Holodd Cyngor Sir Fynwy ynghylch amserlen amcangyfrifedig pedair awr yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer cwblhau Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety, gan nodi nad yw'n hollol glir a yw'r dyraniad pedair awr hwn yn ymwneud â chreu'r Cynlluniau yn unig, neu a yw adolygiadau drwy gydol taith y ceisydd wedi'u cynnwys yn yr amserlen hon. Ychwanegodd:

*"If the former the RIA does not take into consideration the burden of reviewing PSAPs on an eight-weekly basis. If the latter, then this is an unrealistic time frame. It is not uncommon for an applicant to be owed a homeless duty in excess of 18 months. Four hours across this lifecycle will not go very far."*⁶⁴

101. Aeth Cyngor Abertawe gam ymhellach drwy ddatgan nad oes angen gorfodi'r angen am Gynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety. Awgrymodd y gallai'r darpariaethau arwain at y swyddog achos yn treulio mwy o amser yn cwblhau'r Cynllun yn hytrach nag gyda'r unigolyn yn ceisio atal y sefyllfa digartrefedd. Aeth

⁵⁹ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

⁶⁰ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

⁶¹ HSHAWB 35, Cyngor Caerdydd (Saesneg yn unig)

⁶² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 99

⁶³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 95

⁶⁴ HSHAWB 38, Cyngor Sir Fynwy (Saesneg yn unig)

ymlaen i nodi y gallai adolygu Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety ar ôl wyth wythnos godi disgwyliadau'r unigolyn y bydd canlyniad ar y pwynt hwn.⁶⁵

102. Cynigiwyd barn wahanol gan Gyngor Sir Ynys Môn a groesawodd y pwynt adolygu wyth wythnos.⁶⁶

Ein barn ni

103. Rydym yn cefnogi cyflwyno Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety, yn enwedig y cysondeb y dylai eu defnydd ei gynnig i geiswyr ledled Cymru os yw pob awdurdod lleol yn dilyn yr un dull. Rydym yn deall y pwysigrwydd o geiswyr yn gallu mynegi eu barn ar y canlyniad tai cywir iddynt, ac mae'r cynlluniau hyn yn rhoi cyfle i hyn ddigwydd yn rheolaidd.

104. Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan awdurdodau lleol ynghylch y goblygiadau posibl o ran adnoddau yn sgil cynnal adolygiadau rheolaidd o Gynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety, ac er ein bod yn gwerthfawrogi eu hamheuron, teimlwn y bydd y cynlluniau'n fuddiol. Nodwn yr awgrym a wnaed gan CLILC y dylai awdurdodau lleol allu pennu lefel angen y ceisydd ac addasu amseroldeb yr adolygiad yn unol â hynny, fodd bynnag rydym yn pryderu y gallai hyn arwain at anghysondebau ledled Cymru a rhai pobl yn colli allan ar gael adolygiad o'u sefyllfa. Ni ddylid diystyru pryderon awdurdodau lleol serch hynny, a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ymgysylltu ymhellach â nhw leol i ddeall eu safbwynt a darparu cymorth ychwanegol os bydd angen.

Casgliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu ymhellach ag awdurdodau lleol i ddeall eu pryderon ynghylch lefel yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu darpariaethau sy'n ymwneud â'r Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety.

Diwygio dyletswyddau i sicrhau llety

Pobl sydd â chysylltiad lleol

105. Mae Adran 6 yn dileu'r ddyletswydd bresennol o dan Adran 73 o Ddeddf 2014 i helpu i sicrhau llety i geiswyr digartref. Gwneir hyn oherwydd y byddai'r ddyletswydd hon yn ddiangen pe cai'r profion angen blaenoriaethol (adran 9) a bwriadoldeb (adran 10) eu dileu yn ôl y bwriad.

106. Mewnosodir adran newydd yn lle Adran 75 o Ddeddf 2014 i nodi'r amgylchiadau pan fo rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas ar gael i

⁶⁵ HSHAWB 44, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)

⁶⁶ HSHAWB 39, Cyngor Sir Ynys Môn (Saesneg yn unig)

geisydd ei feddiannu. Y bwriad yw symleiddio deddfwriaeth digartrefedd a sicrhau bod llety dros dro a llety sefydlog ar gael i'r rhai y mae ei angen arnynt.

107. Mae'r ddyletswydd yn gymwys os yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd yn ddigartref, neu os oes ganddo lety dros dro addas o ganlyniad i fod yn ddigartref neu fod o dan fygythiad o ddigartrefedd. Rhaid i'r ceisydd hefyd fod yn gymwys i gael cymorth.

108. Mae'r Adran 75(4) newydd yn creu cysyniad newydd, sef 'dim cysylltiad lleol â Chymru'. Mae'n darparu na fydd rhaid i awdurdodau lleol "dderbyn dyletswydd i sicrhau llety i'r rhai heb gysylltiad lleol yng Nghymru mwyach". Nid yw'r esemptiad hwn i'r ddyletswydd yn berthnasol o dan amgylchiadau pan fo'r ceisydd, neu unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd, mewn perygl o ddioddef camdriniaeth. Mae'r Adran 75 newydd hefyd yn darparu ar gyfer pŵer i wneud rheoliadau i esemptio categorïau rhagnodedig o bobl o'r prawf cysylltiad lleol â Chymru. O ran carcharorion sy'n bwrw dedfrydau o garchar, nid yw'r ddyletswydd yn berthnasol os nad yw'n rhesymol debygol y byddant yn cael eu rhyddhau o fewn chwe mis. Bwriedir i'r prawf 'cysylltiad lleol â Chymru' newydd weithio ochr yn ochr â'r prawf cysylltiad lleol presennol a gymhwysir ar lefel awdurdod lleol.

109. Mae'r Memorandwm yn egluro bod Llywodraeth Cymru wedi "mabwysiadu'r dull gweithredu hwn er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod costau yn cael eu dosbarthu'n deg ledled Cymru ac sy'n rheoli adnoddau cyfyngedig yng Nghymru". Ymhelaethodd yr Ysgrifennydd Cabinet drwy egluro bod y ddarpariaeth cysylltiad lleol yn 'offeryn allweddol' wrth sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael adnoddau ac yn canolbwyntio ar bobl yn eu cymunedau, gan ychwanegu bod y newidiadau yn y Bil 'er budd i bobl yng Nghymru'. Aeth ymlaen i egluro bod y ddarpariaethau'n wahanol i'r cynnig gwreiddiol yn y Papur Gwyn i gyflwyno mwy o esemptiadau i'r prawf cysylltiad lleol presennol (Adran 81 o Ddeddf 2014), gan fod Llywodraeth Cymru wedi wynebu 'cymhlethdodau' ynghylch goblygiadau trawsffiniol. Dywedodd ei bod yn hanfodol sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd yn 'canolbwyntio ar bobl Cymru a'n cymunedau', a chred fel arall na fydd yn bosibl cyflawni amcanion y Bil.⁶⁷

110. Rhannodd cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws eu profiadau o gysylltiad lleol:

"When I was on the street they told me to relocate back to England, because that's where I come from. Yet my family live in the Rhondda. Cardiff isn't close enough to the Rhondda so I

⁶⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 78-82

was told to go back to England. It wasn't until [Contributor 1] got me a waiver on the local thing."

"So I used to do that job many moons ago, so [Participant 1] accessed the reconnection service and needed support to have a waiver because [Participant 1] had been so transient, we were able to evidence that he actually doesn't have a local connection anywhere. That story is quite familiar for a lot of people who find themselves in Cardiff."

Cyfranogwyr grŵp ffocws

111. Dywedodd yr Athro Fitzpatrick wrthym na all weld diben y ddarpariaeth cysylltiad lleol â Chymru gan nad yw'n newid dim byd yn sylweddol o'r sefyllfa gyfreithiol bresennol, gan egluro:

"at the moment, if someone from England applies to a Welsh local authority and they don't have a local connection with that Welsh local authority, and they do have local connection with a local authority in England, they can be referred back at the main stage anyway."⁶⁸

112. Cytunodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn unfrydol fod creu'r prawf cysylltiad lleol newydd â Chymru yn 'gadarnhaol iawn' ac nad oes unrhyw broblemau ag ef.⁶⁹ Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthym ei fod yn deall pam nad yw'r Bil wedi 'mynd ymhellach' ar gysylltiad lleol ond ei fod yn cadw at y safbwynt bod rhai achosion lle nad oes gan bobl gysylltiad lleol ac y dylid eu cefnogi o hyd, fel cyn-filwyr a'r rhai sy'n gadael gofal a ffoaduriaid a phobl o gymunedau LHDTG+. ⁷⁰

113. Er nad oedd Cymorth Cymru yn cefnogi cysylltiad lleol gan y gall roi pobl dan anfantais, yn enwedig o grwpiau sydd wedi'u hymylu, roedd yn deall pam ei bod yn bwysig iawn i awdurdodau lleol a dywedodd wrthym ei fod yn derbyn hynny. Fodd bynnag, mynegodd siom nad yw'r grwpiau o bobl a awgrymwyd gan y Panel Adolygu Arbenigol ar gyfer esemptiad wedi'u cynnwys yn y Bil.⁷¹ Cefnogwyd y farn hon gan The Wallich.⁷² Mynegodd Cymorth Cymru a The Wallich gefnogaeth i

⁶⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 61

⁶⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 92-93

⁷⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 281

⁷¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 308-310

⁷² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 312

esemptio pobl y byddai dychwelyd i leoliad yn niweidiol iddynt, fel pobl sy'n dianc rhag camddefnyddio alcohol neu sylweddau, neu ymddygiad troseddol.⁷³

114. Roedd Shelter Cymru hefyd yn cefnogi esemptiadau ar gyfer 'rhai grwpiau sy'n agored i niwed', a dywedodd wrthym fod atgyfeiriadau mewn perygl o arwain at ddigartrefedd ar y stryd gan 'nad ydynt o reidrwydd yn golygu bod pobl yn symud ymlaen.'⁷⁴

115. Tynnodd Crash Wigley a Liz Davies CB sylw at fwch posibl yn y prawf cysylltiad lleol â Chymru, a allai olygu y gallai ceiswyr sydd heb gysylltiad lleol yn unman gael eu hesemptio a'u 'gadael i grwydro', tra bod y ddeddfwriaeth bresennol yn darparu bod pobl heb gysylltiad lleol yn unman yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol y maent yn gwneud cais iddo.⁷⁵

116. Dywedodd yr Athro Fitzpatrick y byddai wedi bod yn well ganddi pe bai'r esemptiadau a gynigiwyd yn y Papur Gwyn wedi'u cario drwodd i'r Bil, ond ei bod yn falch bod 'pwerau rheoleiddio i wneud mwy ar hyn yn y dyfodol.'⁷⁶ Dywedodd sawl tyst, gan gynnwys yr Athro Mackie, yr Athro Fitzpatrick⁷⁷, Shelter Cymru⁷⁸, Cymorth Cymru⁷⁹, The Wallich⁸⁰, Crisis⁸¹, Cymuned G4S⁸², Clinks⁸³, a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol⁸⁴ y byddent o blaid rhoi categorïau esemptiadau ar wyneb y Bil, gyda'r bwriad o adfer cysylltiad lleol ar gyfer y categorïau hynny yn y dyfodol os yw'n arwain at effeithiau na ellir eu rheoli.

117. Clywsom gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) y byddai'n ddefnyddiol cael hyblygrwydd i esemptio pobl sy'n gadael carchar o'r prawf cysylltiad lleol presennol gan fod 'rhai amgylchiadau lle gall pobl elwa o ddechrau o'r newydd', ac awgrymwyd trefniant cilyddol rhwng awdurdodau lleol.⁸⁵ Nododd Clinks fod peidio â defnyddio'r Bil i esemptio pobl sy'n gadael carchar o'r prawf cysylltiad lleol yn 'gyfle wedi'i golli' o ystyried y gallai dychwelyd i'w hardal gartref eu rhoi mewn perygl neu yn erbyn eu trwydded.⁸⁶ Galwodd

⁷³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 322-323

⁷⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 194

⁷⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 191-193

⁷⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 66-67

⁷⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 73-74

⁷⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 198

⁷⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 314

⁸⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 316

⁸¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 451

⁸² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 525

⁸³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 526

⁸⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 612

⁸⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 509

⁸⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 512

HMPPS a Chymuned G4S am ganllawiau clir i sicrhau dull cyson pan fyddai'n fanteisiol i rywun sy'n gadael carchar symud i ardal wahanol.⁸⁷

118. Dywedodd Cymorth i Fenywod Cymru wrthym eu bod 'wrth eu bodd' bod yr esemptiad ar gyfer goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi'i gynnwys yn y Bil gan ei fod yn 'hanfodol i'r ffordd y mae'r system loches yn gweithio' a'i bod yn hanfodol bod y ddarpariaeth yn parhau.⁸⁸ Fodd bynnag, roedd yn teimlo bod angen eglurder ynghylch y 'cymal brys' yn Adran 75 newydd Deddf 2014 gan y gallai fod yn 'agored i ddiffyg cymhwysiad cyson rhwng awdurdodau lleol'.⁸⁹

119. Mewn ymateb i'r dystiolaeth a glywsom ar gynnwys esemptiadau i'r prawf cysylltiad lleol presennol ar gyfer rhai grwpiau ar wyneb y Bil, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei bod yn bwriadu ystyried gwneud esemptiadau pellach yn y dyfodol a chydabu y gallai fod grwpiau penodol a all fod dan anfantais oherwydd y cysyniad o gysylltiad lleol. Fodd bynnag, ei barn hi yw bod yn rhaid gwneud hyn mewn ffordd reoledig i 'reoli'r risg o wahaniaethu posibl' a bod yn 'rhaid cyfiawnhau unrhyw driniaeth wahaniaethol i grwpiau penodol gyda'r dystiolaeth gadarn honno'. Ychwanegodd:

*"There is more work for us to do as the evidence has to be considered for all groups, not just certain groups. We have to look across the board. There is work to do there, but ensuring we get the balance right and managing all the risks is vital. The Bill gives us a mechanism to do that and we can consult and prepare regulations that the Senedd would be asked to approve before the requirements came into force."*⁹⁰

120. Mewn ymateb i'r bwlch posibl a grybwyllwyd wrthym, a allai olygu y gallai ceiswyr heb gysylltiad lleol yn unman gael eu hesemptio, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn 'ymwybodol o nifer fach o bobl a allai fod yn perthyn i'r categori hwn' ond dywed fod agwedd amgylchiadau arbennig yr elfen cysylltiad lleol o fewn y Bil yn darparu'r hyblygrwydd hwnnw i alluogi awdurdodau lleol i allu cefnogi rhywun. Ailadroddodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd yr esemptiad hwnnw lle byddai awdurdodau lleol yn gallu helpu'r 'nifer fach o bobl' sy'n dod o dan y categori o fod heb gysylltiad lleol.⁹¹

⁸⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 510 a 514

⁸⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 318

⁸⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 338

⁹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 61-62

⁹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 73-75

Ein barn ni

121. Rydym yn cydnabod o'r dystiolaeth a gyflwynwyd inni fod rhai rhanddeiliaid yn bryderus ynghylch y posibilrwydd o gadw cysylltiad lleol yn ei ffurf bresennol ac o greu cysylltiad lleol newydd â Chymru ar gyfer y prawf hefyd. Rydym yn cytuno, yn ddelfrydol, na fyddai angen profion o'r fath ac na ddylent chwarae rhan mewn system sydd wirioneddol yn ystyriol o drawma. Nodwn fod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ei hun wedi dyfynnu tystiolaeth y gallai rhai pobl ddewis aros yn ddigartref mewn ardal awdurdod lleol hyd yn oed ar ôl i gymorth gael ei wrthod oherwydd diffyg cysylltiad lleol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn deall sail pryderon awdurdodau lleol. Rydym yn gwerthfawrogi bod cysylltiad lleol yn ddarpariaeth bwysig i awdurdodau lleol reoli eu hadnoddau prin, ac rydym yn cydnabod bod elfennau eraill o'r Bil hwn yn cynyddu'r pwysau ar yr adnoddau hynny. Felly, ar y cyfan, rydym yn cefnogi ei gynnwys yn y Bil.

122. O ystyried y gall awdurdodau lleol eisoes gyfeirio ceiswyr at awdurdodau lleol yn Lloegr os oes ganddynt gysylltiad lleol yno, rydym yn parhau i fod yn aneglur ynghylch faint o wahaniaeth ymarferol y bydd y prawf cysylltiad lleol newydd â Chymru yn ei wneud. Fodd bynnag, rydym yn derbyn dadleuon Llywodraeth Cymru bod cysylltiad lleol yn gysyniad cymhleth a bod canlyniadau anfwriadol yn gallu bod yn ddifrifol os na chaiff deddfwriaeth ei drafftio mewn ffordd fanwl gywir. Rydym yn gwerthfawrogi bod y prawf newydd yn anfon neges glir ynglŷn â phwy sydd â hawl i gael cymorth yng Nghymru.

123. Rydym yn croesawu'r ddarpariaeth i esemptio ceisydd o'r prawf os ydyw ef, neu aelod o'i aelwyd, mewn perygl o ddioddef camdriniaeth. Mae'n briodol y dylai esemptiad o'r fath aros ar waith i amddiffyn y grŵp hwn sy'n agored i niwed, ac rydym yn croesawu ehangu'r diffiniad o gamdriniaeth yn Adran 28.

124. Rydym yn cydnabod y byddai esemptiad o'r fath o'r prawf cysylltiad lleol presennol hefyd o fudd i sawl categori arall o bobl, yn enwedig y rhai a amlygwyd yn y Papur Gwyn gwreiddiol, ac yn parhau i bryderu nad yw hyn yn wir. Fodd bynnag, ar ôl trafod gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y potensial ar gyfer esemptio grwpiau eraill ar wyneb y Bil, rydym yn deall ac yn derbyn ei rhesymeg bod yn rhaid rheoli'r risg o wahaniaethu yn gywir. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd yn ystyried a ellid esemptio grwpiau pellach yn y dyfodol, ac yn dilyn gwaith pellach a chasglu tystiolaeth, y gellid gwneud hyn drwy is-ddeddfwriaeth. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach i gasglu tystiolaeth ynghylch a ddylid caniatáu esemptiad i'r prawf cysylltiad lleol i grwpiau ychwanegol o bobl.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith pellach i gasglu tystiolaeth ynghylch a ddylid caniatáu esemptiad i'r prawf cysylltiad lleol i grwpiau ychwanegol.

Amgylchiadau lle mae'r ddyletswydd i sicrhau llety yn dod i ben

125. Mae Adran 7 yn diwygio Deddf 2014 i gyflwyno rhagor o amgylchiadau pan fydd y brif ddyletswydd tai o dan Adran 75 yn dod i ben. Mae'n darparu y caiff awdurdodau lleol ddefnyddio ystod ehangach o opsiynau llety wrth gyflawni'r ddyletswydd, a fyddai wedi bod ar gael fel rhan o'r ddyletswydd o dan Adran 73 (a ddilëwyd) i helpu i sicrhau llety, ond nid o dan y brif ddyletswydd tai yn Adran 75. Mae hyn yn cynnwys cartrefi blaenorol neu deuluol (os ydynt yn ddiogel) neu lety â chymorth.

126. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y llety yn addas, ei fod yn debygol o fod ar gael i'w feddiannu am gyfnod o 12 mis o leiaf (yn wahanol i'r cyfnod presennol o chwe mis), a bod y ceisydd yn cytuno y dylai'r ddyletswydd ddod i ben. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y ddarpariaeth yn fwriadol o eang er mwyn rhoi cyfle i barhau i ddod i gytundeb â rhanddeiliaid ynglŷn â'r mathau priodol o lety.

127. Mae'r adran hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan ganiateir i awdurdodau lleol ddod â dyletswyddau Adran 75 i ben os yw'r unigolyn dan sylw yn bwrw dedfryd o garchar. Y bwriad yw rhoi mwy o eglurder, a sicrhau na fydd dyletswyddau'n ddyledus gan awdurdodau lleol lle nad oes gobaith y gallant gyflawni gwaith ystyrlon.

128. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym, wrth ddarparu ar gyfer ystod ehangach o opsiynau llety, fod y Bil yn cynnwys 'ystod o fesurau diogelwch' i sicrhau bod buddiannau'r sawl sy'n derbyn un o'r cynigion hynny yn cael eu diogelu, gan gynnwys bod yn rhaid i unrhyw gartref a gynigir fod yn ddiogel, yn addas ac ar gael am o leiaf ddeuddeg mis ac y byddai'n ofynnol i'r awdurdod tai lleol wneud gwaith dilynol o fewn chwe mis gydag unrhyw un sy'n derbyn cynnig. Ychwanegodd fod mesurau diogelwch pellach, fel y rhai a nodir yn y Papur Gwyn, wedi'u sefydlu'n well yn y canllawiau.⁹²

129. Aeth swyddog o Lywodraeth Cymru ymlaen i ychwanegu bod unrhyw un sy'n cael cynnig y mathau hyn o lety yn 'gallu cydsynio'n benodol iddynt', a dywed fod hynny'n amlwg yn golygu bod ganddynt hefyd y pŵer i roi feto arnynt. Dywedodd y swyddog wrthym nad yw mesurau diogelwch eraill fel mynediad at

⁹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 56-57

wasanaethau cyngori priodol ac addaswydd llety yn briodol i'w cynnwys mewn Bil.⁹³

130. Er bod yr holl dystion o blaid caniatáu i brif ddyletswydd Adran 75 gael ei chyflawni gydag ystod ehangach o opsiynau llety, galwodd rhai am ofyniad ar wyneb y Bil i gynnig cyngor tai annibynnol cyn cyflawni'r ddyletswydd drwy'r llwybr hwn, yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol, fel y gall cyngor annibynnol lywio caniatâd ceiswyr. Eglurodd Crash Wigley y byddai cael mynediad at gyngor annibynnol yn caniatáu i unigolion gael "sgysiau sensitif" ynghylch unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch derbyn cynnig:

*"...siawns i gael sgwrs go iawn am y pryderon yna efo rhywun annibynnol rwyf ti'n trystio ynddyn nhw, mae hwnna'n rili bwysig i sicrhau bod y trefniadau yma'n mynd i siwtio'r person go iawn."*⁹⁴

131. Croesawodd Crisis y mesurau diogelwch sydd eisoes yn y Bil, ond teimlai y byddai cael cyngor annibynnol yn 'cydgysylltu'r cyfan ac yn helpu'n fawr', gan ychwanegu:

*"An offer of independent advice, and having it on the face of the Bill, would be really helpful to make sure that that person makes that decision fully informed."*⁹⁵

132. Dywedodd yr Athro Fitzpatrick wrthym fod rhywun sydd â mynediad at gyngor annibynnol hefyd yn darparu amddiffyniad i awdurdodau lleol rhag her gyfreithiol gan y gall yr awdurdod lleol fod yn fwy hyderus bod hwn yn safbwynt y gellir ei amddiffyn gan ei fod yn wir yn 'ganiatâd dily' os yw'r person hwnnw wedi cael mynediad at gyngor annibynnol.⁹⁶ Rhannodd Liz Davies CB farn debyg, gan fynegi mai'r hyn sydd ei eisiau yw eglurder ar wyneb y Bil, a daeth i'r casgliad bod y ddarpariaeth yn 'beth da' ond 'bod angen ei haddasu ychydig'.⁹⁷

133. Cefnogodd End Youth Homelessness Cymru (EYHC) y cyfeiriad at lety â chymorth, ond roedd EYHC, ynghyd â Voices from Care, yn galw am rybudd fel nad yw cyfryngu teuluol yn ymyrraeth ddiofyn i bobl ifanc os nad yw dychwelyd adref yn opsiwn diogel iddynt. Dywedodd wrthym:

⁹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 58

⁹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 219

⁹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 479

⁹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 117

⁹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 218

*"I'd be nervous in supporting something that doesn't allow or doesn't support or have those safeguards in place for certain groups of young people, where that return to home might then be forced upon them by a well-meaning practitioner who doesn't maybe understand the full picture or full situation."*⁹⁸

134. Galwodd yr Athro Mackie am gasglu data i gyd-fynd â'r diwygiadau deddfwriaethol hyn i:

*"enable us to look at who is allocated into what sort of housing solution and who ends up, perhaps, coming back into the system or where that fails that lets us then at least monitor whether there are any unintended consequences, for instance certain groups of the population consistently not getting access to social housing or accessing a particular form of the private rented sector. But that would enable us to monitor any potential impacts of this on particular groups."*⁹⁹

135. Mae Adran 8 yn diwygio'r ddyletswydd bresennol i ddarparu llety dros dro, yn sgil diddymu angen blaenoriaethol a dileu'r ddyletswydd o dan Adran 73 i helpu i sicrhau llety. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau llety dros dro pan fyddant yn fodlon bod ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys ond heb gadarnhau hynny eto. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddyletswydd fod yn ddyledus i geiswyr nad oes ganddynt gysylltiad lleol ag unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru, pan fo'r awdurdod lleol yn fodlon bod y ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth.

136. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym nad yw'r hyblygrwydd ychwanegol hwn wedi'i gynnwys i ganiatáu llety o ansawdd is. Mewn ymateb i'r dystiolaeth y dylid cynnig cyngor annibynnol i geiswyr, cadarnhaodd fod y ddeddfwriaeth gyfredol yn nodi dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gael mynediad at gefnogaeth wrth ragweld yr angen i gyfeirio at gyngor cyfreithiol a thai annibynnol. Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y [Cod Canllawiau](#) ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (Cod Canllawiau), sydd:

"already encourages local authorities to signpost applicants towards accessible, impartial advice, and the Welsh

⁹⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 623

⁹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 111

Government funds national advice services through the single advice fund and homelessness prevention grant.”¹⁰⁰

Ein barn ni

137. Rydym yn deall y rhesymeg dros y darpariaethau i ehangu'r ystod o opsiynau llety sydd ar gael i awdurdodau lleol wrth gyflawni eu dyletswydd i sicrhau llety ac yn cydnabod bod y rhain wedi'u cefnogi'n gyffredinol gan randdeiliaid. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r pwyslais a roddir ar bwysigrwydd sicrhau bod gan geiswyr fynediad at gyngor annibynnol cyn cytuno i dderbyn un o'r mathau hyn o lety. Rydym yn cytuno y dylai pob ceisydd yn y sefyllfa hon gael mynediad at gyngor annibynnol er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus. Er nad yw hyn wedi'i nodi ar wyneb y Bil, rydym wedi ein sicrhau gan gadarnhad yr Ysgrifennydd Cabinet bod canllawiau yn annog awdurdodau lleol i gyfeirio ceiswyr at gyngor diduedd, ac y byddant yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, nodwn fod y canllawiau ar hyn o bryd yn dweud y gellir cyflawni'r ddyletswydd 'mewn nifer o ffyrdd' gan nad yw'r ddeddfwriaeth ei hun yn sôn am hyn. Felly, credwn y dylai'r canllawiau gael eu cryfhau i gyfeirio at gyngor annibynnol, yn ogystal â darparu gwasanaethau eu hunain, neu allu parhau ag arfer gorau os ydynt o'r farn ei fod yn gweithio'n dda.

Argymhelliad 7. Dylid cryfhau'r Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd i gyfeirio ceiswyr at gyngor annibynnol.

Diddymu hawlogaeth drwy gyfeirio at anghenion blaenoriaethol a digartrefedd bwriadol

138. Mae adrannau 9 a 10 yn y drefn honno yn diwygio Deddf 2014 i ddiddymu'r angen blaenoriaethol a'r profion bwriadoldeb. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ei bod yn debygol y bydd y darpariaethau hyn yn cael eu deddfu yn 2030-31 ar y cynharaf. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei bod wedi gwrandao ar bryderon awdurdodau lleol a bod angen dull graddol o sicrhau gweithrediad effeithiol a'n bod yn mynd ag awdurdodau lleol gyda ni, gan ychwanegu:

“We’ve used 2030-31 to aid planning the cost of the implementation of the Bill. The exact timescales and the phasing of the implementation need to be agreed in discussion with local authorities.”¹⁰¹

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 100

¹⁰¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 65-66

139. Mynegodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a'r rhai a ymatebodd i'n hymgyngoriad ysgrifenedig bryder y gall diddymu'r profion roi mwy o bwysau ar y system ddigartrefedd, er mai prin y maent yn cael eu defnyddio. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam na fydd dyddiad gweithredu yn 2030 – 31 yn rhoi digon o amser i Awdurdodau Lleol baratoi ar gyfer y newidiadau angenrheidiol a'u rhoi ar waith.¹⁰²

140. Mynegwyd barn wahanol gan Crisis a nododd y byddai rhoi terfyn ar angen blaenoriaethol nawr, yn hytrach nag yn 2030-31, yn arbed 5,500 o bobl ychwanegol rhag wynebu digartrefedd erbyn 2040.¹⁰³ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Cymorth Cymru a The Wallich¹⁰⁴. Dywedodd yr Athro Fitzpatrick fod y cyfnod gweithredu deng mlynedd ar gyfer diddymu angen blaenoriaethol yn yr Alban yn rhy hir a rhybuddiodd rhag cymryd gormod o amser i weithredu'r ddeddfwriaeth.¹⁰⁵ Dywedodd Liz Davies CB fod yr anghysondebau cyfredol o ran dull awdurdodau lleol o weithredu a'r ffaith bod rhai ohonynt yn dal i lynu wrth angen blaenoriaethol a bwriadoldeb yn ddadl bosibl o blaid diddymu'r gofynion hynny yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.¹⁰⁶

Diddymu'r prawf angen blaenoriaethol

141. Mae adran 9 yn diwygio Deddf 2014 i ddileu'r prawf angen blaenoriaethol. Y bwriad yw sicrhau y bydd pawb sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, ac sy'n cysylltu â'r awdurdodau lleol i ddweud hynny, yn cael cymorth a llety os ydynt yn gymwys a phan fo ganddynt gysylltiad lleol.

142. Mae'r Bil yn darparu y bydd diddymu'r prawf angen blaenoriaethol yn cychwyn ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn statudol. Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir bod hyn yn cydnabod na all awdurdodau lleol helpu unigolion sy'n ddigartref "os nad oes cyflenwad cadarn o dai sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion", a'i fod yn cyd-fynd ag argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol.

143. Roedd y rhan fwyaf o'r tystion yn cefnogi diddymu angen blaenoriaethol, a dywedodd yr Athro Fitzpatrick fod hynny'n hollol hanfodol. Dywedodd wrthym:

"single homeless people in Wales do not have, as a matter of law, entitlement to rehousing and people are still shut out of

¹⁰² HSHAWB 27, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Saesneg yn unig)

¹⁰³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 412

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 281-282

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 18

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 175

*that material assistance because of priority need. It's a rationing device that is used to shut some people out of rehousing assistance altogether. If Wales wants to move to a position where it ends homelessness, you have to end priority need."*¹⁰⁷

144. Mynegwyd barn debyg gan Cymorth Cymru a nododd fod y prawf angen blaenoriaethol yn fesur gwaharddol, gan ychwanegu:

*"it is not about giving a small group of people an advantage, it's about excluding a small group from being able to get the very basic help through the homelessness system."*¹⁰⁸

145. Roedd rhanddeiliaid sy'n cynrychioli pobl ifanc yn cefnogi'r egwyddor o roi terfyn ar angen blaenoriaethol, neu'n ei chydabod fel 'y peth iawn i'w wneud' yn y tymor hir. Fodd bynnag, roedd gan rai bryderon y gallai arwain at fwy o gystadleuaeth am dai cymdeithasol rhwng pobl ifanc ddigartref a cheiswyr digartref eraill. Cyfeiriodd EYHC at bryderon a fynegwyd gan bobl ifanc a oedd yn ansicr iawn o ran rhoi'r gorau i rywbeth y maent yn gweld ei fod o fantais iddynt. Fodd bynnag, dywedodd EYHC ei fod yn dal i gefnogi rhoi terfyn ar angen blaenoriaethol oherwydd bod y bobl ifanc wedi camddechongli'r prawf fel 'ni yn erbyn nhw', pan nad yw'r farn hon yn cyd-fynd â'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn ei amlinellu.¹⁰⁹ Dywedodd Voices from Care wrthym ei bod yn anodd gweld sut na ddylai plant y mae'r wladwriaeth wedi mynd â hwy oddi wrth eu teulu gael blaenoriaeth.¹¹⁰ Codwyd y pryder hwn hefyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a nododd y gall y trefniadau newydd bellach rwystro gallu awdurdod lleol i ddod o hyd i lety sy'n addas i'r garfan hon.

146. Galwodd NYAS am i bobl sy'n gadael gofal gael angen blaenoriaethol fel mesur dros dro nes bod angen blaenoriaethol yn cael ei ddiddymu, yn unol â chynnig y Papur Gwyn.¹¹¹

147. Dywedodd yr Athro Mackie y byddai rhoi terfyn ar angen blaenoriaethol yn helpu pobl ifanc, gan nodi bod 25 y cant o'r ceiswyr nad ydynt mewn angen blaenoriaethol yn bobl ifanc.¹¹² Mynegodd Cymorth Cymru farn mai'r Bil hwn, yn ôl

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 25

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 280

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 576 a 579

¹¹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 581

¹¹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 587

¹¹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

pob tebyg, sydd â'r rhan fwyaf o'r mesurau yn y ddeddfwriaeth a fydd yn helpu pobl sy'n gadael gofal.¹¹³

148. Codwyd pryderon gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol y byddai diddymu angen blaenoriaethol yn heriol yng ngoleuni problemau cyflenwi tai. Nododd CLILC, os caiff y prawf ei ddiddymu, fod angen i hyn fod ar adeg pan fo'r cyflenwad o dai fforddiadwy, a'r adnoddau sydd ar gael i gynghorau, wedi cynyddu i lefelau sy'n caniatáu i Gynghorau gyflawni uchelgais y ddeddfwriaeth. Nodwyd y bydd sicrhau cyflenwad digonol o lety un gwely, yn benodol i ddiwallu anghenion y rhai mewn llety dros dro, yn darparu her sylweddol iawn mewn sawl ardal.¹¹⁴

149. Mynegodd Cyngor Dinas Casnewydd bryder tebyg, gan nodi na fyddai ganddynt y stoc o dai cymdeithasol fforddiadwy o ansawdd da na thai rhent preifat i fodloni'r galw, pe bai'r galw yn codi ymhellach, ond cydnabu y gallai weithio'n wych pe bai ganddynt y cyflenwad i fodloni'r galw.¹¹⁵

150. Lleisiodd Cyngor Sir Penfro gefnogaeth i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol, ond cytunodd y byddai adnoddau a chyllid yn broblem oherwydd y bydd mwy o alw am lety dros dro.¹¹⁶

151. Clywsom gan Gyngor Caerdydd fod y prawf angen blaenoriaethol yn caniatáu i awdurdodau lleol flaenoriaethu adnoddau prin i'r bobl y mae eu hangen arnynt fwyaf. Dywedwyd wrthym mai'r prif ddulliau a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl ac yn eu hatal rhag mynd i'r system ddigartrefedd yw cynyddu'r lwfans tai lleol a chynyddu'r cyflenwad tai, yn hytrach na rhagor o ddeddfwriaeth.¹¹⁷

152. Cyfeiriodd Cyngor Sir Fynwy at weithrediad anghyfreithlon rhestrau aros am lety dros dro gan rai awdurdodau lleol, gan ychwanegu:

*"There are not the resources to meet the current need and it is hard to foresee this situation abating. In these circumstances the absence of priority need would hinder the ability of authorities to ensure that the most vulnerable are accommodated."*¹¹⁸

¹¹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 341

¹¹⁴ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

¹¹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 76

¹¹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 81

¹¹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 84 a 86

¹¹⁸ HSHAWB 38, Cyngor Sir Fynwy (Saesneg yn unig)

153. Er bod Cyngor Sir y Fflint wedi dweud wrthym eu bod mewn lle da i allu ymateb yn gadarnhaol i ddiddymu angen blaenoriaethol, ychwanegwyd y bydd angen ‘cyfathrebu clir’ fel nad ydym yn anfwriadol yn creu digartrefedd fel llwybr i dai cymdeithasol.¹¹⁹

154. Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod newidiadau o ran angen blaenoriaethol yn yr Alban wedi arwain at fwy o alw am lety dros dro. Ychwanegodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod tystiolaeth yn awgrymu bod angen y digartref yng Nghymru yn ôl pob tebyg wedi'i ddatgelu, gan nodi:

“we’re not of the view, and the data doesn’t suggest, that it will bring forward numbers anywhere like it brought forward in Scotland, because we are doing this post pandemic and not before.”¹²⁰

155. Mewn ymateb i'r cwestiwn a ellid gweithredu'r darpariaethau ar ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol yn gynharach na 2031, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym bydd yn digwydd yn gynharach os bydd yn bosibl. Fodd bynnag, roedd hi'n ymwybodol o'r gofynion sydd ar awdurdodau lleol ar hyn o bryd fel y partner cyflenwi allweddol. Esboniodd fod angen amser ar awdurdodau lleol i weithio tuag at ddileu angen blaenoriaethol a bwriadoldeb yn llwyr, felly mae angen rheoli cyflymder a hyd a lled y newid.¹²¹

156. Mewn perthynas â phobl sy'n gadael gofal, clywsom gan yr Ysgrifennydd Cabinet fod y darpariaethau eraill yn y Bil sydd wedi'u hanelu at y grŵp hwnnw yn debygol o gael effaith llawer mwy eang na'r newidiadau i angen blaenoriaethol.¹²²

Ein barn ni

157. Rydym yn deall bod diddymu'r prawf angen blaenoriaethol yn agwedd allweddol ar greu system ddigartrefedd sy'n seiliedig ar drawma ac felly'n croesawu'r darpariaethau i gyflawni hyn. Rydym yn cydnabod mai dim ond 240 o aelwydydd y canfuwyd nad oedd arnynt angen blaenoriaethol yn 2024-25 ac mai dim ond wyth o'r 22 o awdurdodau lleol a ddefnyddiodd y prawf y flwyddyn honno, ac rydym yn croesawu'r cynnydd y mae awdurdodau lleol eisoes wedi'u wneud. Er gwaethaf hyn, rydym yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol ac yn cytuno â'r Ysgrifennydd Cabinet y dylent gael digon o amser i gynllunio ar gyfer y newidiadau sy'n cael eu gweithredu. Er yr hoffem, yn

¹¹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 72-74

¹²⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 68 a 70

¹²¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 34-35

¹²² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 37

ddelfrydol, weld angen blaenoriaethol yn cael ei ddiddymu yn gynharach na 2031, rydym yn cefnogi'r amserlen arfaethedig i alluogi'r cynllunio a'r newid mewn diwylliant. Nodwn sicrwydd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y newidiadau'n digwydd yn gynharach os yn bosibl ac rydym yn ymddiried y gwneir pob ymdrech i'r perwyl hwnnw.

158. Mae'r pryderon a fynegwyd gan bobl sy'n gadael gofal am y posibilrwydd o golli eu hangen blaenoriaethol am wasanaethau digartrefedd yn ddealladwy. Rydym yn gwerthfawrogi y gall y term 'angen blaenoriaethol' fod yn gamarweiniol i bobl ifanc gan fod angen blaenoriaethol yn brawf hawlogaeth deuaidd ac nid prawf blaenoriaethu. Serch hynny, mae'n amlwg y gallai dod â'r prawf i ben arwain at gynnydd bach yn y niferoedd sydd â hawlogaeth i'r brif ddyletswydd ailgartrefu yn yr awdurdodau lleol hynny nad ydynt eisoes wedi rhoi'r gorau i'w ddefnyddio. O'r herwydd, mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw ganlyniadau anfwriadol y newid polisi.

159. Rydym yn cydnabod ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i sicrhau nad yw pobl sy'n gadael gofal yn mynd i'r system ddigartrefedd ac yn croesawu'r darpariaethau eraill yn y Bil hwn sy'n anelu at gyflawni hyn. Bydd angen trefnu'r dull gweithredu yn ofalus i sicrhau bod y darpariaethau eraill yn ddigonol i liniaru unrhyw effaith negyddol bosibl ar bobl sy'n gadael gofal yn sgil diddymu'r prawf angen blaenoriaethol. Rydym yn croesawu addewid yr Ysgrifennydd Cabinet i gyflwyno'r darpariaethau dyrannu yn gynnar ac rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ffafriaeth resymol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosibl, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag ofn ynghylch rhoi terfyn ar angen blaenoriaethol.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y darpariaethau eraill sy'n effeithio ar bobl sy'n gadael gofal yn cael eu gweithredu'n ddigon cynnar i liniaru unrhyw effaith negyddol bosibl ar bobl sy'n gadael gofal yn sgil diddymu'r prawf angen blaenoriaethol.

Diddymu'r prawf digartrefedd bwriadol

160. Mae adran 10 yn diwygio Deddf 2014 i ddileu'r prawf bwriadoldeb. Yn y Memorandwm, nodir bod y prawf bwriadoldeb yn cael ei ystyried "yn rhwystr" i gyflawni'r nod o ymdrin â digartrefedd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma. Y rheswm am hyn yw bod y prawf yn atal pobl ddigartref rhag cael cefnogaeth ac nad yw'n ystyried yr effaith y gall trawma ei chael ar ymddygiad, a gall annog diwylliant lle y mae ceiswyr yn cael eu categoreiddio fel rhai sy'n haeddu neu ddim yn haeddu cefnogaeth. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym:

*"it's important to recognise that the intentionality test is a barrier to ensuring a person-centred inclusive homelessness service. I believe that its removal from law is essential if we want our reforms to end homelessness in Wales."*¹²³

161. Mynegodd un o gyfranogwyr y grŵp ffocws ei rwystredigaeth â'r prawf bwriadoldeb:

"If they were in the right provisions, they would not have the intentionality decisions being made against them because services would be structured to manage those needs, but unfortunately a lot of people are falling short of those resources and seen as intentionally homeless as a result. We would argue as a service that it's not due to behaviour but due to a lack of adequate provision to meet their needs."

Cyfranogwr grŵp ffocws

162. Roedd y dystion yn rhanedig ynghylch y darpariaethau i ddileu'r prawf bwriadoldeb, a lleisiwyd barn gref ar y ddwy ochr. Roedd y rhan fwyaf o dystion o'r awdurdodau lleol yn gwrthwynebu'r darpariaethau, gan nodi y byddent yn creu canlyniadau negyddol anfwriadol, tra bod dau awdurdod lleol, Sir y Fflint¹²⁴ a Chonwy¹²⁵, yn cefnogi'r darpariaethau.

163. Dywedodd Cyngor Caerdydd wrthym nad oeddent yn cefnogi diddymu'r prawf bwriadoldeb a bod ei ddileu yn cyfleu neges i'r cyhoedd y gallwch ddod i lety dros dro a chael llety, ni waeth sut oedd eich ymddygiad yn y sector rhentu preifat.¹²⁶ Dywedodd Cyngor Sir Penfro wrthym hefyd fod angen i'r prawf bwriadoldeb barhau mewn gwirionedd, gan ychwanegu nad yw hynny'n ymarferol ar hyn o bryd er eu bod yn cytuno â'r egwyddor o ddiddymu'r prawf.¹²⁷ Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrthym fod angen ychydig mwy o feddwl am weithredu yn ôl pob tebyg.¹²⁸

164. Clywsom bryderon gan Gyngor Caerdydd fod y prawf, er bod penderfyniadau ar fwriadoldeb yn cael eu gwneud yn anaml iawn, yn gweithredu fel cyfrwng i annog ymddygiad llai gwael o fewn y sector rhentu preifat.¹²⁹ Mynegwyd hyn

¹²³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 72

¹²⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 74

¹²⁵ HSHAWB 37, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Saesneg yn unig)

¹²⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 43

¹²⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 58-64

¹²⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 66

¹²⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 43

hefyd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a ymatebodd i'n hymgyngoriad ysgrifenedig. Galwodd CLILC am gadw'r prawf.¹³⁰

165. Cyfeiriodd CIH Cymru hefyd at bryderon a godwyd gan awdurdodau lleol a nododd ei farn y dylai'r prawf bwriadoldeb barhau er o dan amgylchiadau penodol iawn nad ydynt yn digwydd yn aml. Hoffai weld y prawf yn parhau o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

"There has been extensive criminal behaviour at a property resulting in a police closure order;

The applicant was a joint contract holder and has been removed from the property due to a conviction for behaviour that makes them unsuitable to be a tenant;

*The applicant has caused significant damage to the property, making it unfit for human habitation."*¹³¹

166. Dadleuodd academyddion a thystion o'r trydydd sector o blaid, er bod rhai hefyd wedi mynegi pryder am y risg manipiwleiddio bwriadol gan gosbi rhai ceiswyr yn annheg. Dywedodd yr Athro Mackie ei fod yn cefnogi diddymu'r prawf gan fod llawer o dystiolaeth i siarad am effeithiau niweidiol y darn hwnnw o ddeddfwriaeth ar yr aelwydydd hynny.¹³² Cyfeiriodd yr Athro Fitzpatrick hefyd at effeithiau niweidiol iawn y prawf a'i fod yn aml yn cael ei ddefnyddio fel bygythiad mewn ffyrdd sy'n eithaf amhrifodol. Dywedodd:

*"I think it is very important that the test is abolished, even though it looks from the statistics like it affects only a very small number of people, but it has this much wider detrimental impact. It's certainly not a trauma-informed approach."*¹³³

167. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon awdurdodau lleol ynghylch dileu'r prawf bwriadoldeb, mae adran 36 o'r Bil yn creu prawf 'manipiwleiddio bwriadol' newydd. Mae adran 36, sy'n mewnosod adran newydd 167A i Ddeddf 1996, yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol i ddileu blaenoriaeth mewn dyraniadau tai cymdeithasol ar gyfer aelwyd lle y mae person yn ceisio manipiwleiddio'r system dai yn fwriadol i gael mantais wrth wneud cais am dai cymdeithasol. Mae adran 20 hefyd yn rhoi yn lle'r prawf 'methiant afresymol i gydweithredu' amgylchiadau newydd lle y gall

¹³⁰ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

¹³¹ HSHAWB 28, CIH Cymru (Saesneg yn unig)

¹³² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 30

¹³³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 33

y ddyletswydd i helpu ceiswyr ddod i ben. Fodd bynnag, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“there’s no replacement of the intentionality test in the Bill—it’s removed completely as a test that determines entitlement to homelessness assistance.”

168. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“there are protections for staff and to the system within the Bill. There are red lines that I don’t think we should accept in any way for our housing workforce in terms of suffering violence or threats or our finite accommodation stock being intentionally damaged or destroyed. Local authorities will continue to have tools to respond to such unacceptable behaviours. There are safeguards to disincentivise anyone from deliberately making themselves homeless to try and gain priority for social housing.”¹³⁴

169. Nid oedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn credu y byddai'r prawf manipiwleiddio bwriadol newydd yn cynnig digon o ataliadau ac y gallai greu galw annerbyniol am adnoddau awdurdodau lleol. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 4 o'r adroddiad hwn o dan yr adran ar fanipiwleiddio bwriadol.

170. Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet yr heriau yn y maes polisi hwn a'r safbwyntiau gwrthwynebol cryf a fynegwyd am rôl y prawf bwriadoldeb. Nododd fod y prawf yn cael ei ddefnyddio'n anghyson ledled Cymru, a bod rhai awdurdodau lleol yn ei weld fel offeryn i reoli ymddygiad ac eraill fel mesur gwaharddol sy'n effeithio'n anghymesur ar y bobl fwyaf agored i niwed. Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn glir na ddylai'r prawf bwriadoldeb fodoli mewn system ddigartrefedd sy'n ystyriol o drawma, gan ychwanegu:

“I believe that the Bill strikes the right balance, both between individual accountability, delivering a trauma-informed response and providing improved support and multi-agency practice to those who need it.”¹³⁵

¹³⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 73

¹³⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 40-41

Ein barn ni

171. Rydym yn cydnabod bod y safbwyntiau a fynegwyd ar ddiddymu'r prawf bwriadoldeb yn rhanedig a bod safbwyntiau cryf wedi'u mynegi o blaid ac yn erbyn y ddarpariaeth yn y Bil. Er mai dim ond 87 o aelwydydd y canfuwyd yn ffurfiol eu bod yn fwriadol ddigartref yn 2024-25, ac na chanfu 13 o awdurdodau lleol fod unrhyw un yn fwriadol ddigartref y flwyddyn honno, rydym yn cydnabod bod y prawf yn aml yn cael ei ddefnyddio'n anffurfiol mewn trafodaethau gyda cheiswyr. Er mwyn cydnabod bod y dystiolaeth yn dangos mai'r bobl fwyaf agored i niwed yn aml sy'n cael eu cosbi gan y prawf bwriadoldeb, rydym felly yn cytuno na ddylai'r prawf fod yn rhan o system sy'n ystyriol o drawma. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r pryderon sylweddol a godwyd gan awdurdodau lleol am y posibilrwydd o ddiddymu'r prawf, ac o ystyried eu rôl wrth weithredu'r system, rhaid clywed eu pryderon.

172. Bydd yn hanfodol sicrhau, os oes canlyniadau anfwriadol diddymu'r prawf, eu bod yn cael eu lliniaru'n effeithiol. Mae awdurdodau lleol yn gofidio yn ddiffuant y bydd yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y ceiswyr sydd â hawlogaeth i gael cymorth digartrefedd ac rydym yn deall bod angen offer eraill arnynt i sicrhau nad yw pobl yn gwneud eu hunain yn ddigartref i gael blaenoriaeth ar gyfer tai cymdeithasol.

173. Er ein bod yn sylweddoli bod prawf manipiwleiddio bwriadol newydd wedi'i gynnwys yn y Bil fel offeryn i annog ymddygiad cadarnhaol ceisydd mewn ffyrdd tebyg i fwriadoldeb, mae'n amlwg nad yw awdurdodau lleol yn ystyried bod hyn yn anghymhelliad gwahanol digonol. Rydym yn deall bod y prawf bwriadoldeb yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar adeg asesu cais ceisydd am gymorth digartrefedd, ac felly rydym yn gwerthfawrogi pam y mae awdurdodau lleol yn pryderu am y gofynion o ran adnoddau ar gyfer gosod dyletswydd llety dros dro ar aelwydydd y canfuwyd eu bod wedi manipiwleiddio'r system yn fwriadol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eisoes wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio bwriadoldeb yn ffurfiol fel rhan o'u dull sy'n ystyriol o drawma, sy'n dangos bod hyn eisoes yn arfer eang. Rydym yn trafod y prawf manipiwleiddio ymhellach ym mhennod 4.

174. Mae'n amlwg i ni o'r dystiolaeth fod awdurdodau lleol yn teimlo'n anesmwyth iawn oherwydd nad oes ganddynt lawer o opsiynau eraill i ymdrin ag ymddygiad problemus ac felly cânt ddibynnu ar fwriadoldeb fel erfyn di-awch. Rydym yn cydnabod pryderon awdurdodau lleol ac rydym yn croesawu'r amser hir sy'n arwain at weithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'i nodi. Yn ystod y cyfnod cyn gweithredu, credwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod gan awdurdodau lleol offer gweithredol eraill ar gael. Credwn y dylid darparu

adnoddau a chymorth pwrpasol i awdurdodau lleol, er mwyn cynyddu'r gwasanaethau cymorth dwys sydd ar gael i aelwydydd sydd â'r lefel uchaf o anghenion cymorth cymhleth.

175. Gan y bydd angen offer newydd ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag anghenion cymorth cymhleth yn absenoldeb y prawf bwriadoldeb, credwn fod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i sicrhau bod modelau effeithiol o gymorth dwys yn cael eu cyflwyno'n genedlaethol, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gomisiynu gwasanaethau priodol.

Casgliad 3. Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb gan ein bod yn cytuno na ddylai fod yn rhan o system ddigartrefedd sy'n ystyriol o drawma. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gan awdurdodau lleol bryderon sylweddol ynghylch hyn, ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru weithio cyn gweithredu i helpu pob awdurdod lleol i baratoi drwy fabwysiadu arfer da presennol i osgoi'r defnydd ffurfiol o fwriadoldeb.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi modelau arfer da o wasanaethau cymorth dwys ar gyfer yr aelwydydd sydd â'r lefel uchaf o angen cymhleth, a dylai ddarparu'r adnoddau a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i'w gwneud yn ofynnol darparu'r gwasanaethau hyn ym mhob awdurdod lleol lle y mae eu hangen.

Casgliad 4. Er ein bod yn cefnogi rhoi terfyn ar fwriadoldeb i symud i wasanaeth sy'n fwy ystyriol o drawma, rydym hefyd yn deall pryderon y rhai sy'n poeni y gellid defnyddio manipiwleiddio bwriadol mewn ffyrdd tebyg, gan olygu nad yw pobl agored i niwed yn gallu cael mynediad at dai cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau drwy ganllawiau a hyfforddiant i sicrhau bod manipiwleiddio bwriadol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.

Atgyfeiriadau cysylltiad lleol

176. Mae adran 11 yn diwygio Deddf 2014 i ddileu'r gofyniad i geisydd fod ag angen blaenoriaethol neu iddo fod yn ddigartref yn anfwriadol cyn y gellir ei atgyfeirio at awdurdod lleol arall yng Nghymru neu Loegr. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i bobl sydd wedi'u dedfrydu i'r carchar gael eu hatgyfeirio cyn neu yn ystod y cyfnod atal. Y bwriad yw cefnogi atgyfeiriadau a chamau ataliol cynharach, ac i roi eglurder o ran y cyfrifoldebau i fynd i'r afael ag anghenion y rhai sydd yn y carchar.

177. Roedd rhai o gyfranogwyr y grŵp ffocws yn beirniadu'r ffaith nad oes trefniadau ar waith pan fydd rhywun yn cael ei ryddhau o'r carchar:

“What doesn’t help as well, an age old issue, is that prison always release on Friday. It’s quite often after lunch. It might be in Cardiff, it might be elsewhere. By the time you’ve got back and presented yourself you’ve got staff that are scrambling around at the end of the day trying to find you somewhere. Then the communication breaks down and then you get someone – it’s Friday night, it’s freezing cold, it’s February – and they’re not expecting you.”

“Like, they know when they’re going to release somebody. People aren’t animals.”

Cyfranogwyr grŵp ffocws

178. Dywedodd yr Athro Mackie wrthym ei fod cefnogi cael cyfnod o chwe mis i wneud gwaith paratoi cyn rhyddhau person o’r carchar,¹³⁶ a dywedodd yr Athro Fitzpatrick, er nad oedd yn gyffredinol o blaid cymhwyso cysylltiad lleol ar y cam atal, fod hynny’n gwneud synnwyr.¹³⁷ Lleisiwyd cefnogaeth hefyd gan Cymorth Cymru a The Wallich, a nododd y bydd y darpariaethau o fudd i bobl sy’n cael eu rhyddhau o’r carchar. Galwodd The Wallich am i’r cyfnod o chwe mis fod yn lleiafswm cyfnod gan ei bod yn cymryd amser i ddatblygu’r perthnasoedd.¹³⁸ Dywedodd Crisis, er bod y darpariaethau i gefnogi carcharorion yn werthfawr, fod canllawiau yn mynd i fod yn hanfodol, yn enwedig i egluro sut rydych yn dehongli chwe mis.¹³⁹

179. Dywedodd Cyngor Caerdydd wrthym y bydd y darpariaethau yn effeithio arnynt yn eithaf sylweddol a chododd bryder am allu carchar i atgyfeirio’r holl garcharorion hynny ar yr adeg iawn i wneud y gwaith atal hwnnw’n wirioneddol ystyrlon.¹⁴⁰ Cytunodd Cyngor Sir Penfro y bydd yn bwysig sicrhau bod y sgysiau cynharach a’r gwaith atal yn digwydd yn ymarferol, gan nodi nad yw’r ddeddfwriaeth bresennol a’r llwybr carcharorion bob amser yn gweithio nac yn cael eu dilyn. Gwnaethant bwysleisio’r angen am femorandwm cyd-ddealltwriaeth cryf iawn gyda HMPPS.¹⁴¹

180. Clywsom gan HMPPS fod y gwaith ymgysylltu cynharach yn fuddiol iawn ac yn cyd-fynd â’u model ailsefydlu.¹⁴² Cytunodd Clinks, gan ychwanegu y bydd nodi

¹³⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 77

¹³⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 91

¹³⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 351

¹³⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 467

¹⁴⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 115

¹⁴¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 117-118

¹⁴² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 429

anghenion yn gynnar sy'n caniatáu i gefnogaeth gael ei rhoi ar waith cyn rhyddhau yn helpu i atal digartrefedd.¹⁴³ Aeth Clinks ymlaen i ddweud y bydd angen adnoddau priodol ar gyfer y gwaith atal cynharach:

*"We need to make sure that there are enough resources within the prisons so that proper support is given."*¹⁴⁴

181. Nododd Clinks hefyd angen hyfforddiant posibl i sicrhau bod gan swyddogion ailsefydlu mewn carchardai yn Lloegr ddealltwriaeth o ddeddfwriaeth tai Cymru.¹⁴⁵

182. Eglurodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod yr atgyfeiriad cysylltiad lleol a gynigir yn y Bil yn golygu, pan fo person yn cyflwyno yn yr awdurdod lleol anghywir, neu pan fo awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol o berson nad yw'n byw yn ei ardal, ei fod yn ceisio eu hatyfeirio i'r awdurdod ar gyfer ei ardal gartref, a bod y cyfnod atgyfeirio ar gyfer carcharorion yn cael ei ddwyn ymlaen i'r adeg pan fyddant yn dod yn destun y ddyletswydd atal, a fyddai'n chwe mis cyn eu rhyddhau. Y nod yw bod yr awdurdod lleol y dylai'r person fod yn cael cymorth ganddo yn ymyrryd o'r cam hwnnw.¹⁴⁶ Clywsom fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda HMPPS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy weithgor llety ar ôl y carchar i ystyried gweithredu a sut y gellir gwella arfer, gan gynnwys ar gyfer carcharorion sy'n cael eu rhyddhau o garchardai Cymru i Loegr ac o garchardai Lloegr i Gymru.¹⁴⁷

183. Mae adran 12 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu'r amgylchiadau pan fydd person yn cael ei drin fel un sydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cysylltiad lleol. Bydd y meini prawf presennol ar gyfer pennu cysylltiad lleol ar lefel awdurdod lleol yn aros yr un fath. Bwriad y pŵer i wneud rheoliadau yw rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder ynghylch pryd y mae rhywun wedi datblygu cysylltiad lleol, sydd wedi'i nodi mewn canllawiau ar hyn o bryd.

184. Mae adran 13 yn mewnosod adran newydd i Ddeddf 2014 i gadw esemptiad rhag atgyfeirio ar gyfer ceiswyr a fyddai'n wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin pe baent yn dychwelyd i'r ardal lle y mae ganddynt gysylltiad lleol. Mae'r diffiniad o gamdriniaeth wedi cael ei ddiwygio i gynnwys cam-drin domestig ac unrhyw fath arall o gam-drin. Mae'r adran hefyd yn darparu mai dim ond un atgyfeiriad o dan adran 80 y gellir ei wneud mewn perthynas â'r un cais, ac mae'n atal

¹⁴³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 431

¹⁴⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 460

¹⁴⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, t466

¹⁴⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 160-161

¹⁴⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 163

atgyfeiriad ar gyfer ceisydd sydd yn y carchar y mae wedi cael gwybod bod dyletswydd yn ddyledus iddo o dan adran 66 neu 75 (ac mae cyfnod o bythefnos wedi mynd heibio ers rhoi'r hysbysiad hwn).

185. Croesawyd y diffiniad estynedig gan Cymorth i Ferched Cymru, a ddywedodd ei fod yn hollol briodol.¹⁴⁸

186. Mae adran 14 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 82 o Ddeddf 2014, sy'n nodi'r dyletswyddau sy'n ddyledus gan awdurdod tai lleol mewn achosion a atgyfeirir o dan adran 80 o'r Ddeddf honno. Bydd y dyletswyddau ar awdurdod tai lleol ("awdurdod A") yn adran newydd 82(1A) yn gymwys pa un a yw'r awdurdod sy'n cael ei hysbysu ("awdurdod B") yng Nghymru neu Loegr. Ar ôl hysbysu awdurdod B, rhaid i awdurdod A sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd nes bod y ceisydd yn cael ei hysbysu am y penderfyniad ynghylch a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio wedi'u bodloni, er gwaethaf y ffaith bod dyletswyddau awdurdod A o dan adrannau 68 a 75 o ran digartrefedd yn dod i ben. Dim ond pan fo awdurdod B yng Nghymru y byddai adran 82(1B) yn gymwys, ac mae'n nodi'r camau a gymerir ar ôl i'r amodau ar gyfer atgyfeiriad gael eu bodloni. Gwneir darpariaeth debyg ar gyfer awdurdodau tai lleol yn Lloegr, ar ôl i'r amodau ar gyfer atgyfeiriad gan awdurdod tai lleol yng Nghymru gael eu bodloni, fel y'u disgrifir yn adran 14(7). Yn y Memorandwm, nodir: "nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r cyfrifoldebau a osodir ar awdurdodau lleol sy'n atgyfeirio ceiswyr."

187. Mae adran 15 yn ystyried bod y profion angen blaenoriaethol a bwriadoldeb wedi'u dileu mewn perthynas ag atgyfeiriadau o Loegr i Gymru, gyda'r bwriad y bydd atgyfeiriadau at awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr yn gweithio'r un ffordd.

188. Mae adran 16 yn diwygio darpariaethau presennol Deddf 2014 sy'n sicrhau bod y ceisydd yn cael hysbysiad sy'n nodi pam y gwnaed atgyfeiriad o dan adran 80, yr effaith ar ei hawlogaeth barhaus, a'i hawl i ofyn am adolygiad.

189. Mae adran 17 yn diwygio adran 85 o Ddeddf 2014 fel bod yr hawl i ofyn am adolygiad o ran a yw'r amodau ar gyfer atgyfeiriad cysylltiad lleol wedi cael eu bodloni ai peidio yn cael ei rhestru ar wahân. Nid yw'n gwneud newidiadau sylweddol i'r drefn bresennol.

¹⁴⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 334

Ein barn ni

190. Mae rhyddhau pobl o'r carchar i ddigartrefedd yn bryder sylweddol i ni ac rydym yn falch bod y Bil yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy alluogi atgyfeiriadau cysylltiad lleol sy'n ymwneud â charcharorion i ddigwydd yn gynharach. Er ein bod yn croesawu'r ddarpariaeth hon, mae gennym rai pryderon ynghylch pa mor effeithiol fydd hyn mewn gwirionedd, yn enwedig y trefniadau trawsffiniol.

191. Rydym hefyd yn pryderu y gallai carcharorion sy'n cael eu rhyddhau ar ôl gwneud eu tymor gael eu colli gan efallai na welir bod angen cymorth ataliol arnynt, gan arwain at eu rhyddhau i ddigartrefedd. Byddem yn croesawu rhagor o sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei osgoi.

192. Rydym yn cydnabod sylw swyddog Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith y gweithgor llety ar ôl y carchar, ond nodwn fod gwaith i weithredu darpariaethau ar y Bil hwn yn parhau. Credwn y dylai'r diweddariadau yr ydym wedi'u hargymell i'w darparu gan Lywodraeth Cymru i'r Senedd ar gynnydd o ran gweithredu darpariaethau gynnwys manylion am sut y mae'r gweithgor yn paratoi i ddiwallu'r angen am atgyfeiriadau cysylltiad lleol cynharach.

Casgliad 5. Rydym yn cefnogi'r cyfnod hirach y gall atgyfeiriadau cysylltiad lleol sy'n ymwneud â charcharorion ddigwydd ynddo. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu pa mor effeithiol fydd hyn mewn gwirionedd, yn enwedig dros y ffin. Mae hwn yn faes pryder ac rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu hyn. Byddem hefyd yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y bydd hyn yn gymwys i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau ar ôl gwneud eu tymor.

Casgliad 6. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ddarparu diweddariadau rheolaidd i'r Senedd ar y gwaith paratoi ar gyfer gweithredu, gynnwys manylion am sut y mae'r gweithgor llety ar ôl y carchar yn bwrw ymlaen â'i drefniadau i ddiwallu'r angen am atgyfeiriadau cysylltiad lleol cynharach ar gyfer carcharorion.

193. Rydym yn croesawu cadw esemptiad rhag atgyfeirio ar gyfer ceiswyr a fyddai'n wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin pe baent yn dychwelyd i'r ardal lle y mae ganddynt gysylltiad lleol ac ehangu'r diffiniad o gam-drin i gorffori cam-drin domestig ac unrhyw fath arall o gam-drin. Mae'r rhain yn ddarpariaethau pwysig ar gyfer pobl agored i niwed.

Dyletswyddau pellach i atal digartrefedd

194. Mae adran 18 yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth i gadw llety addas a sicrhawyd o dan swyddogaethau digartrefedd.

Mae'n gymwys yn unig yn achos unigolion y mae eu dyletswyddau digartrefedd blaenorol wedi dod i ben, ond y mae'r awdurdod tai lleol yn ystyried eu bod yn dal i fod mewn perygl heb gymorth pellach i gadw eu llety.

195. Disgrifiodd un o gyfranogwyr y grŵp ffocws y mathau o gymorth a ddarperir i denantiaid y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i fyw'n annibynnol:

"I take a lot of referrals for people who, even if they have been housed, they haven't got the skills to manage a home. It's that whole life skills stuff and that doesn't seem to be getting picked up by commissioned services in any way. So when they're looking at tenancy preparation there might be some very basic stuff done, but there's not enough being done, particularly around affordability, tenancy skills and getting people actually prepared."

Cyfranogwr grŵp ffocws

196. Yn ei Hasesiad Effaith Rheoleiddiol, mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y bydd angen cymorth ychwanegol ar oddeutu 10 y cant o aelwydydd yn y categori hwn o dan y ddyletswydd arfaethedig. Mae'r adran yn darparu bod rhaid i awdurdodau tai lleol gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben o sicrhau bod llety'r ceisydd yn parhau i fod ar gael iddynt ei feddiannu. Mae hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan fyddai'r ddyletswydd hon yn dod i ben, ac yn creu hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniadau penodol mewn perthynas â'r ddyletswydd hon. Bwriad y ddyletswydd newydd hon yw sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu i geiswyr i atal digartrefedd mynych.

197. Croesawodd yr Athro Fitzpatrick y ddarpariaeth ar gyfer cymorth, ond cododd bryder am y terfyn deuddeg mis i gael hyn. Dywedodd wrthym nad oedd y Panel Adolygu Arbenigol yn cefnogi cap ar y cyfnod gan y gall fod ar bobl angen cymorth tymor hwy. Dywedodd yr hoffai weld gwelliant i'r Bil i gynnig hyblygrwydd i estyn y terfyn deuddeg mis, neu ddisgresiwn i wneud hynny mewn achosion penodol.¹⁴⁹ Dywedodd yr Athro Fitzpatrick y byddai'n gamgymeriad gosod terfyn, gan ofni y gallai pobl fynd yn ôl i'r system ddigartrefedd statudol gyda'r holl gostau sy'n gysylltiedig â hynny.¹⁵⁰

198. Croesawodd Cymorth Cymru y ddarpariaeth hefyd, gan nodi bod cael y gefnogaeth i'ch helpu i gynnal y llety hwnnw yn hollol hanfodol, ond holwyd a

¹⁴⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 93

¹⁵⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 97

yw'r ddyletswydd i helpu i gadw a gynhwysir yn y Bil yn wahanol i 'ddyletswydd i ddarparu cymorth'. Serch hynny, dywedwyd bod y ddyletswydd yn hanfodol i atal pobl rhag dod yn ddigartref dro ar ôl tro ac fe'i canmolwyd fel mesur buddsoddi i arbed, gan y byddai'n debygol o fod yn fwy cost-ffeithiol na phe bai rhywun yn mynd drwy broses troi allan ac angen cymorth digartrefedd. Heriwyd hefyd y terfyn amser deuddeg mis, a nodwyd bod y cap mympwyol yn anefnyddiol a galwyd am ei ddileu neu ychwanegu hyblygrwydd i alluogi awdurdodau lleol i estyn y cymorth yn unol â'r angen.¹⁵¹ Cytunodd The Wallich, gan ddweud y gall rhoi cap ar unrhyw gymorth fod yn niweidiol gan y bydd pobl yn poeni bod y cymorth yn dod i ben. Ychwanegodd:

*"The Housing First model shows that providing that open-ended support can help people to retain accommodation and they have a safety net, and I think that is imperative."*¹⁵²

199. Croesawodd tystion sy'n cynrychioli Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y ddarpariaeth hefyd, ond gwnaethant herio asesiad Llywodraeth Cymru yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod angen cymorth o'r fath ar 10 y cant o denantiaid. Roedd Tai Taf yn credu bod yr amcangyfrif yn isel, gan nodi bod y ffigur yn fwy tebygol o fod rhwng 50 a 80 y cant.¹⁵³ Awgrymodd Tai Tarian hefyd y gall fod angen cymorth ar fwy na 80 y cant o denantiaid sy'n dod drwy'r system ddigartrefedd.¹⁵⁴

200. Gofynnodd Clwyd Alyn hefyd ai'r terfyn deuddeg mis yw'r amserlen gywir, gan nodi bod angen cymorth parhaus ar rai pobl, ac y gallai hynny fod am amser hir iawn. Dywedwyd y byddai angen rhagor o ganllawiau ar sut y bydd y penderfyniad i ddod â'r cymorth i ben yn cael ei reoli.¹⁵⁵

201. Nododd HMPPS fod y ddyletswydd i helpu i gynnal tenantiaeth yn ôl pob tebyg yn un o'r darpariaethau pwysicaf yn y Bil. Dywedwyd, er bod y gwasanaeth prawf yn ymwneud â chynnal tenantiaeth, y bydd yn darparu rhwyd ddiogelwch a chymorth ychwanegol os mai awdurdodau lleol fydd yn ei arwain.¹⁵⁶

202. Mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gymryd camau rhesymol i gysylltu â cheiswyr sydd wedi derbyn cynigion o lety amgen o dan y darpariaethau a wneir yn adran 7, gyda'r bwriad o nodi a yw'r ceisydd mewn

¹⁵¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 326-329

¹⁵² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 331

¹⁵³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 297

¹⁵⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 306

¹⁵⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 300

¹⁵⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 530

perygl o fod yn ddigartref ac a oes angen cymorth arno. Mae'r Bil yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol wneud hyn o fewn ffenestr o ddau fis sy'n dechrau ar ddiwedd y pumed mis ar ôl i'r brif ddyletswydd digartrefedd gael ei chyflawni. Y bwriad yw helpu i leihau digartrefedd mynych drwy roi diogelwch i'r rhai sy'n byw mewn llety nad ydynt yn fathau traddodiadol o dai cymdeithasol neu dai rhent preifat.

203. Mewn ymateb i'r cwestiwn a yw'r ddyletswydd i 'helpu' ceisydd i gadw llety y darperir ar ei gyfer yn y Bil yn wahanol i gynnydd y Papur Gwyn ar gyfer dyletswydd i 'ddarparu cefnogaeth', dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym nad oes gwahaniaeth ymarferol rhwng y Bil a chynnydd y Papur Gwyn.¹⁵⁷

204. O ran yr amserlen arfaethedig ar gyfer darparu cymorth, clywsom gan yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn unol â'n cynigion yn y Papur Gwyn ac yn darparu cymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio eu hadnoddau ac yn creu man gorffen cyffredinol ar gyfer y ddyletswydd. Nododd ei bod yn cyd-fynd ag adborth gan randdeiliaid, yn enwedig gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, sy'n glir iawn mai prif effaith y ddyletswydd ddylai fod sefydlogi'r trawsnewid i lety sefydlog a bod yr amserlen 12 mis yn canolbwyntio adnoddau lle y mae eu hangen fwyaf.¹⁵⁸

205. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn darparu hyblygrwydd, ei fod yn nodi ystod o amgylchiadau penodol y gall dyletswydd ddod i ben odanynt, a bod y cymorth hefyd yn gallu parhau y tu hwnt i 12 mis, os oes angen.¹⁵⁹

Ein barn ni

206. Rydym yn croesawu'r ddyletswydd i ddarparu cymorth i gadw llety addas fel offeryn allweddol i sicrhau bod rhywun yn gallu cynnal tenantiaeth ac felly'n atal achosion aml o ddigartrefedd. Rydym wedi clywed bod y cymorth a ddarperir gan weithwyr cymorth tai yn effeithiol ac yn hanfodol wrth alluogi pobl i gadw eu cartref, ac felly rydym yn croesawu'r ddarpariaeth hon a fydd yn fuddiol wrth sicrhau tenantiaethau sefydlog i lawer. Mae eglurhad yr Ysgrifennydd Cabinet nad oes gwahaniaeth ymarferol rhwng y ddyletswydd yn y Bil a chynnydd y Papur Gwyn yn ddefnyddiol.

207. Er ein bod yn cefnogi'r ddarpariaeth, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y dylai fod ar gael i'r rhai y mae ei hangen arnynt y tu hwnt i'r cyfnod deuddeg mis a bennir yn y Bil. Rydym yn deall pwysigrwydd canolbwyntio cefnogaeth ar gamau

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 93

¹⁵⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 95

¹⁵⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 96

cynnar hanfodol tenantiaeth, ac yn sylweddoli y bydd yn ddigon i lawer o bobl gael cymorth am gyfnod o ddeuddeg mis i'w galluogi i gynnal eu cartref eu hunain, ond rydym yn teimlo'n gryf fod rhaid i'r cymorth fod ar gael o hyd i'r bobl hynny y mae angen cymorth arnynt ar ôl y cyfnod hwnnw.

208. Rydym yn falch o honiad yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd cymorth yn gallu parhau y tu hwnt i ddeuddeg mis ond rydym yn pryderu efallai na fydd hyn yn ddigon clir i randdeiliaid a alwodd am hyblygrwydd ar hyn. Credwn fod angen mwy o eglurder felly ac yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu hyn trwy nodi hyn ar wyneb y Bil. Rydym yn cydnabod y bydd goblygiadau i hyn o ran adnoddau, ond os nad oes cymorth ar gael am y cyfnod y mae ei angen, ni fydd yn effeithiol wrth helpu pobl agored i niwed i sicrhau tenantiaeth hirdymor, a gallai arwain at ddigartrefedd pellach. Mae hyn yn elfen hanfodol o'r Bil ac rydym yn teimlo'n gryf y dylid ei gweithredu'n briodol er mwyn iddi fod yn effeithiol.

209. Rydym yn pryderu bod y gost ddisgwyliedig am ddarparu'r cymorth wedi'i thanamcangyfrif yn sylweddol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, o ystyried bod hyn ar y sail bod angen y cymorth ychwanegol ar 10 y cant o aelwydydd. Clywsom gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y byddai eu hamcangyfrif rhwng 50 a 80 y cant, sy'n wahaniaeth sylweddol. Rydym yn pryderu nad yw dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio data a ddarperir gan dri awdurdod lleol yn unig yn ddigonol i ganfod dealltwriaeth realistig o'r angen ledled Cymru, ac rydym yn credu y dylid cynnal dadansoddiad pellach.

Argymhelliaid 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder y gellir estyn y ddyletswydd i helpu i gadw llety addas y tu hwnt i ddeuddeg mis, yn unol ag argymhellion y Panel Arbenigol, a chyflwyno gwelliant i bennu hyn ar wyneb y Bil.

Argymhelliaid 11. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad pellach o'r angen posibl o dan y ddyletswydd i ddarparu cymorth i gadw llety addas drwy ddefnyddio ffigurau gan nifer uwch o awdurdodau lleol a darparu amcangyfrif diwygiedig o'r costau disgwyliedig cyn gweithredu'r ddarpariaeth hon.

Ymddygiad annerbyniol sy'n dod â dyletswyddau i ben

210. Mae adran 20 yn diwygio adran 79 o Ddeddf 2014 i ddiweddarau'r amgylchiadau y mae'r dyletswyddau i helpu ceiswyr yn dod i ben odanynt. Mae'r darpariaethau yn disodli'r 'methiant afresymol i gydweithredu' sydd ohoni i ben, a hynny, yn ôl y Memorandwm, am fod ei ddehongliad yn rhy eang ac nad yw'n ddigon ystyriol o drawma. Mae'r Bil yn darparu prawf mwy cul i'w gymhwyso o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Ceiswyr sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol tuag at staff tai'r awdurdod lleol neu ddarparwyr gwasanaethau eraill;
- Ceiswyr sy'n mynd ati'n fwriadol i ddinistrio neu ddifrodi'n ddifrifol eiddo a ddarperir mewn cysylltiad â dyletswyddau llety digartrefedd; a
- Cheiswyr sy'n gwrthod cydweithredu'n fwriadol ac yn afresymol – mae'r Memorandwm yn nodi bod hyn i fod yn berthnasol pan fo ceiswyr wedi methu ag ymateb i sawl ymgais gan yr awdurdod lleol i gysylltu â nhw.

211. Esboniodd un o gyfranogwyr y grŵp ffocws sut y gellir gweld bod angen person sydd heb ei ddiwallu am gymorth yn dangos ymddygiad annerbyniol:

"We're seeing a lot of individuals who have worked intensively with our services and other services, who have really significant complex and multi-faceted needs. But they're being seen as behavioural issues within B & Bs because the provision provided does not meet the requirements of people with complex needs."

Cyfranogwr grŵp ffocws

212. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym na ddylai anghenion cymorth heb eu diwallu byth fod yn rheswm dros roi terfyn ar gymorth ond bod rhaid sicrhau bod ei staff digartrefedd a defnyddwyr gwasanaeth eraill yn cael eu cadw'n ddiogel. Dywedodd fod rhaid bod 'llinellau coch' i gadw ei staff yn ddiogel, gan esbonio:

"people who use violence or threats towards staff can have their duties ended, but only if there's no special circumstance that would make it appropriate for any duty to continue to apply."

213. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y bydd awdurdodau lleol yn cadw'r gallu i roi terfyn ar ddyletswyddau pan fo difrod bwriadol i eiddo os nad oes esgus rhesymol dros y camau a gymerwyd gan y ceisydd neu'r aelod o'r aelwyd, ac nad oes amgylchiadau arbennig a fyddai'n gofyn bod y dyletswyddau yn parhau. Ychwanegodd ei bod yn disgwyl i'r darpariaethau gael eu defnyddio'n ofalus a nododd:

"where there are special circumstances that have resulted in this behaviour, such as cuckooing, coercion or abuse, local

authorities will need to consider other appropriate steps to be taken.”¹⁶⁰

214. Mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan dystion ar y darpariaethau. Dywedodd yr Athro Mackie ei fod yn cefnogi dileu’r prawf methiant afresymol i gydweithredu, ond yn llai felly y darpariaethau newydd yn ei le, gan ddweud eu bod yn union y mathau o ymddygiadau sy’n deillio yn aml o drawma yn y gorffennol, gan gynnwys ymgysylltu trawmatig â gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd nad oes modd rhoi diwedd ar ddigartrefedd ar gyfer yr aelwydydd hynny os ydym yn mynd ar drywydd y tri chymal hynny.¹⁶¹ Cydnabu’r Athro Mackie fod angen adeg pan fo pob ymdrech i helpu yn cael ei disbyddu, os yw rhywun yn parhau i beidio â bod mewn cysylltiad, ond roedd yn eirioli dros ddileu’r darpariaethau sy’n ymwneud â difrod eiddo ac ymddygiad treisgar. Awgrymodd y gallai dulliau eraill ymdrin â’r ymddygiadau hynny fel Tai yn Gyntaf neu lety cefnogol dwys.¹⁶²

215. Cododd Cymorth Cymru bryderon tebyg:

“a traumatised person is triggered by something and presents in an emotional state that then ends up with this duty being ended for them.”¹⁶³

216. Cyfeiriodd Crisis at enghreifftiau o gamgymhwyso’r prawf methiant afresymol i gydweithredu sydd eisoes yn bodoli, ac felly croesawodd y darpariaethau culach yn y Bil ar beidio ag ymateb i ymdrechion dro ar ôl tro i wneud cyswllt. Fodd bynnag, codwyd pryder am gyflwyno’r ddarpariaeth difrod eiddo a galwyd am ei dileu.¹⁶⁴ Dywedodd G4S Community eu bod yn pryderu y gallai’r pwerau newydd ddod yn bwerau ‘bwriadoldeb wrth y drws cefn’.¹⁶⁵ Tynnodd yr Athro Fitzpatrick¹⁶⁶ a Crisis¹⁶⁷ sylw at debygrwydd â gwasanaethau cyhoeddus eraill fel gofal iechyd, pan na fo ymddygiad annerbyniol yn atal pobl allan yn llwyr rhag cael gafael ar wasanaethau.

217. Awgrymodd Liz Davies CB y gellir addasu’r tri amgylchiad a galwodd am ‘drothwy’ i sicrhau bod awdurdodau lleol ond yn defnyddio’r pwerau hyn mewn sefyllfaoedd lle roeddent yn fodlon nad oes unrhyw ffordd arall y gallant gyflawni

¹⁶⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 97-99

¹⁶¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 39

¹⁶² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 51-53

¹⁶³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 296

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 424-425

¹⁶⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 449

¹⁶⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 42

¹⁶⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 429

swyddogaethau digartrefedd i'r ceisydd hwnnw.¹⁶⁸ Galwodd hefyd ar y Bil i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn gwrthod cais dilynol, oherwydd nad oes newid amgylchiadau, os yw dyletswyddau yn dod i ben oherwydd y collwyd cyswllt.¹⁶⁹

218. Cododd Voices from Care bryder ynghylch sut y bydd ymddygiad treisgar a bygythiol yn cael ei ddiffinio, yn enwedig yng nghyd-destun pobl ifanc niwrowahanol a all gael trafferth wrth gyfathrebu neu berson ifanc y gall ei ffordd o fyw fod yn anhrefnus, a oedd yn bryder a adleisiwyd gan EYHC. Dywedodd Voices from Care wrthym:

*"we do think that more needs to be done around these definitions about under what circumstances, and who will decide, whether somebody isn't co-operating enough, or is behaving in a threatening manner."*¹⁷⁰

219. Tynnodd yr Athro Fitzpatrick sylw at ganlyniad anfwriadol posibl y pŵer difrod eiddo. Gan fyddai'n gymwys i'r ceisydd neu rywun sy'n preswyllo gydag ef, gallai arwain at eithrio goroeswyr cam-drin domestig o wasanaethau oherwydd gweithredoedd eu partneriaid, dywedodd yr Athro Fitzpatrick y byddai'n afresymol pe bai menywod yn cael eu niweidio oherwydd gweithredoedd eu partneriaid.¹⁷¹ Adleisiwyd y pryder hwn gan Liz Davies CB¹⁷², Cymorth Cymru¹⁷³, Cymorth i Ferched Cymru, a Crisis¹⁷⁴. Cyfeiriodd Cymorth i Ferched Cymru at lawer o enghreifftiau o bobl y mae eu tenantiaeth wedi bod mewn perygl, neu wedi dod i ben oherwydd gweithredoedd eu partner neu eu cyn-bartner yn ystod eu camdriniaeth.¹⁷⁵ Tynnodd Voices from Care sylw hefyd at effeithiau negyddol posibl ar bobl ifanc sy'n cael eu targedu gan gogio, pan all eiddo gael ei ddifrodi drwy weithredoedd pobl eraill.¹⁷⁶

220. Galwodd sawl tyst, gan gynnwys Cymorth Cymru¹⁷⁷ a Crisis,¹⁷⁸ am ganllawiau cryf i sicrhau bod y pwerau'n cael eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n ystyriol o drawma.

¹⁶⁸¹⁶⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 182-183

¹⁶⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 185

¹⁷⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 594

¹⁷¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 43

¹⁷² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 184

¹⁷³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 297

¹⁷⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 424

¹⁷⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 299

¹⁷⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 593

¹⁷⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 296

¹⁷⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 425

221. Mynegwyd safbwynt gwahanol gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol. Dadleuodd CLILC dros gadw'r prawf methiant afresymol i gydweithredu ar ei ffurf bresennol, gan ddweud y gall cyfyngu ar ei ddefnydd leihau cyfrifoldeb personol ac y gall hefyd wneud i geiswyr deimlo'n llai dan orfodaeth i gymryd perchnogaeth o ddod o hyd i atebion i'w hamgylchiadau tai. Galwodd CLILC am ymrwymiad mwy cadarn i gydweithio i weithredu'r newid hwn yn raddol erbyn 2030 neu'n hwyrach, er mwyn sicrhau ymdrech ar y cyd i gynyddu'r cyflenwad a'r adnoddau.¹⁷⁹

222. Mynegodd sawl rhanddeiliad, gan gynnwys Cyngor Abertawe¹⁸⁰, Cyngor Sir Fynwy¹⁸¹, CIH Cymru¹⁸² a CHC,¹⁸³ gefnogaeth i estyn y pwerau i gynnwys trais tuag at breswylwyr eraill. Galwodd Cyngor Abertawe hefyd am estyn y pwerau i gynnwys peidio â thalu rhent neu ffioedd gwasanaeth mewn llety dros dro.¹⁸⁴

223. Tynnodd Cyngor Sir Fynwy sylw at yr angen am ganllawiau clir ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr ag ymddygiad treisgar a bygythiol er mwyn sicrhau cymhwysiad cyson ledled Cymru.¹⁸⁵

224. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid y gall y ddarpariaeth effeithio'n andwyol ar oroeswyr cam-drin domestig, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod y risg o gamgymhwyso'r ddarpariaeth yn cael ei hystyried drwy'r broses ddrafftio, ac yn cael ei hadlewyrchu yng ngeiriad gofalus y darpariaethau. Esboniodd fel a ganlyn:

*"duties can only be ended where there's no reasonable excuse for the actions taken by the applicant or member of their household, and that there are no special circumstances that would require the continuation of the duties. Those safeguards have been specifically inserted to just make sure that victims of interpersonal or familial violence, or those at risk of exploitation are not mistakenly affected. In cases of domestic abuse or cuckooing, action should be taken against the perpetrator and duties should not be ended."*¹⁸⁶

¹⁷⁹ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

¹⁸⁰ HSHAWB 44, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)

¹⁸¹ HSHAWB 38, Cyngor Sir Fynwy (Saesneg yn unig)

¹⁸² HSHAWB 28, CIH Cymru (Saesneg yn unig)

¹⁸³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 269

¹⁸⁴ HSHAWB 44, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)

¹⁸⁵ HSHAWB 38, Cyngor Sir Fynwy (Saesneg yn unig)

¹⁸⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 56

Ein barn ni

225. Rydym yn deall yr angen i awdurdodau lleol gael offer effeithiol er mwyn ymateb i ymddygiad annerbyniol gan bobl sy'n cael cymorth digartrefedd, yn enwedig pan fydd person yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol neu'n fygythiol tuag at staff. Rhaid amddiffyn staff ac mae'n briodol bod dulliau ar waith i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod pobl sy'n ymddwyn mewn modd annerbyniol yn aml yn gwneud hynny o ganlyniad i drawma y maent wedi'i wynebu eu hunain. Rydym, felly, yn pryderu efallai na fydd rhoi terfyn ar ddyletswydd i helpu person o'r fath yn ateb priodol, yn enwedig os yw'r person hwnnw wedyn yn dod yn ddigartref ar sail gudd, canlyniad a fyddai'n tanseilio'r amcan polisi o roi diwedd ar ddigartrefedd. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y bydd angen canllawiau cryf i sicrhau bod y pŵer yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n ystyriol o drawma a bod mesurau presennol eraill, gan gynnwys o dan gyfraith droseddol os oes angen, yn cael eu cymryd yn gyntaf. Rydym yn ailadrodd ein pwynt cynharach bod awdurdodau lleol wedi'u cyfarparu'n wael i ymdrin ag anghenion cymhleth heb eu diwallu a bod angen darparu rhagor o wasanaethau cymorth dwys arbenigol.

226. Rydym yn cydymdeimlo â'r gyfatebiaeth a wnaed gan rai rhanddeiliaid na fyddai triniaeth feddygol yn cael ei gwrthod i berson sy'n ymddwyn mewn ffordd y bernir ei bod yn annerbyniol mewn lleoliad iechyd a gallwn weld rhywfaint o gymhariaeth. Nid ydym yn tanamcangyfrif heriau sefyllfa o'r fath, ond rydym yn pryderu y bydd cosbi rhywun a allai fod yn agored i niwed ei hun yn arwain at drawma pellach. Felly, credwn y dylid rhoi opsiynau ar gyfer rhagor o gymorth ar waith a'u disbyddu cyn i'r cam cryf i roi terfyn ar ddyletswydd i helpu gael ei gymryd, a dim ond os yw'r awdurdod lleol yn hyderus nad oes unrhyw ffordd arall y gellid cynorthwyo'r person.

227. Clywsom alwadau i'r ddarpariaeth fod yn gymwys pan fydd ymddygiad treisgar neu fygythiol yn cael ei dargedu tuag at breswylwyr eraill yn ogystal â staff y sector tai ac rydym yn deall y rhesymeg dros hyn. Ni ddylai preswylwyr ddioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae'n bwysig ar gyfer eu llesiant fod gan awdurdodau offer priodol i ymateb a'u bod yn gallu rhoi mesurau diogelu ar waith. Unwaith eto, nid ydym yn credu bod rhoi terfyn ar ddyletswydd a rhoi'r risg i berson ddod yn ddigartref yn ateb cynaliadwy.

Casgliad 7. Rydym yn pryderu bod rhoi terfyn ar ddyletswydd i ddarparu cymorth digartrefedd yn gam cryf ac yn credu y dylid rhoi opsiynau ar gyfer darparu rhagor o gymorth ar waith cyn cymryd camau o'r fath fel dewis olaf. Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i egluro mai dim ond os yw'r awdurdod lleol yn fodlon nad

oes unrhyw ffordd arall y gall gyflawni swyddogaethau digartrefedd ar gyfer y ceisydd hwnnw y gellir dod â dyletswyddau i ben.

228. Roedd yn bryder penodol gennym glywed tystiolaeth sy'n awgrymu y gallai goroeswyr cam-drin gael eu cosbi eu hunain a bod eu dyletswydd yn dod i ben o ganlyniad i ymddygiad person sy'n preswyllo gyda nhw. Rydym yn croesawu honiad yr Ysgrifennydd Cabinet mai dim ond pan na fo esgus rhesymol dros yr ymddygiad y gellir dod â dyletswyddau i ben ac na ddylid dod â dyletswyddau i ben mewn achosion o gam-drin domestig neu gogio. Gobeithiwn fod y cadarnhad hwn yn rhoi sicrwydd, ond rydym yn pwysleisio pwysigrwydd gorfodi hyn yn briodol ac yn gyson. Rhaid i'r canllawiau ar hyn ei gwneud yn hynod glir na ddylid dod â dyletswyddau goroeswyr cam-drin i ben o ganlyniad i ymddygiad annerbyniol person camdriniol sy'n preswyllo gyda nhw.

Casgliad 8. Rhaid i'r canllawiau ar ymddygiad annerbyniol sy'n dod â dyletswyddau i ben fod yn gryf a phwysleisio na ddylid dod â dyletswyddau goroeswyr cam-drin i ben o ganlyniad i ymddygiad annerbyniol person camdriniol sy'n preswyllo gyda nhw.

Dyletswydd i ofyn a gweithredu

229. Mae adran 21 yn mewnosod dwy adran newydd i Ddeddf 2014 (adrannau 94A a 94B) i greu dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig i nodi achosion lle y gallai unigolion fod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, ac yna gofyn am gydsyniad y person i wneud atgyfeiriad at yr awdurdod tai lleol ar ei ran. Cyfeirir at hyn fel y ddyletswydd 'gofyn a gweithredu'. Roedd y Panel Adolygu Arbenigol wedi argymhell dyletswydd i 'nodi, gweithredu ac atgyfeirio'. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y penderfyniad i ddefnyddio 'gofyn a gweithredu' fel benthycia teitl a ddefnyddiwyd i ddisgrifio ymarfer tebyg iawn sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru, gan nodi'r canlynol:

"Credwn y byddai'n fuddiol rhannu'r teitl gan fod llawer o'r cyrff cyhoeddus penodedig a enwyd yn y Bil yn gyfarwydd ag ymarfer o'r fath a gellir defnyddio'r gwersi a ddysgwyd wrth gyflwyno "gofyn a gweithredu" ym maes VAWDASV."

230. Byddai'n ofynnol hefyd i'r awdurdodau penodedig ddarparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth eraill, ac ystyried a oes unrhyw gamau eraill y gallai eu cymryd yn rhesymol i helpu'r ceisydd i sicrhau neu gadw ei lety.

231. Mae'r Bil yn nodi y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol i'r awdurdodau cyhoeddus canlynol:

- awdurdod gwasanaethau cymdeithasol;
- Bwrdd Iechyd Lleol, ond dim ond mewn perthynas ag unigolion y mae'n darparu neu'n trefnu gwasanaethau gofal iechyd iddynt nad ydynt yn wasanaethau gofal sylfaenol;
- Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- landlord cymdeithasol cofrestredig;
- corfforaeth tref newydd ar gyfer ardal yng Nghymru;
- darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig sy'n darparu tai yng Nghymru;
- ymddiriedolaeth gweithredu tai ar gyfer ardal yng Nghymru;
- llywodraethwr carchar yng Nghymru;
- cyfarwyddwr carchar ar gontract yng Nghymru;
- llywodraethwr sefydliad troseddwr ifanc yng Nghymru;
- llywodraethwr canolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru;
- cyfarwyddwr canolfan hyfforddi ddiogel ar gontract yng Nghymru;
- pennaeth coleg diogel yng Nghymru;
- tîm troseddwr ifanc sydd wedi ei sefydlu o dan adran 39(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37) ar gyfer ardal yng Nghymru;
- rheolwr cartref diogel i blant yng Nghymru;
- darparwr gwasanaethau prawf yng Nghymru;
- swyddog sydd wedi ei gyflogi gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn swyddfa yng Nghymru a elwir yn swyddfa Canolfan Byd Gwaith;
- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, ond dim ond mewn perthynas ag aelodau o luoedd arfog rheolaidd y Goron.

232. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr. Yn ôl y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rhestr dyfu dros amser.

233. Mae adran 22 yn diwygio Deddf 1996 fel bod cyrff cyhoeddus penodedig sydd eisoes yn ddarostyngedig i 'dyletswydd i atgyfeirio' debyg yn Lloegr hefyd yn atgyfeirio person i Gymru pan fo'r person yn nodi awdurdod tai lleol yng Nghymru ac yn cydsynio i gael ei atgyfeirio.

234. Dywedodd Dr Ayla Cosh wrthym fod 'gofyn a gweithredu' eisoes yn digwydd ar lefel fach yng Nghaerdydd, gan esbonio bod Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro (CAVHIS) a Chyngor Caerdydd wedi gweithio gyda'i gilydd i greu system lle, os caiff unigolion eu nodi yn yr uned achosion brys, gofal eilaidd neu wasanaethau cymunedol, y gellir eu hatgyfeirio'n uniongyrchol at wasanaethau tai rheng flaen. Esboniodd Dr Cosh fod hyn yn cael ei wneud gan ddefnyddio Microsoft Form.¹⁸⁷ Dywedodd y bydd deddfu ar gyfer y ddyletswydd yn helpu i gyflwyno'r dull ar draws Cymru.¹⁸⁸

235. Croesawodd y rhan fwyaf o dystion y ddyletswydd 'gofyn a gweithredu'. Cafodd ei alw'n 'chwyldroadol' gan Cymorth ¹⁸⁹, tra bod Crisis wedi nodi y bydd y sefydliadau sydd wedi'u rhestru yn gwneud gwahaniaeth enfawr.¹⁹⁰ Roedd Cartrefi Cymunedol Cymru yn cefnogi'r ddyletswydd, gan ddweud bod landlordiaid cymdeithasol preswyl yn gwneud hyn o un dydd i'r llall,¹⁹¹ ond nododd bryder ynghylch cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar restr o sefydliadau y cyfeirir atynt fel 'awdurdodau cyhoeddus'. Galwodd am i'r Bil gyfeirio at 'awdurdodau rhestredig' o ystyried statws Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel sefydliadau annibynnol.¹⁹²

236. Mynegwyd safbwyntiau gwahanol gan rai rhanddeiliaid o ran geiriad y darpariaethau. Galwodd yr Athro Mackie am i'r Bil ddefnyddio'r iaith a argymhellwyd gan y Panel Adolygu Arbenigol a chyfeirio at 'nodi' a gweithredu, yn hytrach na gofyn. Dywedodd fod yr iaith hon yn fwy rhagweithiol ac y byddai'n annog cyrff cyhoeddus i geisio nodi digartrefedd posibl drwy ddulliau fel dadansoddi data, yn hytrach na gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth dethol yn

¹⁸⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 387

¹⁸⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 390

¹⁸⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 363

¹⁹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 485

¹⁹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 320

¹⁹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 236

unig.¹⁹³ Cytunodd Cymorth Cymru¹⁹⁴ a Dr Cosh y gallai'r geiriad fod yn gliriach ynglŷn â nodi pryd mae rhywun mewn perygl.¹⁹⁵

237. Teimlai Liz Davies CB fod y ddyletswydd eisoes wedi'i geirio'n gadarn, gan ddweud bod 'gofyn' yn gadarnhaol a bod cael cofnod bod person wedi cael ei ofyn i roi ei gydsyniad i wneud cais yn bwysig. Nododd, fodd bynnag, fod yr ymadrodd a ddefnyddir yn adran newydd 94A(1) yn 'ystyried bod person yng Nghymru y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef yn ddigartref neu y gall fod yn ddigartref' yn anghyson â Deddf 2014. Ei hawgrym hi, er cysondeb, oedd y dylai'r geiriad fod 'lle mae gan yr awdurdod cyhoeddus reswm i gredu y gallai person fod yn ddigartref', i adlewyrchu terminoleg a ddefnyddir yn fwy cyffredin mewn deddfwriaeth tai.¹⁹⁶

238. Gan gyfeirio at y ddyletswydd 'gofyn a gweithredu' bresennol mewn perthynas â deddfwriaeth VAWDASV, dywedodd Cymorth i Ferched Cymru wrthym fod hynny'n gweithio i VAWDASV cyn belled â bod gan asiantaethau'r cyllid, yr offer a'r wybodaeth gywir i allu gofyn ac ymateb yn briodol a gwybod ble y gallant gael mynediad at gymorth i'r bobl hynny. Er ei fod yn cefnogi'r dull gweithredu, mynegodd bryder ynghylch y posibilrwydd y gallai defnyddio'r un term arwain at ddryswch â'r ddyletswydd VAWDASV.¹⁹⁷ Cydnabu Cymorth Cymru y gallai defnyddio iaith debyg helpu cyrff i ddeall egwyddor y ddyletswydd a'u helpu i'w cofleidio'n fwy llwyr, ond cefnogodd yr angen i osgoi dryswch â'r ddyletswydd VAWDASV.¹⁹⁸

239. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg y gellir ymgorffori nodi'r risg o ddigartrefedd yn ei brosesau ar draws ysbytai cyffredinol dosbarth, ysbytai cymunedol, timau yn y gymuned a'r ddarpariaeth iechyd meddwl ar gyfer cleifion mewnol. Galwodd am raglenni hyfforddi ac ymwybyddiaeth effeithiol ar gyfer staff perthnasol, a chynnydd yn y Grant Cymorth Tai gyda'r nod o gadw pobl yn eu cartrefi. Nododd ei tystiolaeth ei fod yn bwriadu diwygio'r polisi rhyddhau D2RA i gynnwys darpariaeth ar gyfer ystyried sefyllfaoedd cleifion o ran tai ar adeg eu derbyn, gan ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer camau ataliol.¹⁹⁹

¹⁹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 122-123

¹⁹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 365

¹⁹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 391

¹⁹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 237-239

¹⁹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 359-361

¹⁹⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 364

¹⁹⁹ HSHAWB 48, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Saesneg yn unig)

240. O ran gweithredu, codwyd pwysigrwydd hyfforddiant i staff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd gan Crash Wigley a Shelter Cymru a ddywedodd y bydd angen swm gweddus o fuddsoddiad o ran adnoddau gan Lywodraeth Cymru.²⁰⁰ Dywedodd y GMB fod angen proses strwythuredig a hyfforddiant i staff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd.²⁰¹ Awgrymodd Cymorth Cymru y byddai'n ddefnyddiol archwilio a allai fod mwy o eglurder ar wyneb y Bil ac yn y canllawiau ar yr hyfforddiant, y dysgu, y datblygiad a'r adnoddau.²⁰² Pwysleisiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hefyd yr angen am arweiniad cryf i sicrhau cysondeb a pharhad pan fydd pobl yn symud i rolau newydd.²⁰³

241. O ran hyfforddiant, dywedodd Dr Cosh, yn ei phrofiad hi, fod modiwl hyfforddi gorfodol yn wirioneddol bwysig, yn ogystal â datrysiad TG i wneud y broses mor llyfn â phosibl, a phwynt cyswllt sengl mewn ysbytai lle gall staff gyfeirio unigolion sydd mewn perygl a all gysylltu â'r awdurdod lleol.²⁰⁴ Mynegwyd barn debyg gan Clinks mewn perthynas ag atgyfeiriadau gan y gwasanaethau carchardai a phrawf, gan gynnwys yr angen am lwybrau clir sy'n arwain mewn gwirionedd at weithredu.²⁰⁵

242. Dadleuodd Dr Cosh dros rannu data yn well a gwelliannau i systemau TG, er mwyn atal dyblygu gwaith ar draws asiantaethau a galluogi mesur canlyniadau'n well.²⁰⁶

243. Mewn ymateb i'r awgrym y dylid geirio'r ddyletswydd yn wahanol, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet yn ei llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad:

"Nid wyf yn credu y byddai gwahaniaeth sylweddol mewn ystyr pe baem wedi defnyddio bod â "rheswm i gredu" yn hytrach nag "ystyried". Y rheswm dros ddefnyddio "ystyried" yn y ddarpariaeth hon yw er mwyn cysondeb â iaith adran 213B o Ddeddf Tai 1996, gan y bydd (yn fras) yr un cyrff yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i "ofyn a gweithredu" o dan adran 94A newydd o Ddeddf 2014 mewn perthynas â Chymru a'r ddyletswydd i gyfeirio o dan adran 213B o Ddeddf Tai 1996

²⁰⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 234-235

²⁰¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 570

²⁰² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 365

²⁰³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 127

²⁰⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 407

²⁰⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 490

²⁰⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 396-397

("Deddf 1996") mewn perthynas â Lloegr. Mae yna, felly, werth mewn defnyddio'r uniaith yn y ddwy ddarpariaeth."

244. O ran a ddylai'r Bil nodi y dylai fod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd camau rhagweithiol i nodi risg digartrefedd a nodi camau i gyflawni hyn, cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod yn rhaid i weithwyr proffesiynol gael eu hyfforddi'n ddigonol i nodi arwyddion digartrefedd neu risg o ddigartrefedd a bod gwaith i'w wneud i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud cyn ei weithredu. Fodd bynnag, ychwanegodd:

*"I don't believe it's appropriate to list a specific question or specific steps on the face of the Bill, just because it'll not fit the needs of all individuals, and I really don't want to create a tick-box exercise for homelessness. I don't think that that would lead to the effective person-centred response that I'm sure we all want to see. I think to help public bodies deliver 'ask and act', the duty has to be supported by detailed statutory guidance and a learning and development offer, and I'm very much of the view that those tools are more effective in setting out the detailed practical proposals needed to deliver 'ask and act'."*²⁰⁷

Cyrff cyhoeddus nad ydynt wedi'u nodi yn y Bil

245. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet, er y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol i fyrddau iechyd lleol – gan gynnwys gofal brys ac argyfwng, gofal cleifion mewnol, gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, fod penderfyniad gwahanol wedi'i wneud mewn perthynas â gofal sylfaenol:

*"Primary care is not included because the Welsh Government has a different, contractual based relationship with the sector. So, in discussions that officials had with health policy colleagues, I've determined that our policy intention is much better met through contract renegotiation and service specification for GP services."*²⁰⁸

246. Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

"we're trying to achieve the same outcome through that contract renegotiation. How exactly that will be phrased and

²⁰⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 121

²⁰⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 102

*developed within that, we're still working with health colleagues on at the moment. But, yes, we're trying to achieve the same outcome as the 'ask and act' duty, but through a different mechanism with primary care."*²⁰⁹

247. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet a'i swyddogion hefyd safbwynt Llywodraeth Cymru ar beidio â chynnwys yr heddlu ymhlith y cyrff cyhoeddus penodedig, a nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn.²¹⁰ Esboniodd swyddog fod gan swyddogion heddlu ddyletswydd unigol sy'n wahanol i swyddogion sector cyhoeddus eraill a bennir yn y Bil, felly nid oedd y goblygiadau drafftio wedi'u datblygu'n llwyr. Dywedodd y swyddog hefyd y byddai cymhlethdod pellach o ran gofyn i'r heddlu yng Nghymru wneud rhywbeth nad yw'r heddlu yn Lloegr yn ei wneud, er gwaethaf y ffaith bod dyletswydd debyg yn Lloegr. Dywedodd y swyddog fod Llywodraeth Cymru yn gobeithio cyflwyno gwelliannau yn ddiweddarach.²¹¹ Eglurodd swyddog arall y byddai ychwanegu'r heddlu at y rhestr o gyrff penodedig yn golygu y byddai angen cydsyniad Gweinidog y Goron gan nad yw plismona wedi'i ddatganoli.²¹²

248. Nid yw'r rhestr o gyrff penodedig yn cynnwys ysgolion a cholegau er gwaethaf bod y Panel Adolygu Arbenigol yn argymhell eu cynnwys. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y rhesymau dros y ffaith eu bod wedi'u hepgor:

*"Extensive engagement was undertaken with schools and education unions as part of the workload assessment process to determine the most appropriate approach in respect of education. Following that engagement, I agreed with the Cabinet Secretary for Education that the duty to 'ask and act' will not apply to schools at this time, but will instead strengthen existing support systems and guidance using our existing powers. Schools will continue to have a role to play in homelessness prevention, and it is important to build on the systems that we've already got in place to support children and families."*²¹³

249. Er bod y rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd gofyn a gweithredu wedi'i chroesawu gan lawer, clywsom alwadau i gynnwys cyrff eraill ar

²⁰⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 110

²¹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 114

²¹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 116-123

²¹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 129

²¹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 148

y rhestr. Mynegodd yr Athro Mackie a'r Athro Fitzpatrick siom ynghylch eithrio gofal sylfaenol o'r rhestr, gyda'r Athro Fitzpatrick yn nodi ei fod yn un o'r gwasanaethau cymunedol pwysicaf y mae pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn debygol iawn o ddod i gysylltiad ag ef. Mynegodd y ddau hefyd siom am hepgor ysgolion o'r ddyletswydd.²¹⁴

250. Adleisiodd sawl tyst arall alwadau i gynnwys gofal sylfaenol, gan gynnwys Dr Cosh a ddywedodd gan mai gofal sylfaenol sy'n gweld y rhan fwyaf o bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, y byddai gwneud y gwasanaethau hynny'n ddarostyngedig i ddyletswyddau gofyn a gweithredu yn allweddol o ran datgloi'r rhan atal o'r ddyletswydd hon.²¹⁵ Holodd Cymorth Cymru a oedd defnyddio'r contract meddygon teulu, a thrwy hynny dibynnu ar fanylebau gwasanaeth nad ydynt wedi'u datrys eto, yn rhoi digon o hyder y bydd uchelgais a chanlyniadau 'gofyn a gweithredu' yn cael eu hefelychu yn yr un ffordd.²¹⁶ Roedd tystion eraill a oedd yn cefnogi cynnwys gofal sylfaenol yn cynnwys Crisis,²¹⁷ cynghorau Casnewydd²¹⁸ a Rhondda Cynon Taf²¹⁹, Cartrefi Cymunedol Cymru²²⁰, EYHC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg²²¹.

251. O ran cynnwys y sector addysg, roedd Cymorth Cymru yn deall y rhesymeg dros beidio â rhoi dyletswydd ar benaethiaid a phrifathrawon ysgolion, ond yn hytrach galwodd am ddyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau addysg lleol.²²² Cefnogwyd yr awgrym hwn gan y GMB.²²³

252. Galwodd rhanddeiliaid sy'n cynrychioli pobl ifanc yn unfrydol am gynnwys y sector addysg o fewn y ddyletswydd, gyda Voices from Care yn nodi mai dyma "yw'r gwasanaeth cyhoeddus lle mae bron â bod pob plentyn, a bron â bod bob person ifanc, â chysylltiad gyda nhw yn ddyddiol".²²⁴ Adleisiwyd hyn gan GISDA a ddywedodd fod y sector yn "gyswllt allweddol ar gyfer adnabod pobl ifanc sydd mewn peryg o ddigartrefedd yn gynnar iawn, weithiau'n gynharach nag unrhyw sefydliad arall".²²⁵ Cytunodd EYHC, gan ddweud oherwydd y bydd sgysiau'n digwydd yn yr ysgol beth bynnag, byddai cael protocol i athrawon gefnogi'r bobl

²¹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 131 a 134

²¹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 401-403

²¹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 366

²¹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 485

²¹⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 107

²¹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 127

²²⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 321

²²¹ HSHAWB 48, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (Saesneg yn unig)

²²² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 367

²²³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 489

²²⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 562

²²⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 564

ifanc yn ddefnydd llawer mwy effeithiol o amser pobl.²²⁶ Tystion eraill a oedd yn cefnogi cynnwys addysg oedd Cyngor Dinas Casnewydd,²²⁷ Crisis,²²⁸ a Chymuned G4S²²⁹. Galwodd EYHC a'r NYAS hefyd am gynnwys gweithwyr ieuenctid.²³⁰

253. Yn ogystal â galw am gynnwys gofal sylfaenol ac ysgolion, dywedodd Shelter Cymru wrthym yr hoffai weld yr heddlu yn cael eu cynnwys gan eu bod yn aml yn bresennol yn ystod achosion o droi allan. Dywedodd y byddai cael dyletswydd ar yr heddlu i gyfeirio yn ddyletswydd wirioneddol bwerus y byddai'n rhaid iddynt wedyn weithredu arni.²³¹ Roedd hon yn farn a rannwyd gan eraill gan gynnwys Cymorth Cymru,²³² Cymuned G4S²³³ a Clinks a ddywedodd ei fod yn gyfle a gollwyd gan mai'r heddlu yw'r pwynt cyswllt cyntaf yn aml i bobl agored i niwed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Dywedodd Clinks wrthym fod gwahardd yr heddlu yn peryglu creu bylchau yn y ddarpariaeth.²³⁴

254. Mynegodd rhai tystion, gan gynnwys yr Athro Fitzpatrick²³⁵, Cyngor Ffoaduriaid Cymru,²³⁶ a Housing Justice Cymru²³⁷ siom nad yw'r Swyddfa Gartref wedi'i chynnwys, mewn perthynas â phobl sydd newydd gael statws ffoadur. Argymhellodd Sefydliad Bevan y dylai Llywodraeth Cymru alw ar y Swyddfa Gartref i gynyddu'r cyfnod rhybudd ar gyfer ffoaduriaid sydd newydd eu caniatáu i aros y tu hwnt i 56 diwrnod.²³⁸

255. Yn gyffredinol, croesawodd tystion y ffaith bod y Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymestyn y rhestr yn y dyfodol.

256. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei bod wedi ystyried ychwanegu awdurdodau addysg lleol at y rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i 'gofyn a gweithredu' ond nad oedd yn credu bod hynny'n angenrheidiol nac y byddai'n cyflawni'r bwriad polisi. Eglurodd fod gan awdurdodau lleol ddyletswyddau eisoes o dan Ddeddf Addysg 2002 i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo lles plant – y ddyletswydd bresennol hon i hyrwyddo lles plant – sydd, yn ei barn hi, eisoes yn

²²⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 568

²²⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 107

²²⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 485

²²⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 321

²³⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 569 a 572

²³¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 228

²³² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 368

²³³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 499

²³⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 497

²³⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 136

²³⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 495

²³⁷ HSHAWB 42, Housing Justice Cymru (Saesneg yn unig)

²³⁸ HSHAWB 45, Sefydliad Bevan (Saesneg yn unig)

cwmpasu'r trefniadau ar gyfer plant sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw hi eisiau dyblygu gwaith a bydd yn canolbwyntio ar feithrin arferion da a diweddarau canllawiau presennol neu gyhoeddi canllawiau newydd.²³⁹

257. Ychwanegodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod y fframwaith deddfwriaethol o fewn addysg eisoes yn bodoli ac y gellir 'bachu arno' a'i gryfhau drwy ganolbwyntio ar sicrhau bod y ffyrdd a'r llwybrau atgyfeirio cywir ar waith.²⁴⁰

258. Mewn ymateb i drafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â chynnwys yr heddlu o dan y ddyletswydd, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei bod yn gohebu â Gweinidogion y Swyddfa Gartref ac yn bwriadu cyfarfod â nhw i drafod rôl bosibl yr heddlu. Nid oedd hi eisiau niweidio canlyniad y trafodaethau hynny ond ymrwymodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf pan fyddai hi'n gallu.

259. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y gwnaed cysylltiad hefyd â'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â ffoaduriaid a bod swyddogion Llywodraeth y DU wedi bod yn glir iawn o ddechrau'r trafodaethau a gafwyd nad yw mewn sefyllfa i gefnogi cynnwys gwasanaethau lloches o fewn 'gofyn a gweithredu'. Clywsom, fel dull arall, gan fod y contract ar gyfer tai lloches yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr hysbysu awdurdod lleol pan fydd yn rhoi'r gorau i gefnogi defnyddiwr gwasanaeth yn dilyn penderfyniad cadarnhaol ynghylch ei gais am loches, yr hyn y mae hynny'n ei olygu yn ymarferol yw bod awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu am bobl sydd angen cymorth, sef yr hyn y mae'r ddyletswydd i 'ofyn a gweithredu' yn ceisio ei gyflawni.²⁴¹

Ein barn ni

260. Rydym yn cefnogi cynnwys y darpariaethau 'gofyn a gweithredu' yn y Bil hwn ac yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol i'r ddyletswydd a fynegwyd gan randdeiliaid. Clywsom fod dyletswydd debyg eisoes yn bodoli mewn perthynas â nodi pobl sydd mewn perygl o VAWDASV, sy'n gweithio'n dda. Rydym yn cydnabod pryder y gallai defnyddio'r un derminoleg achosi dryswch, fodd bynnag, ar y cyfan, gan y bydd llawer o'r un sefydliadau yn ddarostyngedig i'r ddwy ddyletswydd, rydym yn cytuno y gallai'r cyfarwyddrwydd fod o fudd i weithwyr proffesiynol o ran deall cysyniad y ddyletswydd newydd yn gyflym, gan helpu i'w gwreiddio'n ymarferol.

²³⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 124-124

²⁴⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 134

²⁴¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 142-143

261. Rydym hefyd yn cydnabod y dystiolaeth o Wasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro (CAVHIS) lle mae'r cysyniad eisoes yn digwydd yn rhannol. Rydym yn croesawu'r gwaith hwn, a fydd yn darparu tystiolaeth werthfawr wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd ledled Cymru. Bydd gweithredu'r ddyletswydd yn effeithiol yn gofyn am fewnbwn gan bob corff dan sylw. Rhaid i unrhyw system a ddefnyddir gael ei chynllunio i ddiwallu anghenion pob parti a rhaid iddi fod yn syml i'w gweinyddu. Clywsom gan CAVHIS ei fod yn defnyddio meddalwedd sy'n hawdd i'w defnyddio. Rhaid i brofiad CAVHIS a mewnbwn cyrff eraill fod ar flaen y gad o ran gweithredu.

Casgliad 9. Bydd hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a phhecynnau hyfforddi yn hanfodol o ran gallu nodi arwyddion digartrefedd ac o ran sut i ymateb. Rydym yn nodi o'r amserlen weithredu a grybwyllwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet fod y ddyletswydd i fod i ddechrau fel rhan o'r ail gam yn 2028-29, ac er bod amser sylweddol i gynllunio ymlaen llaw, rhaid defnyddio'r amser hwn yn ddoeth.

Casgliad 10. Bydd gweithredu effeithiol yn allweddol i lwyddiant y darpariaethau 'gofyn a gweithredu' a rhaid i randdeiliaid fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio system sy'n gweithio i bawb. Rhaid i brofiad CAVHIS a mewnbwn cyrff eraill fod ar flaen y gad o ran cynllunio ar gyfer gweithredu.

262. Rydym yn croesawu'r amrywiaeth o sefydliadau sydd eisoes wedi'u rhestru yn y Bil ac yn cefnogi eu cynnwys gan fod gan bob un rôl bwysig i'w chwarae wrth nodi rhywun sy'n ddigartref neu a all fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd. Bydd eglurder mewn llywodraethu yn hanfodol er mwyn sicrhau ei bod yn glir ym mhob corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ymgorffori prosesau newydd a sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Rydym yn benodol yn croesawu cynnwys llywodraethwyr carchardai a sefydliadau troseddwy'r ifanc o ystyried y perygl uchel o fod yn ddigartref ymhlith pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar. Mae'r ddarpariaeth i ddiwygio'r rhestr drwy is-ddeddfwriaeth yn hanfodol ac rydym yn cefnogi ei chynnwys.

263. Er gwaethaf ein cefnogaeth gyffredinol i'r ddyletswydd, rydym yn ymwybodol iawn o'r galwadau a wnaed gan randdeiliaid am newidiadau i'r geiriad neu i'r rhestr o gyrff y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Gwnaethom drafod geiriad y ddyletswydd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd o'r farn ei bod yn ddigon clir. Rydym yn gwerthfawrogi bod y ddyletswydd hon yn gysyniad newydd yn sector digartrefedd Cymru, gyda dim ond un dull tebyg ar waith. Felly, bydd yn hanfodol monitro ei effaith a gwneud newidiadau iddi os oes angen. Felly, rydym yn credu y bydd angen cynnal adolygiad ffurfiol o'r ddyletswydd a dylid darparu ar gyfer hyn ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i ddarparu ar gyfer adolygiad ffurfiol o effaith y ddyletswydd 'gofyn a gweithredu' a gyflwynwyd gan adran 21. Dylai adolygiad gynnwys sut mae'r ddyletswydd yn gweithio i'r cyrff cyhoeddus a restrir wrth atal digartrefedd a'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhai nad ydynt wedi'u rhestru, monitro'r sectorau hyn, ac ystyried a oes angen gwneud newidiadau i'r rhestr.

264. Roedd y dystiolaeth a glywsom yn argyhoeddiadol ac rydym yn cydymdeimlo â'r galwadau hynny i ychwanegu cyrff at y rhestr, yn enwedig y sector addysg, gofal sylfaenol a'r heddlu, sydd i gyd mewn sefyllfaoedd i adnabod arwyddion digartrefedd a nodi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

265. Mae athrawon a staff eraill yr ysgol yn rhyngweithio â phlant bob dydd ac o ystyried y perthnasoedd y maent yn gallu eu meithrin gyda phobl ifanc a'u teuluoedd, mae'n syndod i ni nad ydynt wedi'u cynnwys yn y darpariaethau 'gofyn a gweithredu'. Roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid y clywsom ganddynt hefyd wedi disgwyl iddynt gael eu cynnwys. Gwnaethom drafod hyn yn fanwl gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a chlywed ei rhesymeg dros ddewis dull gwahanol. Rydym yn deall bod trefniadau ar wahân eisoes ar waith mewn ysgolion ar gyfer nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a cheisio cymorth priodol, a dywedwyd wrthym fod hynny'n effeithiol. Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i hyn, rydym yn derbyn rhesymeg yr Ysgrifennydd Cabinet yn erbyn darostwng ysgolion i'r ddyletswydd 'gofyn a gweithredu' ar hyn o bryd os oes dewis arall effeithiol eisoes ar waith. Er gwaethaf hyn, o ystyried cryfder y dystiolaeth o blaid cynnwys ysgolion, credwn y dylid monitro effeithiolrwydd y trefniant presennol yn ofalus gyda'r bwriad o ychwanegu ysgolion at y rhai sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd os oes angen.

266. Hefyd, clywsom yr Ysgrifennydd Cabinet yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar ganllawiau cryf a rhannu arfer da. Rydym yn cytuno y bydd y rhain yn allweddol. Fodd bynnag, thema gyffredin yn ein craffu tai yw nad yw rhannu arfer da bob amser yn digwydd fel y dylai, ac rydym yn credu y gallai hyn fod yn wendid o ran y dull hwn. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n disgwyl i hyn ddigwydd o ran sut mae ysgolion yn nodi ac yn hysbysu awdurdodau lleol am y risg o ddigartrefedd, gan gynnwys ei rôl ei hun wrth ledaenu gwybodaeth.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n disgwyl i arfer da gael ei fabwysiadu'n gyson o ran sut mae ysgolion yn nodi ac yn hysbysu awdurdodau lleol am y risg o ddigartrefedd, gan gynnwys ei rôl ei hun wrth ledaenu gwybodaeth.

267. Rydym hefyd yn synnu nad yw darparwyr gofal sylfaenol wedi cael eu cynnwys o fewn y dyletswyddau 'gofyn a gweithredu' o ystyried y rhyngweithiadau y mae ymarferwyr yn eu cael â'u cleifion. Unwaith eto, roedd y dystiolaeth a glywsom gan randdeiliaid yn ffafrio'n gryf dros eu cynnwys. Yn benodol, roedd yr alwad gan CAVHIS am hyn yn gymhellol o ystyried ei brofiad o dreialu 'gofyn a gweithredu'. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan resymeg yr Ysgrifennydd Cabinet dros beidio â chynnwys gofal sylfaenol yn y Bil ond ceisio cyflawni'r un canlyniad drwy ailnegodi contractau a manylebau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu.

268. Rydym yn nodi o'r amserlen weithredu a grybwyllwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet fod y ddyletswydd i fod i ddechrau fel rhan o'r ail gam yn 2028-29. Yn ystod y cyfamser, dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen â'i nod o ddefnyddio trafodaethau contract a manylebau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau meddygon teulu i roi gofyniad i ofal sylfaenol nodi pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a'u cyfeirio am gymorth. Os nad yw hyn yn bosibl, neu os yw'r dull amgen hwn yn llai effeithiol, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth i ychwanegu gofal sylfaenol at y rhestr o gyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 21 o'r Bil.

Argymhelliad 14. Yng ngoleuni'r dystiolaeth gref o blaid cynnwys ysgolion a gofal sylfaenol ar y rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd 'gofyn a gweithredu', dylai Llywodraeth Cymru fonitro effeithiolrwydd ei dulliau amgen gyda'r bwriad o ychwanegu'r sectorau hyn at y ddyletswydd os oes angen, gan ddefnyddio'r pŵer i ddiwygio'r rhestr drwy is-ddeddfwriaeth.

269. Rydym yn cydnabod bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn parhau i drafod gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch cynnwys yr heddlu yn y rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd 'gofyn a gweithredu', ac rydym yn croesawu hynny. Mae'r heddlu ar y rheng flaen bob dydd, yn rhyngweithio â phobl gan gynnwys y rhai sy'n cysgu ar y stryd. Maent hefyd yn aml yn bresennol mewn achosion o droi allan a byddant yn gweld pobl yn gorfod gadael eu cartrefi gyda'u llygaid eu hunain. Rydym yn gwerthfawrogi'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnwys yr heddlu o dan y ddyletswydd, gan gynnwys cael cydsyniad Gweinidog y Goron, ond mae hyn yn hanfodol.

270. Clywsom swyddog o Lywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn gobeithio cyflwyno gwelliannau yn ddiweddarach, ac rydym yn croesawu hynny. Rydym yn gwerthfawrogi ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref ac rydym yn gofyn i'r wybodaeth ddiweddaraf gael ei rhannu yn ystod y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Darpariaeth ar gyfer pobl sy'n agored i niwed

271. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau penodol sydd wedi'u hanelu at grwpiau o bobl agored i niwed.

Pobl ifanc sy'n gadael gofal

272. Mae adran 23 yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda'r nod o sicrhau nad oes rhaid i unrhyw berson ifanc sy'n gadael gofal gysylltu i ddweud ei fod yn ddigartref i gael mynediad at lety addas. Mae'r diwygiad yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i berson ifanc sy'n gadael gofal sydd rhwng 18 a 21 oed symud iddo, neu hyd at 25 oed pan fo'r person ifanc mewn addysg neu hyfforddiant. Cefnogir y cynnig gan ddarpariaeth yn adran 37 sy'n anelu at flaenoriaethu pobl ifanc sy'n gadael gofal wrth dyrannu tai cymdeithasol, drwy greu categori newydd o ffafriaeth resymol i bobl ifanc y mae'r ddyletswydd newydd hon yn ddyledus iddynt.

273. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiffinio ystyr "llety addas" mewn perthynas â phobl ifanc sy'n gadael gofal.

274. Mae adran 24 yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau sy'n cynnwys protocol ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol a swyddogaethau tai. Y bwriad yw y bydd y protocolau yn nodi trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a'u teuluoedd. Yn y Memorandwm, nodir bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl mai gwasanaethau cymdeithasol plant fydd yr asiantaeth arweiniol yn y rhan fwyaf o achosion.

275. Mae'r categorïau o bobl ifanc y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt yn gyson â'r diffiniadau o gategorïau o bobl ifanc sydd eisoes â hawl i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Yn ei llythyr atom ar 20 Mehefin, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet sut mae'r darpariaethau'n berthnasol i'r gwahanol gategorïau o bobl ifanc, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014:

"Mae'r adran 108A newydd yn cyflwyno dwy ddyletswydd ar awdurdodau lleol cyfrifol ynghylch pobl sy'n gadael gofal, fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael iddynt ble mae eu llesiant yn gwneud hynny'n ofynnol. Mae'r ddyletswydd gyntaf yn berthnasol i bobl ifanc yng nghategorïau 1 a 2 pan fyddant yn troi'n 18 oed ac yn dod

yn rhai categori 3 sy'n gadael gofal. Mae'r ddyletswydd yn yr achosion hynny yn berthnasol nes iddynt droi'n 21 oed ond gall y ddyletswydd hon ymestyn y tu hwnt i 21 oed os ydynt yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant. Ar gyfer categorïau 5 a 6, mae'r ddyletswydd gyntaf hon yn gymwys o 18 i 21.

Mae'r ail ddyletswydd yn berthnasol i gategorïau 3 a 4, ac mewn rhai achosion ar gyfer pobl ifanc categori 5 a 6 am gyfnod o 12 mis (neu fwy os yw lles y person yn gofyn am hynny) yn dilyn diwedd eu dyletswyddau priodol o dan y Ddeddf. Gallai'r dyletswyddau o dan y Ddeddf ymestyn y tu hwnt i 25 oed pan fo'r unigolyn yn dilyn addysg neu hyfforddiant, neu'n bwriadu dilyn addysg neu hyfforddiant."

276. Croesawyd y darpariaethau yn gyffredinol gan randdeiliaid sy'n cynrychioli pobl ifanc sy'n gadael gofal ond galwodd NYAS am gyfathrebu clir i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn gwybod ac yn deall eu hawliau ac i'r gweithlu sy'n eu cefnogi.²⁴² Tynnodd Voices from Care sylw at yr angen am ddiffiniad clir o 'rhesymol' yng nghyd-destun y dyletswyddau ar awdurdodau lleol yn yr adran 108A(2) a (4) newydd.²⁴³

277. Croesawodd Voices from Care ac EYHC y protocolau ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol ond gwnaethant alw ar Lywodraeth Cymru i orfodi arfer da o ran cyfathrebu rhwng gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau digartrefedd gyda thempled protocol cenedlaethol.²⁴⁴ Cyfeiriodd EYHC at enghraifft bresennol yn Sir Gaerfyrddin o dîm ar y cyd sydd eisoes wedi'i sefydlu gyda phrotocolau gweithio ar y cyd gan weithwyr cymdeithasol, cynghorwyr opsiynau tai a chydlynwyr digartrefedd pobl ifanc. Dywedodd ei fod yn gweithio'n dda iawn a bod y canlyniadau wedi bod yn wych. Dywedodd wrthym:

"The Welsh Government have viewed this as a piece of best practice already, so it would be really pleasing to see the Welsh Government take more leadership on that protocol and really dictate what they want from local authorities to make sure that it's not a continuation of where the good local authorities continue to do stuff positively and where, maybe, there are

²⁴² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 526

²⁴³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 543

²⁴⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 531

issues in some local authorities and that those issues continue regardless of the legislation.”²⁴⁵

278. Dywedodd Voices from Care hefyd y dylai'r arolygiaethau oruchwylio'r swyddogaethau newydd hyn ac y dylid ymgynghori â phobl ifanc fel rhan o'r broses o arolygu'r gwasanaethau hynny.²⁴⁶

279. Mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n berthnasol i bobl sy'n gadael gofal hyd at 21 neu 25 oed os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant, galwodd NYAS am i'r Bil neu'r canllawiau sicrhau bod modd cael mynediad at gymorth ar ôl i berson droi'n 21, gan nodi nad yw'r risg o ddigartrefedd yn dod i ben i bobl sy'n gadael gofal pan fyddant yn troi'n 21 oed.²⁴⁷

280. Roedd Comisiynydd Plant Cymru yn "falch o weld bod y grŵp hwn o bobl ifanc bellach yn cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer cymorth estynedig ac felly'n gallu osgoi'r system ddigartrefedd" ond cododd bryder am y dyletswyddau yn adran 23 gan gyfeirio at 'bobl ifanc y mae eu llesiant yn gofyn amdano'. Nododd y Comisiynydd y gallai "pobl ifanc â phrofiad o ofal deimlo angen neu bwysau i brofi bod eu llesiant 'yn ddigon drwg' iddynt gael eu hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer llety addas."

281. Croesawodd y Comisiynydd y protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl sy'n gadael gofal o dan adran 24, gan ddweud y bydd ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol bennu trefniadau i gydweithredu o'r fath yn "golygu bod y rhai sy'n gadael gofal yn osgoi'r system ddigartrefedd i bob pwrpas ac yn osgoi profiadau negyddol pellach o systemau a chyrff cyhoeddus."

282. Galwodd Gweithredu dros Blant am ganllawiau mwy penodol gan Lywodraeth Cymru y dylai'r protocol fabwysiadu dull aml-asiantaeth yn achosion pobl sy'n gadael gofal sydd mewn perygl o fod yn ddigartrefedd ac am gyfeirio at y sector gwirfoddol yn adran 24.²⁴⁸

283. Roedd rhanddeiliaid eraill hefyd yn cefnogi'r darpariaethau, a dywedodd Cymorth Cymru fod y Bil yn hynod gadarnhaol i bobl sy'n gadael gofal yn gyffredinol.²⁴⁹ Wrth groesawu'r newidiadau, galwodd CIH Cymru am i'r Bil nodi y dylai gwaith ddechrau pan fydd rhywun sy'n gadael gofal yn 16 oed yn hytrach

²⁴⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 535

²⁴⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 532

²⁴⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 537

²⁴⁸ HSHAWB 34, Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)

²⁴⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 341

nag yn 18 oed pan fydd yn gadael gofal, er mwyn caniatáu digon o amser i sicrhau bod unrhyw anghenion cymorth yn cael eu diwallu.²⁵⁰

Ein barn ni

284. Rydym yn teimlo'n gryf na ddylai unrhyw berson ifanc sy'n gadael y system gofal gael ei hun yn ddigartref. Felly, rydym yn croesawu'n fawr ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i sicrhau nad yw pobl ifanc sy'n gadael gofal yn mynd i mewn i'r system ddigartrefedd ac rydym yn cefnogi cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'r grŵp hwn. Credwn fod hon yn agwedd bwysig iawn ar y Bil. Fodd bynnag, mae gennym bryderon y bydd y ddyletswydd gyffredinol yn berthnasol i bobl hyd at 21 oed yn unig a dim ond i bobl rhwng 21 a 25 oed os ydynt yn dilyn neu yn dymuno dilyn rhaglen addysg neu hyfforddiant. Rydym yn cydymdeimlo â'r safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid bod y grŵp hwn o bobl agored i niwed yn parhau i fod mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref hyd yn oed ar ôl troi'n 21 oed.

285. Rydym yn deall mai rhesymeg Llywodraeth Cymru dros y dull hwn yw sicrhau bod y Bil hwn yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ac yn deall bod cysondeb ar draws deddfwriaeth yn fwy dymunol er mwyn osgoi dryswch. Fodd bynnag, rydym yn cael trafferth deall y rhesymeg dros beidio ag ymestyn y ddyletswydd i bob person sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. O ystyried pwysigrwydd sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gallu sicrhau cartref sefydlog ac osgoi mynd i mewn i'r system digartrefedd, credwn nad cysondeb ar draws deddfwriaeth ddylai fod y ffactor allweddol yn y sefyllfa hon.

Argymhelliaid 15. Rydym yn cefnogi'r dystiolaeth gan NYAS ac yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru asesu'r achos dros ymestyn darpariaethau sydd wedi'u hanelu at bobl sy'n gadael gofal yn y dyfodol, fel eu bod yn berthnasol i bawb hyd at 25 oed, nid dim ond y rhai mewn addysg neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd i sicrhau bod llety addas ar gael i bobl sy'n gadael gofal a'r flaenoriaeth resymol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol, yr ydym yn eu trafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl y mae arnynt angen arbennig am gymorth

286. Mae adran 25 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo cydweithredu rhyngddynt eu hunain a chyrff cyhoeddus, gwirfoddol neu gyrrff eraill yn yr ardal leol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud

²⁵⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 462

trefniadau gan gynnwys protocol ar gyfer dull o gydlynu achosion rhwng nifer o asiantaethau ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref y mae ganddynt nifer o anghenion cymorth cymhleth eraill. Yn y Memorandwm, nodir nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu protocol enghreifftiol ar gyfer cydlynu achosion. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei chefnogi gan adran 32 o'r Bil, sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol i gydweithredu â chais gan awdurdod lleol oni fyddai gwneud hynny'n anghydnaws â dyletswyddau neu swyddogaethau'r corff ei hun.

287. Cefnogir y cynnig gan adran 95 wedi'i diwygio o Ddeddf 2014, sy'n galluogi awdurdodau lleol i alw ar ystod ehangach o gyrff cyhoeddus penodedig i'w cynorthwyo i fynd i'r afael ag amcanion digartrefedd.

288. Pwysleisiodd cyfranogwr grŵp ffocws bwysigrwydd gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd:

"Nid mater tai yn unig yw digartrefedd, yn enwedig gyda'r unigolion cymhleth sy'n dod ar draws ein gwasanaethau ac mae mor sylfaenol bwysig ein bod ni'n edrych ar y natur amlddisgyblaethol a'r angen i wasanaethau eraill weithio gyda gwasanaethau digartrefedd i gefnogi unigolion."

Cyfranogwr grŵp ffocws

289. Nododd Cartrefi Cymunedol Cymru ei gefnogaeth gref i'r protocol, gan ddweud ei bod yn hanfodol sicrhau y gall y rhai sydd ag anghenion cymhleth lluosog gael mynediad at ddull cyfannol, cydgysylltiedig gan y sefydliadau a'r asiantaethau sy'n ymwneud â'u gofal a'u cymorth.²⁵¹ Tynnodd sylw at yr angen am gyllid digonol i awdurdodau lleol sicrhau bod y darpariaethau yn effeithiol ac osgoi costau rhag cael eu trosglwyddo i gyrff eraill dan sylw. Dywedodd Clwyd Alyn wrthym fod angen eglurder ynghylch pa asiantaeth all gychwyn a gofyn am ymateb o dan y protocol.²⁵²

290. Tynnodd The Wallich sylw at y ffaith bod y darpariaethau wedi cael eu 'wanhau'n sylweddol' ers y dull cydlynu achosion a argymhellwyd yn y Papur Gwyn. Mae'n nodi bod y Bil yn cynnig dim ond bod yn 'rhaid i awdurdod tai lleol yng Nghymru wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhyngddo ef ei hun a'r personau hynny a grybwyllir yn isadran (1D)' ond mae'n credu bod cydlynu achosion yn rhan hanfodol o'r ateb lle mae pobl yn ymgysylltu ag asiantaethau

²⁵¹ HSHAWB 14, Cartrefi Cymunedol Cymru (Saesneg yn unig)

²⁵² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 310

lluosog, a bod risg o syrthio drwy'r bylchau os yw'r asiantaethau hynny'n methu â chyfathrebu a chefnogi yn hytrach na thanseilio ei gilydd yn anfwriadol.²⁵³

291. Roedd Comisiynydd Plant Cymru a Clinks ymhlith y rhanddeiliaid eraill a groesawodd y protocol.

292. Er bod awdurdodau lleol yn gyffredinol yn croesawu'r darpariaethau, roedd rhai yn cwestiynu beth fyddai'r canlyniadau pe bai corff cyhoeddus yn methu ag ymateb i gais i gydweithredu. Cwestiynodd Cyngor Sir y Fflint beth yw'r dulliau o ysgogi y dylem eu defnyddio pan nad yw cydweithredu'n digwydd,²⁵⁴ tra bod tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Gwynedd hefyd yn cwestiynu beth fydd y canlyniadau i asiantaethau sy'n methu â chydymffurfio²⁵⁵

293. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod pwerau eisoes yn bodoli o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a deddfwriaeth berthnasol arall i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon difrifol mewn perthynas â chydweithredu. Fodd bynnag, dywedodd mai 'ei nod yw creu diwylliant o gyfrifoldeb a rennir, ac nid gorfodi o'r brig i lawr'.²⁵⁶

Ein barn ni

294. Rydym yn nodi fod y darpariaethau i hyrwyddo cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus, gwirfoddol neu gyrff eraill yn yr ardal leol, gan gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer protocol ar gyfer dull o gydlynu achosion amlasiantaethol mewn perthynas â phobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref sydd ag anghenion cymorth lluosog a chymhleth yn cael eu croesawu'n gyffredinol gan randdeiliaid. Mae partneriaethau aml-asiantaeth cryf yn hanfodol i'r nod polisi o roi terfyn ar ddigartrefedd. Nodwn fod awdurdodau lleol eisoes yn gweithio yn y ffordd hon cymaint â phosibl, ond nid ydynt bob amser yn cael yr ymateb a ddymunir gan gyrff cyhoeddus eraill oherwydd blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd a phwysau o ran adnoddau. Rydym yn gobeithio y bydd y darpariaethau yn y Bil yn cefnogi cydweithredu, ond rydym hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o roi mwy o rym i awdurdodau lleol gryfhau'r mesurau. Rydym yn cydnabod bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud bod pwerau yn bodoli eisoes y gallid eu defnyddio i gyfarwyddo cyrrff cyhoeddus. Dylai'r canllawiau statudol nodi gweithdrefn glir ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn, os bydd eu hangen ar awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fonitro ceisiadau cydweithredu a wneir gan awdurdodau lleol

²⁵³ HSHAWB 08, The Wallich (Saesneg yn unig)

²⁵⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 33

²⁵⁵ HSHAWB 41, Cyngor Gwynedd

²⁵⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 145

i ddeall faint sy'n cael eu gwrthod neu eu hanwybyddu, er mwyn cymryd camau pellach os oes angen.

Personau a gedwir yn gaeth

295. Mae adran 26 yn diwygio adran 93 o Ddeddf 2014 i ddarparu y byddai dyletswydd i warchod eiddo yn dal i fod yn ddyledus i garcharorion os nad yw'r brif ddyletswydd tai o dan adran 75 yn ddyledus iddynt. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod hyn yn ymddangos o bosibl fel petai'n darparu gwasanaeth i bobl ychwanegol yn y carchar, y gwir yw y bydd yn cadw'r un lefel o ddarpariaeth ag a geir ar hyn o bryd."

296. Mynegodd un o gyfranogwyr y grwpiau ffocws bryder ynghylch y diffyg gwybodaeth am lety sydd ar gael ar brydiau i rywun ar ôl cael ei ryddhau o'r ddalfa:

"Everything is on the day of release as well and not set up pre-release. We obviously go into the prison to support but if they're going to be given temp accommodation they don't know that until the day they're out and they have to go to Housing Options and wait and be sent back three hours later, when it could potentially be done a day or two before."

Cyfranogwr grŵp ffocws

297. Mae adran 27 yn atgyfnerthu geiriad presennol adran 60 o Ddeddf 2014 gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaeth i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar ddigartrefedd yn cael ei ddarparu i bersonau a gedwir yn gaeth yn ardal yr awdurdod neu sydd â chysylltiad lleol â'i ardal.

298. Disgrifiodd Clinks y ddyletswydd i ddiogelu eiddo fel cam cadarnhaol iawn, gan ychwanegu'r canlynol:

"I think protecting people's property, even if they're in custody, is a human right, really, isn't it? It's a good thing within the Bill. We've heard stories of people losing personal photos because landlords have chucked them out once they've gone into custody."²⁵⁷

²⁵⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 474

299. Cododd rhai awdurdodau lleol, gan gynnwys Ceredigion,²⁵⁸ Sir Gaerfyrddin²⁵⁹ a Sir Fynwy²⁶⁰ y mater o gostau sy'n gysylltiedig â diogelu eiddo.

300. Dywedodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi wrthym fod y ddarpariaeth i ddarparu gwybodaeth a chynghor yn 'cadarnhau'r hyn sydd gennym eisoes' ac nad oedd yn rhagweld 'newid enfawr' o ganlyniad.²⁶¹

301. Cyfeiriodd Shelter Cymru at y ddarpariaeth fel 'cam i'w groesawu i sicrhau bod unigolion yn yr ystâd ddiogel yn cael cynghor ar dai'. Fodd bynnag, nododd y gallai 'amrywiadau mewn protocolau lleol gyfyngu ar berthnasedd ac ansawdd y cynghor a roddir' a galwodd am ganllawiau clir ac ymarferol i 'helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol'.²⁶²

302. Cefnogwyd y darpariaethau hefyd gan Cymorth Cymru²⁶³ a Crisis²⁶⁴.

Ein barn ni

303. Rydym yn cefnogi'n llwyr y ddarpariaeth i ddiogelu eiddo carcharor tra ei fod yn y ddalfa. Clywsom dystiolaeth am garcharorion yn colli eiddo personol, gan gynnwys eitemau â gwerth personol, ac rydym yn cydnabod y gallai'r gofid y gall hyn ei achosi effeithio ar eu hiechyd meddwl, eu hadsefydliad a'u hailgyflwyniad ar ôl cael eu rhyddhau. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol ynghylch y goblygiadau cost posibl sy'n gysylltiedig â diogelu eiddo, er ein bod yn nodi bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rhain fod yn fach iawn. Rydym yn cytuno bod y manteision o ddiogelu eiddo yn negyddu'r goblygiadau o ran cost.

304. Rydym hefyd yn cefnogi'r ddarpariaeth i ddarparu gwybodaeth, cynghor a chymorth i bobl a gedwir yn gaeth. Fel yr ydym wedi'i nodi'n flaenorol, rydym yn pryderu, er gwaethaf y darpariaethau atal yn Neddf 2014 a'r llwybr carcharorion presennol, fod pobl yn dal i adael y ddalfa yn syth i fod yn ddigartref ac rydym yn croesawu polisiâu i atal hynny rhag digwydd. Rydym yn cydnabod y bydd y costau'n disgyn ar awdurdodau lleol sy'n cynnal carchar, er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi na ragwelir unrhyw gostau ychwanegol gan fod hyn yn eglurhad o'r gyfraith bresennol.

²⁵⁸ HSHAWB 36, Cynghor Sir Ceredigion (Saesneg yn unig)

²⁵⁹ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

²⁶⁰ HSHAWB 38, Cynghor Sir Fynwy (Saesneg yn unig)

²⁶¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 462

²⁶² HSHAWB 12, Shelter Cymru (Saesneg yn unig)

²⁶³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 346

²⁶⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 467

Diffiniad o gamdriniaeth ddomestig

305. Mae adran 28 yn diwygio'r diffiniadau presennol o "camdriniaeth" a "chamdriniaeth ddomestig" o dan adran 58 o Ddeddf 2014, gan ehangu'r diffiniad o "gamdriniaeth ddomestig" yn unol â Deddf Camdriniaeth Ddomestig 2021 i gynnwys ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol a chamdriniaeth economaidd a seicolegol yn benodol. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cyfeirio at gamfanteisio o fewn ystyr Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac aflonyddu neu stelcio o fewn Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, fel enghreifftiau o fathau eraill o gamdriniaeth a allai arwain at risg o niwed, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

306. Clywsom gefnogaeth sylweddol i ehangu'r diffiniad o gamdriniaeth ddomestig, gan gynnwys gan Gymorth i Ferched Cymru a'i ddisgrifiodd fel cynnydd rhagorol.²⁶⁵ Roedd Crisis²⁶⁶, CIH Cymru²⁶⁷ a'r Dogs Trust²⁶⁸ ymhlith y rhai eraill a leisiodd gefnogaeth.

Ein barn ni

307. Rydym yn croesawu ehangu'r diffiniad o 'gamdriniaeth' a 'chamdriniaeth ddomestig' fel ei fod yn cyd-fynd â Deddf Camdriniaeth Ddomestig 2021, ac fel ei fod yn cynnwys enghreifftiau a roddir mewn deddfwriaeth arall. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth sylweddol a fynegwyd i ehangu'r diffiniad ac yn cytuno y dylai ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol a chamdriniaeth economaidd a seicolegol gael eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth tai.

Ceisio barn pobl ddigartref

308. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd wrth ddatblygu eu strategaethau digartrefedd lleol a gwasanaethau cynghori. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl sydd â phrofiad personol wrth iddi ddatblygu ac adolygu canllawiau digartrefedd, neu eu tynnu yn ôl.

309. Dywedodd The Wallich wrthym ei fod yn falch bod y Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori â phobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd, gan ddweud y canlynol:

²⁶⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 334

²⁶⁶ HSHAWB 43, Crisis (Saesneg yn unig)

²⁶⁷ HSHAWB 28, CIH Cymru (Saesneg yn unig)

²⁶⁸ HSHAWB 17, Dog's Trust (Saesneg yn unig)

“We know that the people who experience that often have the answers, and we just need to ask them, listen to them, and try and put that into practice.”²⁶⁹

Ein barn ni

310. Rydym yn falch bod y Bil yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ymgynghori â phobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd wrth ddatblygu strategaethau, gwasanaethau a chanllawiau. Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd defnyddio'r profiad hwnnw i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion pobl. Mae pryder gydag unrhyw ymgynghoriad bod yn rhaid i'r gwaith ymgysylltu fod yn ystyrlon a bod rhywun yn gwrando ar safbwyntiau pobl ac yn gweithredu arnynt. Rydym yn gwybod o'n gwaith ymgysylltu ein hunain bod sawl rhwydwaith o bobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd sy'n cael eu cefnogi gan grwpiau rhanddeiliaid sydd â phrofiad amhrisiadwy i'w rannu. Rydym yn hyderus y bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhwydweithiau sefydledig hyn i ymgysylltu â phobl mewn ffordd ystyrlon.

Cyflwr llety

311. Codwyd cyflwr llety fel pryder gan un o gyfranogwyr y grwpiau ffocws:

“Eto, o fewn y ddeddfwriaeth hon, rwy'n credu bod angen canolbwyntio cymaint ar beth yw ein huchelgais ni fel gwlad yn y safonau yr ydym yn eu cadw ar yr ansawdd bywyd sylfaenol yr ydym yn ei gynnig i'n cymdeithas. Achos, ar hyn o bryd, mae'r darpariaethau rydym yn eu darparu i bobl yn frawychus. Pe bai pobl yn gweld y darpariaethau hynny'n amlach, rwy'n credu y byddai yna helynt.”

Cyfranogwr grŵp ffocws

312. Mae adran 30 yn ceisio ehangu'r safonau cyfreithiol presennol o ran addasrwydd llety drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (cyflwr anheddau), sy'n cynnwys addasrwydd i bobl fyw ynddo, wrth benderfynu a yw llety yn addas. Mae'r darpariaethau'n wahanol i gynnig y Papur Gwyn i wahardd llety â pheryglon

²⁶⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 353

Categori 1 rhag cael ei ystyried yn addas, gan gynnwys llety a ystyrir yn anaddas i bobl fyw ynddo.

313. Nododd y Papur Gwyn y canlynol:

Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth bresennol ond yn darparu ei bod yn rhaid i awdurdod tai lleol 'ystyried' amodau a nodweddion ffisegol o'r fath, gan gynnwys presenoldeb peryglon a gorlenwi. Nid yw hyn yn gweithredu fel gwaharddiad llwyr sy'n atal lleoli unigolyn neu aelwyd mewn llety o'r fath. Mae awdurdodau tai lleol am allu cynnig llety o'r safon uchaf posibl ac mae Deddf Tai 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gymryd camau gorfodi priodol mewn perthynas â chadarnhad o bresenoldeb peryglon Categori 1."

314. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys ystod o gynigion eraill i wella safonau llety, gan fynd i'r afael â ffactorau fel gorlenwi, lleoedd cysgu a rennir, a lleoliad. Yn y Memorandwm, nodir bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (y Gorchymyn Addasrwydd) yn y dyfodol, er mwyn gwneud newidiadau i'r gofynion addasrwydd. Roedd y Panel Adolygu Arbenigol hefyd wedi argymhell y dylid diwygio'r Gorchymyn Addasrwydd, a dywedodd nad yw llety yr aseswyd ei fod yn cynnwys peryglon Categori 1 byth yn addas.

315. Mae newid pellach o ran y cyfnod o amser pan gaiff ceisydd ofyn am adolygiad o addasrwydd y cynnig llety. Yn y Papur Gwyn, cynigiwyd ymestyn y 21 diwrnod presennol i fod yn gyfnod adolygu agored. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, mae hyn wedi'i leihau yn y Bil i chwe mis.

316. Mae adran 31 yn rhoi dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi a gosod gerbron y Senedd adroddiad ar ddefnydd a chyflwr llety interim bob pum mlynedd, gan nodi y dylid gosod a chyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar 31 Rhagfyr 2030 neu cyn hynny.

317. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym nad yw Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt ac na ddylid camgymryd y darpariaethau sy'n ymwneud ag addasrwydd llety i bobl fyw ynddo a chyflwr anheddau fel rhywbeth sy'n disodli ymrwymiad y Llywodraeth yn ymwneud â gwahardd llety dros dro â pheryglon Categori 1. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"This is an addition, not a replacement. We do not need new primary legislation to make any of our proposed changes to suitability, set out in the White Paper, and I do intend to bring

those forward using our existing secondary legislation powers. I'm going to work with local authorities to deliver our suitability proposals in due course, using those existing powers, recognising that some of them are dependent on the increased housing supply and will take time to deliver.”²⁷⁰

318. Codwyd pryder gan rai rhanddeiliaid y gallai ‘rhoi sylw i’ hytrach na ‘gwahardd’ fod yn ddarpariaeth lai effeithiol. Galwodd Liz Davies CB am gryfhau geiriad y Bil i wahardd defnyddio llety dros dro â pheryglon Categori 1, yn unol â chynnig y Papur Gwyn. Dadleuodd y gallai’r geiriad fod yn debyg i’r ddarpariaeth bresennol yn y Gorchymyn Addasrwydd Llety ar gyfer llety gwely a brecwast, er mwyn caniatáu defnyddio llety o’r fath am gyfnodau byr iawn o amser os nad oes opsiynau eraill.²⁷¹

319. Mynegodd Shelter Cymru farn debyg, gan nodi nad yw’r iaith yn ddigonol o ran y cryfder angenrheidiol i ddwyn awdurdodau lleol yn gwbl atebol ac nad yw’n cyfateb i fynnu cydymffurfiaeth â Deddf 2016. Nid oedd yn sicr ynghylch sut y byddai bwriad yr Ysgrifennydd Cabinet i fynd ar drywydd newid drwy is-ddeddfwriaeth yn darparu opsiwn gwell. Nododd Shelter Cymru hefyd nad yw’r Bil yn ystyried y mater o fforddiadwyedd o fewn ei ddealltwriaeth o addasrwydd a phwysleisiodd fod llety anfforddiadwy yn llety anaddas.²⁷²

320. Gofynnodd CIH Cymru am ganllawiau i egluro sut y bydd adolygiadau addasrwydd yn gweithio’n ymarferol os gall ymgeiswyr ofyn am adolygiad hyd at chwe mis ar ôl cael eu rhyddhau. Mae Cyngor Abertawe yn anghytuno’n llwyr ag ymestyn y cyfnod i chwe mis a dadleuodd y byddai 56 diwrnod yn derfyn amser mwy derbyniol.²⁷³

321. Er bod Shelter Cymru wedi disgrifio’r gofyniad i adrodd ar ddefnydd a chyflwr llety dros dro fel cam cadarnhaol, nid oedd yn cefnogi cylch adrodd pum mlynedd, gan nodi:

“If temporary accommodation is to be truly suitable, local authorities and Welsh Government must be alerted to the use of accommodation in dangerous conditions far sooner. Delayed reporting risks prolonging harm and directly undermines the

²⁷⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 152

²⁷¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 225

²⁷² HSHAWB 12, Shelter Cymru (Saesneg yn unig)

²⁷³ HSHAWB 44, Cyngor Abertawe (Saesneg yn unig)

Bill's commitment to a person-centred, trauma-informed approach."²⁷⁴

322. Galwodd Sefydliad Bevan ar Lywodraeth Cymru i adolygu defnydd a chyflwr llety dros dro yn gynt na 2030 gan ddweud y 'cydnabyddir yn eang bod y rheoliadau yng Nghorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn cael eu torri'n eang'.

323. Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch a ellid dwyn cyhoeddiad yr adroddiad cyntaf ar ddefnydd a chyflwr llety dros dro ymlaen, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai 31 Rhagfyr 2030 yw'r dyddiad terfynol ar gyfer cwblhau ac nad yw hynny'n atal unrhyw adroddiad rhag cael ei gynnal yn gynharach. Esboniodd mai'r rhesymeg y tu ôl i'r amseriad arfaethedig yw:

*"to allow us to take the learning and align some research models, if they're useful, with the full Welsh housing survey, which is going to be undertaken in 2027-28. [] the next survey, as you will know, will be more detailed than earlier surveys, and it's going to help us gather evidence that will better support affordable housing and homelessness policies."*²⁷⁵

324. O ran Arolwg Tai Cymru, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"officials will develop a detailed tender specification, so that a procurement exercise can be commenced by the end of 2025-26, and that will enable field work to be carried out in 2027-28. And the results, then, will be available from 2028-29, so there'll be more detailed findings from 2029-30."

325. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y gallai rhywfaint o'r gwaith ddigwydd yn gynt ond bod y gwaith ehangach y cyfeiriodd ato yn darparu 'cyfleoedd dysgu posibl a fydd yn helpu i lywio'r adolygiad parhaus o lety dros dro y mae'r Bil yn darparu ar ei gyfer'.²⁷⁶

326. Aeth swyddog Llywodraeth Cymru ymlaen i ddweud, er bod data eisoes yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol ar eu defnydd o lety dros dro, y byddai'n cais newydd am ddata ganddynt, ac y bydd yn bwysig i sicrhau bod y cais yn gyson'. Dywedodd felly ei fod yn 'bwysig iawn i ni ddysgu o'r arolwg tai'.²⁷⁷

²⁷⁴ HSHAWB 12, Shelter Cymru (Saesneg yn unig)

²⁷⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 111

²⁷⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 112

²⁷⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 117

Ein barn ni

327. Rydym yn cydnabod safbwynt yr Ysgrifennydd Cabinet bod y defnydd o 'rhoi sylw i' yn y Bil yn hytrach na 'gwahardd' o ran addasrwydd llety dros dro gyda pheryglon categori 1 yn ddarpariaeth ychwanegol, ac nad yw'n ddarpariaeth sy'n disodli, a'i bod yn bwriadu defnyddio pwerau is-ddeddfwriaeth bresennol i wneud y newidiadau addasrwydd a gynigir yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi'r dystiolaeth gan sawl tyst arbenigol cyfreithiol nad oes gan eiriad y Bil y grym angenrheidiol at ddibenion her gyfreithiol.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau presennol i ddiwygio'r gofynion addasrwydd, ac i wahardd y defnydd o lety dros dro sydd â pheryglon Categori 1 ac sy'n anaddas i bobl fyw ynddo.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y newidiadau i'w gwneud i Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer is-ddeddfwriaeth o'r fath. Dylid gwneud newidiadau i wahardd llety sy'n anaddas i bobl fyw ynddo cyn gynted â phosibl, waeth beth fo'r newidiadau pellach a wneir, yr ydym yn deall eu bod wedi'u cynllunio yn seiliedig ar yr adolygiadau llety dros dro sy'n ofynnol yn ôl y Bil.

328. Gwnaethom ystyried ansawdd a'r defnydd o lety dros dro yn fanwl yn ein hadroddiad ar ddigartrefedd yn 2023. Rydym yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn dal i gael trafferth dod o hyd i ddigon o lety dros dro oherwydd y galw mawr ond rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch y defnydd parhaus o lety gwely a brecwast a gwestai fel llety dros dro. Roedd y dystiolaeth a glywsom drwy'r ymchwiliad hwnnw'n cyfeirio at anghysondebau yn ansawdd llety dros dro ledled Cymru. Clywsom un tyst yn dweud ei fod wedi gweld llety o 'safon warthus' ac o 'safon ragorol', a'u bod yn costio'r un faint i'r unigolyn a oedd yn byw yno er gwaethaf y gwahaniaeth o ran ansawdd. Dywedodd ei fod yn 'fater o lwc' o ran ansawdd ac addasrwydd lleoliadau llety dros dro. Felly, rydym yn deall pwysigrwydd casglu data ac adrodd ar ddefnydd ac ansawdd llety ac yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i wella ansawdd llety a dod â mwy o gysondeb ledled Cymru.

329. Mae'n siomedig bod y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r cyntaf o'r adroddiadau hyn mor hwyr â mis Rhagfyr 2030 gan ein bod yn gwybod bod miloedd o bobl yn byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd, ac y gallai rhai o'r llety hynny fod yn gwbl anaddas neu o ansawdd gwael. Rydym yn cydnabod yr hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet am mai hwn yw'r dyddiad terfynol ar gyfer cyhoeddi, ond teimlwn ei fod yn annhebygol y bydd yr adroddiad cyntaf ar gael llawer cynharach na'r dyddiad diweddaraf hwnnw o ystyried yr amserlen a nodwyd ar gyfer yr Arolwg Tai Cymru nesaf. Er ein bod yn deall yr angen i'r gwaith hwn gael ei wneud

yn iawn, mae'n siomedig nad yw'r adroddiad cyntaf yn debygol o gael ei gyhoeddi tan fwy na phum mlynedd ar ôl cyflwyno'r Bil hwn.

Cydweithredu

330. Mae adran 32 yn diwygio adran 95 o Ddeddf 2014, sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithredu, i osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodedig i gydweithredu â chais gan awdurdod lleol oni fyddai gwneud hynny'n anghydnaws â dyletswyddau neu swyddogaethau'r corff ei hun. Mae'r diwygiad yn ehangu'r rhestr o gyrff cyhoeddus penodedig, yn unol â'r rhestr a bennir yn adran 21, gan gynnwys cyrff yn Lloegr yn ogystal â Chymru. Mae pŵer gwneud rheoliadau wedi'i gynnwys i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr. Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi'r protocol a ddarperir yn adran 25 ac fe'i hystyrir yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

331. Mae adran 33 yn mewnosod adran newydd i Ddeddf 2014 (adran 96A), gan greu dyletswydd newydd ar landlordiaid cymdeithasol i gydymffurfio â chais gan awdurdod tai lleol i ddarparu llety addas i geisydd y mae'r brif ddyletswydd tai o dan adran 75 o'r Ddeddf honno yn ddyledus iddo. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol gydymffurfio â chais o'r fath o fewn cyfnod rhesymol oni fydd ganddo resymau da dros beidio â gwneud hynny. Mae'r adran yn diffinio 'landlord cymdeithasol' fel landlord cymdeithasol cofrestredig neu ddarparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig. Mae'r adran yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau, ac mae'n nodi bod rhaid ymgynghori ag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol wrth ddatblygu'r canllawiau hynny. Mewn achosion lle nad oes gan landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â chydymffurfio neu os nad yw'n ymateb i gais o fewn cyfnod rhesymol, mae'r adran yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru, a all gyfarwyddo'r landlord cymdeithasol i gydymffurfio â'r cais.

332. Tynnodd cyfranogwr grŵp ffocws sylw at bwysigrwydd cydweithredu wrth sicrhau bod pob asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd i atal digartrefedd:

"I've got one member, he got released in July last year... He's had two [RSL] interviews. He's still in in temp and has been for about nine months now. He's closing soon. I met with him the other day, he said everything else is going fine, the only thing he hasn't got is housing."

Cyfranogwr grŵp ffocws

333. Dywedodd yr Athro Fitzpatrick ei bod yn gefnogol iawn o ran cael dyletswydd o'r fath ar landlordiaid cymdeithasol, a'i fod yn un o'r ffyrdd pwysicaf i ni allu leddfu'r pwysau presennol ar y system llety dros dro ac ar y system ddigartrefedd yn fwy cyffredinol, gan ychwanegu:

*"We know that some housing associations do a huge amount in terms of rehousing homeless households, but we also know that the practice is extremely uneven across Wales."*²⁷⁸

334. Cyfeiriodd yr Athro Fitzpatrick at y profiad yn yr Alban lle mae darpariaeth gyfatebol ar waith, a dywedodd mai anaml iawn y bydd cymdeithas tai yn gwrthod atgyfeiriad ar gyfer aelwyd ddigartref yn yr Alban, a bod hyn yn llawer llai cyffredin nag y mae yn Lloegr, lle nad oes unrhyw ddarpariaeth o'r fath.²⁷⁹

335. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthym y dylai'r ddyletswydd fod yn ateb wrth gefn pan fydd gweithio mewn partneriaeth wedi methu, gan ychwanegu:

*"I don't think we'd want to be in a position where, as a regular way of working, local authorities are dictating to RSLs what to do. [] I think we're looking at it as a backstop, so that in those cases where partnership working has broken down it will allow that allocation to go to the homeless household, if that's the right thing."*²⁸⁰

336. At hynny, dywedodd y bydd achosion pan fydd angen i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig wrthod cais am amrywiol resymau, megis os nad yw'r math 'cywir o gartref' neu'r math 'cywir o gefnogaeth' sydd ei angen i wneud iddo weithio i rywun ar gael. Galwodd am rai newidiadau i wneud i'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth weithio'n well i bawb', yn enwedig o ran sicrhau bod gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig 'fwy o eglurder ar anghenion cymorth y tenant cyn derbyn atgyfeiriad'.²⁸¹ Galwodd am i'r ddyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol gael ei baru â 'dyletswydd gymesur ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am anghenion tai a chymorth ar gael' er mwyn galluogi'r landlord cymdeithasol i 'ffurfio barn wybodus o ran a all gydymffurfio'n rhesymol'.²⁸²

²⁷⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 143

²⁷⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 144

²⁸⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 335

²⁸¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 336 a 340

²⁸² HSHAWB 14, Cartrefi Cymunedol Cymru (Saesneg yn unig)

337. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi croesawu'r ddyletswydd, mynegodd eraill rai amheuan. Roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn disgwyl i atgyfeirio at Weinidogion Cymru ddigwydd mewn 'amgylchiadau prin iawn, iawn' ond cododd bryder ynghylch gallu awdurdod lleol i uwchgylfeirio tra'n cynnal perthynas gadarnhaol â'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig dan sylw.²⁸³ Dywedodd Cyngor Sir Penfro wrthym y byddai'n well ganddo pe bai'r Bil wedi darparu ar gyfer polisi dyrannu ar y cyd, a nododd y gallai atal rhai o'r problemau pe bai Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn gwrthod cais, gan ychwanegu:

*"We don't want the unintended consequence from the legislation to damage those relationships."*²⁸⁴

338. Mynegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gefnogaeth hefyd i bolisi dyrannu cyffredin, gan fod ei brofiad o gael polisi dyrannu cyffredin ar waith ers deng mlynedd wedi bod yn llwyddiannus 'oherwydd bod y polisi yno'. Dywedodd eich bod yn mynd at y person ar frig y rhestr a phwy sy'n gweddu orau i'r polisi.²⁸⁵

339. Roedd Cymorth Cymru yn gefnogol iawn i'r ddarpariaeth, a nododd na fydd yn effeithio ar y rhan fwyaf o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sy'n gwneud gwaith ardderchog yn y maes hwn. Er hynny, dywedodd bod angen i'r rhai nad ydynt yn dyrannu digon i'r categori digartref 'wneud mwy', gan mai nhw yw'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio ganddo. At hynny, dywedodd Cymorth fod 'dyraniadau tai cymdeithasol mewn gwirionedd yn un o'r eitemau sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar ddigartrefedd'.²⁸⁶

340. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y pŵer i awdurdodau lleol gyfeirio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig at Weinidogion Cymru yn adlewyrchu 'rôl hanfodol landlordiaid cymdeithasol wrth ddarparu tai sefydlog', a'r 'angen am feganwaith clir i ddatrys anghydfodau pan fo cydweithredu yn chwalu'.²⁸⁷

341. Mewn ymateb i'r galwad i awdurdod lleol rannu manylion anghenion cymorth ymgeisydd, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei bod wedi ystyried yr awgrym yn ofalus, ond 'nad yw'n dueddol o'i gefnogi gan nad oedd yn siŵr ei fod yn ymarferol nac yn angenrheidiol'. Cydnabu'r pwysigrwydd bod pob partner yn deall y mathau o gefnogaeth sydd eu hangen a darparu llety addas iddynt i atal y cylch ailadroddus hwnnw o ddigartrefedd, gan ychwanegu bod

²⁸³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 147-148

²⁸⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 153

²⁸⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 158

²⁸⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 374-375

²⁸⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 145

‘sawl darpariaeth yn y Bil wedi’u drafftio gyda’r nod o wella gweithio mewn partneriaeth a’r cyfnewid gwybodaeth hwnnw’.²⁸⁸

Ein barn ni

342. Mae problemau fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat yn golygu bod tai cymdeithasol yn ganolog i fynd i’r afael â digartrefedd. Mae’n siomedig nad yw’r data ar ddyraniadau yn fwy cadarn yng Nghymru, fodd bynnag, rydym yn nodi’r ymchwil a ddyfynnwyd gan Bapur Gwyn a Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru sy’n awgrymu bod nifer y dyraniadau i aelwydydd digartref yn gymharol isel, o leiaf ymhlith rhai landlordiaid cymdeithasol. Rydym yn nodi fod y darpariaethau cydweithredu wedi cael cefnogaeth eang gan randdeiliaid, a’r farn bod gan y ddarpariaeth hon y potensial i gynyddu llif trwy lety dros dro a gwneud gwahaniaeth sylweddol i lwyddiant y ddeddfwriaeth. Rydym hefyd yn croesawu bod Llywodraeth Cymru yn barod i ymyrryd lle bo angen i gefnogi cydweithredu, er ein bod yn nodi bod cynrychiolwyr awdurdodau lleol a’r rhai o’r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ill dau wedi lleisio rhybudd ynghylch defnyddio’r pwerau hyn. Rydym yn croesawu’r farn a fynegwyd gan y ddwy ochr na ddylid defnyddio’r pŵer yn aml a dim ond fel dewis olaf os bydd yr holl weithio mewn partneriaeth yn methu. Rydym yn cytuno bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn cynnal perthnasoedd effeithiol allweddol rhwng asiantaethau allweddol a dylid mynd ar ei drywydd yn hytrach na dulliau eraill.

Casgliad 11. Tudalen Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau cryf ar y defnydd o’r pŵer i atgyfeirio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Casgliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y mae’n bwriadu monitro effaith y darpariaethau o ran derbyniadau a gwrthodiadau dyraniadau.

343. Rydym yn cytuno â’r farn a fynegwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y dylent fod yn ymwybodol o anghenion cymorth tenant cyn derbyn atgyfeiriad, gan fod hyn yn ymddangos yn wybodaeth resymol i’w chael pan fyddant yn penderfynu a allant gydymffurfio â chais gan awdurdod lleol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn credu nad oes angen dyletswydd gymesur. Rydym yn credu y gellid mynd i’r afael â hyn yn llwyddiannus drwy ganllawiau gwrthod wedi’u diffinio’n fanwl, o bosibl yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth yr Alban sy’n ymdrin ag amgylchiadau lle gall landlordiaid cymdeithasol yr Alban wrthod atgyfeiriad cyfatebol (‘atgyfeiriad Adran 5’).

²⁸⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 183-184

Argymhelliad 18. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau atgyfeiriadau wedi'u diffinio'n fanwl sy'n nodi'r amgylchiadau y gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrthod atgyfeiriad, ac sydd hefyd yn gwneud amod o rannu gwybodaeth yn effeithiol am unrhyw anghenion cymorth a allai fod gan yr ceisydd.

Casgliad 13. Credwn, ar ôl iddynt gael eu gweithredu, y bydd angen monitro'r darpariaethau sy'n ymwneud â chydweithredu rhwng awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ofalus i asesu sut maent yn gweithio'n ymarferol.

Gweld llety

344. Mae adran 34 yn creu dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gymryd "camau rhesymol" i ddarparu i'r ceisydd gyfle i weld llety sy'n cael ei gynnig, "pa un ai'n bersonol neu fel arall)", cyn y gall yr awdurdod lleol ddod â'i ddyletswydd digartrefedd i ben ar y sail bod y ceisydd wedi gwrthod cynnig addas. Y bwriad yw sicrhau bod unrhyw unigolyn sydd wedi'i analluogi ac nad yw'n gallu gweld y llety ei hun, er enghraifft os yw yn y carchar neu yn yr ysbyty, yn gallu gweld yr eiddo a gynnigir.

Ein barn ni

345. Rydym yn nodi'r ddarpariaeth ac yn credu ei bod yn rhesymol.

4. Rhan 2: Dyrannu tai cymdeithasol

Mae'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil yn ymwneud â dyrannu tai cymdeithasol.

Personau cymhwysol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol

346. Mae adran 35 yn rhoi i awdurdodau tai lleol y disgrisiwn i benderfynu pa ddosbarthiadau o bobl sy'n 'bersonau cymhwysol' neu nad ydynt yn bersonau cymhwysol i gael tai cymdeithasol yn eu hardal, ar yr amod nad ydynt mewn grŵp sy'n anghymwys o gael dyraniad. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn esbonio y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'r pŵer yn ôl disgrisiwn i:

"ddewis cymhwyso meini prawf cymhwystra mwy caeth i benderfynu ar bersonau cymhwysol ar gyfer tai cymdeithasol pan fydd y galw am dai cymdeithasol yn fwy na'r cyflenwad, ac yna lacio'r meini prawf pan fydd y galw wedi mynd yn llai."

347. Nod y ddarpariaeth yw rheoli ffigurau rhestrau aros a'i gwneud yn haws i'r bobl â'r angen mwyaf gael tai. Mae'r adran hefyd yn creu pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi dosbarthiadau o bobl sydd i'w trin neu nad ydynt i'w trin fel personau cymhwysol y mae ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt wrth ddyrannu tai cymdeithasol.

348. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet y rhesymeg dros y ddarpariaeth, gan ddweud y dylai awdurdodau lleol gael yr hyblygrwydd i deilwra'r meini prawf cymhwyster hynny fel sy'n angenrheidiol gan eu bod yn deall anghenion a phwysau penodol eu hardal. Ychwanegodd fel a ganlyn:

*"with increasing demand for social housing, we've got to ensure that that housing is allocated to those in greatest need."*²⁸⁹

349. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y pŵer yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, gyda mesurau diogelu a fydd yn lliniaru'r potensial ar gyfer canlyniadau anfwriadol.²⁹⁰

350. Er bod Cartrefi Cymunedol Cymru yn deall y rhesymeg dros gynnwys y ddarpariaeth yn y Bil, roeddent yn parhau i bryderu bod risg wrth fabwysiadu'r

²⁸⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 159

²⁹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 161

dull hwn y gallai arwain at ganfyddiadau negyddol o dai cymdeithasol a chyfrannu at y stigma presennol a all fod ynghlwm wrth fyw mewn tai cymdeithasol. Fe wnaethant alw am ganllawiau i sicrhau bod y dull a ddefnyddir yn gymharol gyson ac nad yw materion ynghylch canfyddiad a stigma yn gwaethygu a gwnaethant alw ar i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod yn rhan o drafodaethau a phenderfyniadau ar yr hyn a ddylai gael ei gynnwys fel meini prawf cymhwyso.²⁹¹

351. Dywedodd Shelter Cymru fod ganddynt rai pryderon ynghylch y ddarpariaeth i awdurdodau lleol benderfynu pwy yw'r bobl sy'n gymwys i fynd ar y rhestr aros. Er na fyddai hyn yn eithrio unrhyw ymgeisydd mewn categori blaenoriaeth resymol, barn Shelter Cymru oedd y gallai hyn arwain at gael 22 o bolisiâu gwahanol a diffyg eglurder.²⁹² Adleisiodd Crisis y pryderon hyn, gan nodi nad oedd y darpariaethau wedi cael gormod o gefnogaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roeddent yn ffafrio dileu'r ddarpariaeth, ond pwysleisiodd:

*"if it does remain, then making sure that that works effectively is going to be really crucial to make sure that it doesn't unfairly discriminate against people, or jar with other parts of the Bill."*²⁹³

352. Dywedodd Sefydliad Bevan nad oedd darparu gwasanaeth digartrefedd cyffredinol yn gyson â nodau'r Bil ac y gallai hynny arwain at golli cyfleoedd i atal yn gynnar iawn.

353. Cyfeiriodd Liz Davies CB at nifer o achosion ymgyfreitha yn dilyn cyflwyno darpariaeth debyg yn Lloegr yn 2012 a chroesawodd fod y Bil wedi'i eirio mewn ffordd sy'n dysgu gwersi o'r profiad hwnnw.²⁹⁴ Roedd Crash Wigley o'r farn y byddai heriau cyfreithiol os na chaiff y pŵer ei ddefnyddio'n gyfreithlon ac awgrymodd y byddai angen canllawiau gofalus i sicrhau nad yw'r ddarpariaeth yn y Bil hwn yn arwain at wahaniaethu anuniongyrchol.²⁹⁵

354. Lleisiodd sawl rhanddeiliad bryder y gallai rhai grwpiau brofi gwahaniaethu fel canlyniad anfwriadol o'r ddarpariaeth. Nododd EYST:

"it is essential that equality considerations are at the very heart of these schemes. Our experience with clients shows that

²⁹¹ HSHAWB 14, Cartrefi Cymunedol Cymru (Saesneg yn unig)

²⁹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 246

²⁹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 501

²⁹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion paragraffau 248-249

²⁹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 251

*current housing allocation systems sometimes unfairly disadvantage ethnic minority applicants which happens in different ways like through indirect discrimination in "local area connection" rules, language barriers that make the application process confusing, or unclear systems for how people are grouped and prioritised."*²⁹⁶

355. Hefyd, codwyd pryder ynghylch y potensial am wahaniaethu gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru²⁹⁷ a Chyfiawnder Tai Cymru²⁹⁸. Galwodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am ailystyried y ddarpariaeth gan ei bod yn darparu drws agored i weinyddiaethau yn y dyfodol, o wahanol argyhoeddiadau gwleidyddol, nid yn unig i gynnwys grwpiau o bobl fel rhai cymwys ond hefyd i gael gwared arnynt.²⁹⁹

356. Mae'r adran hefyd yn diwygio adran 160A(7) o Ddeddf 1996, sy'n galluogi awdurdod tai lleol i anghymhwyso person rhag cael dyraniad os bydd y person hwnnw, neu aelod o'i aelwyd, wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigon difrifol i'w wneud yn anaddas fel tenant. Mae'r diwygiad yn ceisio gwneud y safbwynt cyfreithiol presennol yn gliriach, sef bod rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad hwnnw yn digwydd eto, ac felly, os yw'r person wedi cymryd camau i newid ei ymddygiad, na fydd ei hanes blaenorol yn parhau i effeithio ar ei sefydlogrwydd o ran tai.

357. Cododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bryderon hefyd, gan gwestiynu'r math o ffactorau ac amgylchiadau y dylid eu hystyried a'r pwysau a roddir ar swyddog tai wrth asesu a yw person yn debygol o ymddwyn yn annerbyniol, gan gynnwys cam-drin domestig, eto. Nododd Wrecsam hefyd fod y ddarpariaeth hon yn gwrth-ddweud dileu'r prawf bwriadoldeb, gan ddatgan:

*"An applicant could be disqualified for an allocation of social housing as a result of their behaviour but be given a homeless duty. In practice, this means that some households could spend significant periods of time in temporary accommodation."*³⁰⁰

Ein barn ni

358. Rydym yn bryderus iawn bod diwygiadau'r Bil i ddyraniadau tai cymdeithasol yn digwydd heb ddata cadarn. Nid yn unig y mae hyn o bosibl yn gwanhau'r

²⁹⁶ HSHAWB 40, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (Saesneg yn unig)

²⁹⁷ HSHAWB 03, Cyngor Ffoaduriaid Cymru (Saesneg yn unig)

²⁹⁸ HSHAWB 42, Housing Justice Cymru (Saesneg yn unig)

²⁹⁹ HSHAWB 27, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Saesneg yn unig)

³⁰⁰ HSHAWB 27, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Saesneg yn unig)

achos dros y diwygiadau hynny, ond bydd hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach deall beth fydd effeithiau unrhyw ddiwygio. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau adroddiad ymchwil ar ddyraniadau, ac mae'r ddau ohonynt yn cyflwyno darlun rhannol o'r data. Nid yw'r Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a ddatblygwyd yn ddiweddar chwaith yn cynnwys data boddhaol ynghylch pwy sy'n aros am dai cymdeithasol a phwy sy'n cael cynnig tai cymdeithasol. Rhaid gwella hyn. Dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data ar aelwydydd ar restrau aros tai cymdeithasol ac aelwydydd y mae tai cymdeithasol wedi'u dyrannu iddynt, gan gynnwys aelwydydd y gwrthodir dyraniad iddynt.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu safon gyffredin genedlaethol ar gyfer data ar restrau aros a dyraniadau tai cymdeithasol, gan gyhoeddi data cadarn ar lefel leol a chenedlaethol.

359. Nid ydym yn deall y rhesymeg dros roi pŵer disgrisiynol i awdurdodau tai lleol i benderfynu ar gategoriau o bobl sy'n gymwys i gael eu dyrannu i dai cymdeithasol ac rydym yn amheus ynghylch ei gynnwys yn y Bil. Rydym yn sylweddoli bod rhestrau aros yn hir iawn ar hyn o bryd ac nad yw'n debygol y bydd llawer o'r bobl ar y rhestrau hynny yn cael cartref cymdeithasol am flynyddoedd lawer os nad oes ganddynt lefel frys o ran angen cartref. Fodd bynnag, rydym yn bryderus iawn y bydd darparu'r pŵer disgrisiynol hwn yn ein symud i ffwrdd o'r syniad cyffredinol y gall unrhyw un wneud cais am dai cymdeithasol.

360. Er efallai nad oes gan rai ymgeiswyr fawr o obaith o gael cartref am flynyddoedd lawer, rydym yn pryderu bod y ddarpariaeth hon yn dileu'r 'ffactor gobaith' a allai roi ymdeimlad o bositifrwydd i rai pobl am y posibilrwydd o ddyraniad yn y dyfodol. Rydym hefyd yn teimlo, er bod hon yn ddarpariaeth a wnaed mewn ymateb i'r lefelau galw presennol, na fydd y pwysau hynny bob amser yn ffactor yn y dyfodol.

361. Rydym yn cytuno â'r pryderon a leisiwyd gan rai rhanddeiliaid y gallai arwain at arferion anghyson ledled Cymru. Rydym yn sylweddoli bod awdurdodau lleol i gyd yn wynebu pwysau gwahanol a bod amgylchiadau'n amrywio ar draws ardaloedd, felly er ein bod yn cefnogi'r angen am hyblygrwydd rydym yn pryderu y gallai 22 dull gwahanol arwain at anghysondebau sylweddol.

362. Pryder arall sydd gennym yw'r posibilrwydd o wahaniaethu posibl fel canlyniad anfwriadol i'r ddarpariaeth. Er ein bod yn sylweddoli ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol lynu wrth ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac yn ymddiried na fyddai'r pŵer disgrisiynol hwn yn cael ei ddefnyddio i wahaniaethu yn erbyn pobl,

rydym yn ymwybodol o'r dystiolaeth a gyflwynwyd a rhaid inni gydnabod y pryderon hyn.

363. Nid ydym yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno achos dros gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil ac ar hyn o bryd nid ydym yn gallu cefnogi eu cynnwys. Rydym hefyd yn teimlo bod creu meini prawf ar gyfer personau cymwys yn mynd yn groes i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno ei hachos dros gynnwys y ddarpariaeth i greu meini prawf ar gyfer personau cymhwysol yn y Bil, ac oni bai y gall wneud hynny, dylid dileu'r ddarpariaeth.

364. Pe bai Llywodraeth Cymru yn gwneud achos dros gadw'r meini prawf personau cymhwysol yn y Bil, rydym yn cytuno â'r awgrym y dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod yn rhan o drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch beth ddylai fod yn 'feini prawf cymhwyso'. At hynny, rydym wedi dod i'r casgliadau a ganlyn y dylai Llywodraeth Cymru weithredu arnynt os bydd y meini prawf personau cymhwysol yn cael eu cadw:

Casgliad 14. Bydd angen canllawiau clir ar weithredu'r pŵer yn adran 35 i bennu categorïau o bobl sy'n gymwys ar gyfer tai cymdeithasol. Er bydd awdurdodau lleol angen hyblygrwydd i ddefnyddio'r pŵer i ddiwallu eu hanghenion lleol, dylid osgoi gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru er mwyn atal loteri cod post. Dylai'r canllawiau hefyd fod yn glir y dylid glynu wrth ddeddfwriaeth cydraddoldeb wrth benderfynu ar feini prawf cymhwyso. Dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod yn rhan o drafodaethau a phenderfyniadau ynghylch beth ddylai fod yn 'feini prawf cymhwyso'.

Casgliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer personau cymhwysol a'i dileu yn y dyfodol os nad oes ei hangen mwyach neu os yw'n achosi canlyniadau sylweddol anfwriadol.

365. Fel y nodwyd gennym yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn cytuno y dylai awdurdodau lleol gael offer priodol i ymateb i ymddygiad annerbyniol gan denantiaid, fodd bynnag rydym yn pryderu nad yw anghymhwyso rhywun rhag dyraniad tai cymdeithasol yn cynnig ateb cynaliadwy. Os yw person wedi'i anghymhwyso rhag cael cartref cymdeithasol ond bod dyletswydd ar gyfer cymorth digartrefedd yn ddyledus iddo, bydd yn cael ei roi mewn llety dros dro nes bod cartref hirdymor yn cael ei ganfod, gyda'r unig opsiwn yn y sector rhentu preifat. O ystyried y diffyg tai fforddiadwy sydd ar gael yn y sector rhentu preifat, fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2024, rydym yn teimlo ei bod yn annhebygol y bydd rhywun sydd wedi'i anghymhwyso am ymddygiad annerbyniol yn cael

cynnig tenantiaeth breifat, a thrwy hynny'n arwain at arhosiad hir mewn llety dros dro a digartrefedd mynych o bosibl os na chaiff anghenion cymorth yr unigolyn eu datrys.

366. Yn yr un modd â'r ddarpariaeth i roi terfyn ar ddyletswydd i ddarparu cymorth digartrefedd ar gyfer ymddygiad annerbyniol, credwn y dylid rhoi opsiynau ar gyfer darparu cymorth pellach ar waith cyn cymryd camau i anghymhwyso rhywun. Bydd angen canllawiau cryf ar awdurdodau lleol.

Casgliad 16. Nid yw anghymhwyso o ddyraniad tai cymdeithasol yn darparu ateb cynaliadwy i fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol a dylid darparu cymorth pellach cyn cymryd camau o'r fath. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau cryf sy'n seiliedig ar drawma i sicrhau mai dim ond mewn achosion eithafol y defnyddir gwaharddiad o dai cymdeithasol.

Ffafiaeth i bersonau mewn cynlluniau dyrannu

Manipiwleiddio bwriadol

367. Mae adran 36 yn mewnosod adran newydd 167A yn Neddf 1996 er mwyn cyflwyno prawf 'manipiwleiddio bwriadol' newydd a fydd yn gymwys pan fydd awdurdodau lleol yn canfod bod ceisydd wedi ceisio manipiwleiddio'r system ddigartrefedd yn fwriadol er mwyn cael mantais wrth wneud cais am dai cymdeithasol. Ni fyddai'r prawf yn effeithio ar fynediad at gymorth digartrefedd statudol ond byddai'n golygu na roddir unrhyw ffafiaeth i'r ceisydd ar gyfer dyraniad tai cymdeithasol. Bwriad hyn yw efelychu effaith anghymhellol y prawf bwriadoldeb, fodd bynnag, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'n disodli hynny.

368. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y bydd y prawf yn gwneud yr hyn a ganlyn:

*"ensure that resources are directed at those most in need and send a clear message that homelessness is not a route into social housing."*³⁰¹

369. Mae CLILC o'r farn nad yw'r prawf manipiwleiddio bwriadol yn rhywbeth effeithiol i ddisodli'r prawf bwriadoldeb gan y byddai'n cael ei gymhwyso yn ystod y cyfnod dyrannu a chredant y bydd hynny'n arwain at y posibilrwydd anfodddhaol a drud y bydd ymgeisydd yn aros mewn llety dros dro am gyfnod estynedig o

³⁰¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 74

amser heb unrhyw obaith o allu cael mynediad at dai cymdeithasol.³⁰² Mynegwyd y farn hon hefyd gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Caerdydd a Chyngor Dinas Casnewydd.³⁰³

370. Esboniodd CLILC os nad yw ymgeisydd yn gymwys ar gyfer tai cymdeithasol, un o'r unig opsiynau ar gyfer ei symud ymlaen fyddai'r Sector Rhentu Preifat. Dywedodd hefyd, gyda chyfraddau isel y Lwfans Tai Lleol ar hyn o bryd a rhenti uchel iawn, nad yw hwn yn opsiwn fforddiadwy i lawer o ymgeiswyr.³⁰⁴ Adleisiodd cynghorau Caerdydd a Chasnewydd y pryder hwn, gyda Chasnewydd yn nodi:

*"If the private rented sector, for example, is the only tenure you're going to be able to access because you've deliberately manipulated the system, then people are stuck, and the reality of life in temporary accommodation is that it's incredibly difficult for people. Rents can often be high because of the short-term nature of the accommodation. People can need to move at short notice, and people can often be sharing facilities, and that can have an impact on lots of different areas of someone's life. So, I think there's a real risk that there's an unintended consequence that the experience of homelessness almost becomes a little bit more traumatic because of that."*³⁰⁵

371. Codwyd pryderon tebyg ynghylch ymestyn yr amser a dreulir mewn llety dros dro gan awdurdodau lleol eraill gan gynnwys Sir Fynwy,³⁰⁶ Castell-nedd Port Talbot,³⁰⁷ Conwy³⁰⁸ a Sir Gaerfyrddin³⁰⁹.

372. Galwodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam am eglurhad o ran y cyfnod disgwylidig o amser y gallai sancsiwn o'r fath bara.³¹⁰

373. Galwodd CLILC am gael gwared ar y prawf manipiwleiddio bwriadol o'r Bil ac am gadw'r prawf bwriadoldeb.³¹¹

374. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru a chynrychiolwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrthym y bydd angen canllawiau clir i nodi pryd y

³⁰² HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

³⁰³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 45, 51 a 69

³⁰⁴ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

³⁰⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 70

³⁰⁶ HSHAWB 38, Cyngor Sir Fynwy (Saesneg yn unig)

³⁰⁷ HSHAWB 16, Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot (Saesneg yn unig)

³⁰⁸ HSHAWB 37, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Saesneg yn unig)

³⁰⁹ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

³¹⁰ HSHAWB 27, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam (Saesneg yn unig)

³¹¹ HSHAWB 52, CLILC (Saesneg yn unig)

byddai'r prawf yn berthnasol o fewn y broses ddyrannu. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru:

*"you need to know when that test is going to be performed. You don't want to get to the point of allocating someone a home and get them to sign a contract before somebody thinks to perform it."*³¹²

375. Mynegodd rhai tystion bryder bod manipiwleiddio bwriadol yn parhau i fod yn rhy debyg i fwriadoldeb a gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol o gosbi ymgeiswyr er enghraifft am fod â phroblemau cyfathrebu neu bartner sy'n eu cam-drin. Cododd Crash Wigley bryder penodol nad yw'r ddarpariaethau yn adran newydd 167A(2)(b)(ii), fel y'u drafftwyd, yn glir bod angen i berson fod wedi fwneud neu beidio â gwneud rhywbeth gyda'r bwriad o fanipiwleiddio'r system yn fwriadol.³¹³ Pwysleisiodd Cymorth i Ferched Cymru, os oedd rhywun wedi cael ei ganfod yn manipiwleiddio'r system oherwydd yr amgylchiadau y maent wedi canfod eu hunain ynddynt, na ddylai'r canfyddiad hwnnw wedyn eu dilyn pan fyddant yn dod i gysylltiad yn y dyfodol â maes tai a digartrefedd.³¹⁴ Codwyd hyn hefyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl³¹⁵ a'r Athro Dave Cowan a ddyfynnodd dair enghraifft yr oedd o'r farn y byddent yn dod o dan y ddarpariaeth.³¹⁶

376. Gwnaeth tystion gan gynnwys Shelter Cymru,³¹⁷ Cymorth Cymru,³¹⁸ Wallich,³¹⁹ a Crisis³²⁰ gydnabod, er y byddai'n well ganddynt beidio â chael y ddarpariaeth yn y Bil, bod ei chynnwys yn bwysig i randdeiliaid eraill, yn enwedig awdurdodau lleol.

377. Galwodd Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl am ganllawiau cadarn i sicrhau nad yw tenantiaid yn cael eu dal gan fanipiwleiddio bwriadol os ydynt yn cadw rhent yn ôl yn ddi-dwyll o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 oherwydd y gred nad yw'r eiddo'n addas i bobl fyw ynddo. Fe wnaethant hefyd alw am ganllawiau i sicrhau bod tenantiaid a landlordiaid yn cael eu hannog i gydweithio i ddod o hyd i ganlyniad synhwyrol, ac i sicrhau nad yw'r prawf

³¹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 253

³¹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 177-178

³¹⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 300

³¹⁵ HSHAWB 19, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl (Saesneg yn unig)

³¹⁶ HSHAWB 21, Dave Cowan (Saesneg yn unig)

³¹⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 180

³¹⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 288

³¹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 290

³²⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 414

manipiwleiddio bwriadol yn cael ei gymhwyso'n eang i hawliadau meddiant yng Nghymru.³²¹

Ein barn ni

378. Rydym yn cydnabod mai ychydig iawn o gefnogaeth a fynegwyd gan randdeiliaid i'r prawf manipiwleiddio bwriadol. Ar y naill law, roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu bod y prawf yn rhy debyg i'r prawf bwriadoldeb, tra bod awdurdodau lleol yn galw am gael gwared ar fanipiwleiddio bwriadol o'r Bil a chadw'r prawf bwriadoldeb. Ar ôl ystyried y gwahanol safbwyntiau, ac i gydnabod bod angen i awdurdodau lleol allu delio â'r nifer fach o bobl a allai geisio manipiwleiddio'r system, rydym yn derbyn y rhesymeg dros y ddarpariaeth hon.

379. Rydym yn gwerthfawrogi barn awdurdodau lleol bod y prawf bwriadoldeb presennol yn gam cryfach er mwyn atal, fodd bynnag, byddai'r prawf hwn dim ond yn golygu nad oes gan ymgeisydd ddewis ar gyfer dyraniad tai cymdeithasol ac na fyddai'n effeithio ar fynediad at ddigartrefedd statudol, felly dylai ddarparu ateb nad yw'n arwain at ddigartrefedd. Rydym yn cydnabod bod colli dewis yn debygol o arwain at dreulio mwy o amser mewn llety dros dro.

380. Fel y dywedom yng nghasgliad 3, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru helpu pob awdurdod lleol i baratoi ar gyfer gweithredu drwy fabwysiadu arfer da presennol i osgoi'r defnydd ffurfiol o fwriadoldeb. Credwn y bydd gwaith paratoi o'r fath yn helpu i osgoi'r canlyniad anfwriadol y bydd nifer fawr o aelwydydd yn sownd mewn llety dros dro yn y tymor hir os canfyddir yn ffurfiol eu bod wedi manipiwleiddio'r system yn fwriadol.

381. Bydd yn bwysig sicrhau y bydd y prawf yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n ymwybodol o drawma a bydd angen canllawiau cryf ar awdurdodau lleol ar hyn. Rydym yn ailadrodd ein barn mai dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio'r prawf pan nad yw pob dull arall wedi bod yn effeithiol. Bydd angen yr offer eraill hynny ar awdurdodau lleol, yn enwedig wrth ddelio â phobl ag anghenion cymhleth, a bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o achosion lle gall rhywun ymddangos fel pe bai'n manipiwleiddio'r system, ond eu bod yn gwneud hynny heb unrhyw fai arnynt eu hunain.

382. Rydym yn ymwybodol, ar hyn o bryd, mewn perthynas â'r prawf bwriadoldeb, wrth benderfynu ar hawl ymgeisydd i rai dyletswyddau, os daw'n amlwg i awdurdod lleol y gellid canfod bod yr ymgeisydd yn ddigartref yn fwriadol, argymhellir bod yr awdurdod yn hysbysu'r person yn ysgrifenedig eu bod yn

³²¹ HSHAWB 19, Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl (Saesneg yn unig)

ystyried canfod eu bod yn ddigartref yn fwriadol. Rydym yn cydnabod bod y llythyrau ‘amodol’ hyn yn ddull meddalach o godi ymwybyddiaeth ymgeisydd o’r canlyniad posibl os byddant yn ymgymryd â chymau penodol ac yn rhoi cyfle i atal hynny rhag digwydd. Credwn fod rhinwedd mewn archwilio a ellid mabwysiadu dull tebyg yn y dyfodol pan fydd awdurdodau lleol yn ystyried manipiwleiddio bwriadol.

Argymhelliad 21. Gan y bydd angen diweddaru’r Cod Canllawiau i adlewyrchu’r newidiadau sy’n cael eu gwneud gan y ddeddfwriaeth hon, dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio’r Canllawiau i nodi y gall awdurdod lleol ysgrifennu at ymgeisydd, gan nodi eu bod yn ystyried canfod eu bod yn fwriadol yn manipiwleiddio’r system dai, yn yr un modd ag y mae’r Cod Canllawiau yn darparu pwerau o’r fath yng nghyd-destun bwriadoldeb.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru fynd i’r afael â phryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl sy’n codi o ganlyniad i adran newydd 167A(2)(b)(ii) o Ddeddf Tai 1996. Tynnodd tystiolaeth a ddarparwyd gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol sylw at sut y gallai’r prawf manipiwleiddio bwriadol effeithio’n negyddol ar bobl nad ydynt efallai’n bwriadu manipiwleiddio’r system dai, ond y gellir ystyried eu bod wedi gwneud hynny o ystyried y ffordd y mae’r Bil wedi’i ddrafftio.

Ffafiaeth i bobl ifanc sy’n gadael y system ofal

383. Mae adran 37 yn diwygio Deddf 1996 i greu chweched categori ffafiaeth resymol o ran dyraniadau tai cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc sy’n gadael gofal, yn unol ag adran 23. Y nod yw sicrhau na ddylid defnyddio’r system ddigartrefedd fel y llwybr arferol o ofal i fyw’n annibynnol. Fel gyda’r darpariaethau yn adran 23, bydd y darpariaethau’n gymwys yn unol â’r categorïau o bobl ifanc a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

384. Croesawyd y darpariaethau mewn egwyddor gan NYAS ond gwnaethant godi pryder y bydd y ddyletswydd yn berthnasol i’r rhai sy’n gadael y system ofal hyd at 21 oed yn unig. Gwnaethant alw am welliannau i wneud yn siŵr bod y ddyletswyddau o fewn adran 37 yn berthnasol i bob person sy’n gadael y system ofal hyd at 25 oed, waeth beth fo’u statws addysg neu hyfforddiant.³²²

385. Croesawodd Gweithredu dros Blant hefyd y flaenoriaeth i’r rhai sy’n gadael y system ofal ond nododd bryderon y bydd cyflawni’r bwriadau hyn yn gymhleth

³²² HSHAWB 05, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (Saesneg yn unig)

oherwydd stoc tai cyfyngedig, yn enwedig o ran y newid o ofal preswyl i fyw'n annibynnol.³²³

386. Cyfeiriodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf at y ddarpariaeth fel elfen gadarnhaol iawn o'r Bil, ond gofynnodd a yw'n mynd yn ddigon pell, gan nodi y byddai'r rhai sy'n gadael gofal yn dal i gystadlu â phobl eraill o fewn rhai o'r bandiau uwch.³²⁴

387. Cwestiynodd Cyngor Caerdydd a yw'r categori blaenoriaeth resymol newydd yn ddall i gysylltiad lleol, a chododd bryderon y gallai hyn arwain at nifer uchel o bobl sy'n gadael y system ofal yn mynd ar y rhestr aros yng Nghaerdydd ac yn cael blaenoriaeth uchel.³²⁵ Galwodd Cyngor Sir Penfro am ddigon o lety â chymorth i bobl 16 a 17 oed.³²⁶

388. Croesawyd y darpariaethau gan Gomisiynydd Plant Cymru,³²⁷ Crisis,³²⁸ Cymorth Cymru³²⁹ a'r Wallich³³⁰. Nododd The Wallich:

*"We strongly support the reasonable preference category for young people leaving care, as this will be a powerful safeguard against homelessness for care leavers."*³³¹

Ein barn ni

389. Rydym yn croesawu'n gryf creu chweched categori 'ffafriaeth resymol' mewn dyraniadau tai cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael y system ofal ac yn nodi bod hyn yn unol ag argymhellion a wnaed gan y Panel Adolygu Arbenigol a Phwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Senedd yn ei ymateb i'r Papur Gwyn. Fel rydym wedi'i ddweud o'r blaen, rydym yn teimlo'n gryf na ddylai unrhyw berson ifanc sy'n gadael y system gofal ddod yn ddigartref ac mae creu categori blaenoriaeth resymol ar gyfer y grŵp hwn yn ei gwneud yn glir eu bod yn flaenoriaeth uchel.

390. Er ein bod yn croesawu'r ddarpariaeth, mae gennym bryderon o hyd, yn yr un modd â'r darpariaethau eraill sy'n ymwneud â'r rhai sy'n gadael y system ofal, y bydd dim ond yn berthnasol yn gyffredinol i bobl hyd at 21 oed a dim ond i bobl rhwng 21 a 25 oed os ydynt yn dilyn neu yn dymuno dilyn rhaglen addysg neu

³²³ HSHAWB 34, Gweithredu dros Blant (Saesneg yn unig)

³²⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 161

³²⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 163

³²⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 166

³²⁷ HSHWAB 32, Comisiynydd Plant Cymru

³²⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 500

³²⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 341

³³⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 343

³³¹ HSHAWB 08, The Wallich (Saesneg yn unig)

hyfforddiant. Rydym yn ailadrodd ein barn y dylai cymorth o'r fath fod ar gael i bob person sy'n gadael y system ofal hyd at 25 oed waeth beth fo'u statws addysgol.

391. Fel yr ydym wedi'i ddatgan yn argymhelliad 15, dylai Llywodraeth Cymru asesu'r achos dros ymestyn darpariaethau sydd wedi'u hanelu at y rhai sy'n gadael y system ofal yn y dyfodol, fel eu bod yn berthnasol i bawb hyd at 25 oed, nid dim ond y rhai mewn addysg neu hyfforddiant, gan gynnwys y ffafriaeth resymol ar gyfer dyraniad tai cymdeithasol.

Grwpiau eraill

392. Gwnaethom hefyd ystyried a ddylid rhoi blaenoriaeth i grwpiau eraill o bobl o fewn dyraniadau tai cymdeithasol.

393. Mynegwyd barn gymysg ar y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â chynnig y Papur Gwyn o ddyfarnu 'ffafriaeth ychwanegol' i aelwydydd digartref. Gwnaeth rhai tystion gan gynnwys Crisis³³² a Cymorth³³³ fynegi siom, tra dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru eu bod yn cytuno â'r cynnig hwn yn cael ei ollwng³³⁴. Galwodd Cyngor Gwynedd am fecanwaith i roi mwy o flaenoriaeth statudol i aelwydydd sy'n byw mewn llety dros dro neu lety argyfwng.³³⁵

394. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym nad oedd y cynnig wedi'i gynnwys yn y Bil gan fod llawer o randdeiliaid wedi gwneud achos cryf iawn yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch pam y gallai rhoi blaenoriaeth ychwanegol i'r rhai y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt gael canlyniadau anfwriadol a gyrru cymhellion gwyrddoedig i'r system, a dywedodd bod pob awdurdod lleol wedi rhybuddio yn erbyn hyn. Ychwanegodd fel a ganlyn:

*"I think awarding additional preference to those in temporary accommodation could lead to the adverse effect of funnelling people into temporary accommodation who don't need to be there, in order to increase their priority for social housing. It also would negatively impact prevention efforts, and also the use of more effective short-term accommodation, such as staying with a family or friends for a short period of time."*³³⁶

³³² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 501

³³³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 376

³³⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 352

³³⁵ HSHAWB 41, Cyngor Gwynedd

³³⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 190-191

395. Gwnaethom hefyd ystyried y potensial ar gyfer esemptio cyn-filwyr o'r prawf cysylltiad lleol ar gyfer dyraniadau tai cymdeithasol. Rhannodd Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru bryderon nad yw'r Bil yn darparu esemptiad rhag y prawf cysylltiad lleol i gyn-filwyr a'u teuluoedd yng Nghymru. Nododd y Comisiynydd fod y methiant i ddarparu eithriad cysylltiad lleol i gyn-filwyr digartref yng Nghymru yn eu rhoi dan anfantais amlwg o'i gymharu â chyn-filwyr yn Lloegr a dywedodd ei fod yn mynd yn groes i ysbryd Cyfamod y Lluoedd Arfog.³³⁷

396. Gwnaethom drafod hyn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet a esboniodd:

"In England, veterans are no longer required to have a local connection to qualify for social housing. Prior to December 2024, this exemption did not apply to veterans who had served more than five years. [] This restriction has now been removed, but no changes have taken place in relation to the homelessness local connection test in England

It's important to recognise that in Wales, anyone can register for social housing in any area. We have the power to remove the local requirement for veterans for social housing allocations in Wales, as they have done in England, and so we do not need this Bill to do that."

397. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynlluniau i gyflwyno'r newid hwn drwy is-ddeddfwriaeth a dywedodd, yn amodol ar amserlen y Senedd, y bydd hyn yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r Bil hwn.³³⁸

Ein barn ni

398. Rydym yn derbyn rhesymeg yr Ysgrifennydd Cabinet yn erbyn bwrw ymlaen â'r cynnig ar gyfer categori 'ffafriaeth ychwanegol' ar gyfer aelwydydd digartref o ystyried y canlyniadau anfwriadol posibl. Rydym yn cytuno bod y grŵp hwn eisoes yn dod o fewn meini prawf blaenoriaeth eraill ac felly fe'u dosbarthir fel blaenoriaeth ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol.

399. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ochr yn ochr â'r Bil, i eithrio pob cyn-filwr o'r prawf cysylltiad lleol

³³⁷ HSHAWB 31, Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru (Saesneg yn unig)

³³⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 4 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 87-88

ar gyfer dyraniadau tai cymdeithasol yng Nghymru, a bydd hyn yn dod â'r hawl yn unol â'r ddarpariaeth yn Lloegr.

Cofrestrau

400. Mae adran 38 yn mewnosod cyfres o bedair adran newydd (160B – 160E) yn Neddf 1996 i'w gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol weithredu cofrestr tai gyffredin, sef un gofrestr ar gyfer pawb sydd wedi gwneud cais am dai cymdeithasol yn yr ardal. Yn y Memorandwm, nodir bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn gweithredu cofrestrau tai cyffredin. Y bwriad yw symleiddio'r broses o wneud cais am dai cymdeithasol ym mhob ardal.

401. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu cofrestr tai hygyrch, i gynnwys yr holl dai yn yr ardal sydd â nodweddion a allai gynorthwyo pobl sydd ag anghenion hygrychedd. Bwriad hyn yw gwella sut mae llety yn cael ei baru ag ymgeiswyr y gallai fod angen tai hygyrch arnynt oherwydd anabled, cyflyrau iechyd, oedran neu ffactorau eraill.

402. Mae'r Bil yn creu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaethau pellach mewn perthynas â'r drefn o weithredu cofrestrau tai hygyrch.

403. Tynnodd cyfranogwr mewn grŵp ffocws sylw at yr heriau o gael prosesau ymgeisio gwahanol ar waith:

“And them all having different application processes. The standard process varies from organisation to organisation and county to county. It's as if they're not being governed and they pick and choose.”

Cyfranogwr grŵp ffocws

404. Roedd y rhan fwyaf o'r tystion yn gadarnhaol ynghylch y gofyniad i gael cofrestrau tai cyffredin. Fodd bynnag, codwyd pryder gan Crash Wigley³³⁹ a Cartrefi Cymunedol Cymru³⁴⁰ mewn perthynas ag adran newydd 160B, sydd fel y'i drafftwyd, yn nodi mai dim ond i berson sydd wedi'i gynnwys ar y gofrestr tai cyffredin ar gyfer yr ardal honno y caiff Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ddarparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig gynnig llety. Gwnaethant ddadlau bod angen i'r ddeddfwriaeth ganiatáu hyblygrwydd i rai dyraniadau ddigwydd y

³³⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 257

³⁴⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 26 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 355 a 356

tu allan i'r gofrestr honno, megis llety rhent preifat, llety myfyrwyr, llety rhent canolradd, a throsglwyddiadau brys.

405. Roedd Cymorth o blaid sefydlu cofrestrau tai cyffredin, gan ddweud y gallai achosi dryswch i ymgeiswyr os nad oes gan awdurdodau lleol gofrestrau.³⁴¹ Roedd Tai Pawb hefyd yn gefnogol, yn enwedig o ran y ddarpariaeth i sefydlu cofrestr tai hygyrch. Gwnaethant gyfeirio at eu hymchwil eu hunain ar hyn ac awgrymu bod canllawiau yn y dyfodol yn ystyried eu canfyddiadau allweddol a'u hargymhellion.³⁴²

406. Dywedodd Cymdeithas Tai Sir Fynwy fod cofrestr tai gyffredin yn gam cadarnhaol tuag at symleiddio mynediad at dai cymdeithasol ond ychwanegodd fod angen eglurder pellach ynghylch y gofrestr tai hygyrch, yn benodol, sut y bydd addasiadau'n cael eu diffinio ac a oes angen cofrestr ar wahân, o ystyried bod llawer o Gofrestri Tai Cyffredin eisoes yn rheoli dyraniadau tai hygyrch yn effeithiol o fewn systemau presennol.³⁴³

407. Codwyd pryderon gan gynghorau Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam ynghylch goblygiadau cost symud i Gofrestr Tai Cyffredin.

408. Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai'r ffordd y mae adran 160B wedi'i ddrafftio fod yn eang iawn a derbyniodd y gallai gynnwys mathau o lety nad ydynt fel arfer yn cael eu gosod drwy gofrestr tai cyffredin. Dywedodd wrthym fod ystyriaeth yn cael ei rhoi ynghylch a fyddai gwelliant i'r drafftio presennol yn helpu i gyflawni eu bwriad polisi ond eglurodd:

“the common housing register will only apply to social housing and that would mean an immediate accommodation. Other forms of accommodation could be offered outside of the common housing register. [] I think the potential amendment will ensure a common housing register addresses long-term social housing need while allowing for other types of housing tenures to operate outside its framework, and that would exclude transfers and mutual exchanges, which currently operate outside of and are not subject to the allocation rule.”³⁴⁴

³⁴¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 375

³⁴² HSHAWB 07, Tai Pawb (Saesneg yn unig)

³⁴³ HSHAWB 38, Cyngor Sir Fynwy

³⁴⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 18 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 194

Ein barn ni

409. Rydym yn croesawu'r gofyniad i bob awdurdod lleol weithredu cofrestr tai cyffredin. Gan fod y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu cofrestr o'r fath, rydym yn cytuno y bydd gofyniad am ddarpariaeth gyffredinol yn gwella cysondeb ledled Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi'r gofyniad am gofrestr tai hygyrch ar gyfer pob ardal gan fod hyn yn hanfodol wrth ddeall pa eiddo sydd ar gael i bobl ag anghenion ychwanegol.

410. Rydym yn cydymdeimlo â'r farn a fynegwyd gan landlordiaid cymdeithasol y bydd amgylchiadau lle byddant yn dyrannu eiddo i bobl nad ydynt ar gofrestr tai cyffredin ac y dylai'r Bil ystyried hynny. Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i ystyried cyflwyno gwelliant i adran 160B newydd o Ddeddf 1996, a fewnosodwyd gan adran 38 o'r Bil.

Casgliad 17. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i ystyried diwygio'r Bil i ganiatáu i fathau penodol o ddyrannu tai cymdeithasol ddigwydd y tu allan i'r gofrestr tai gyffredin, ac yn gofyn am ddiweddariad fel rhan o'r ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen y Pwyllgor ar y we.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
04 Mehefin 2025	Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai Hannah Fisher, Pennaeth Deddfwriaeth Atal Digartrefedd, Llywodraeth Cymru Lynda Reid, Cyfreithwr, Llywodraeth Cymru Sarah Rhodes, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Tai, Llywodraeth Cymru
19 Mehefin 2025	Sian Aldridge, Cyfarwyddwr Gweithredoedd, The Wallich Cerys Clark, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Sefydliad Tai Siartredig Cymru Katie Dalton, Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru Liz Davies CB, Garden Court Chambers Yr Athro Suzanne Fitzpatrick, Prifysgol Heriot-Watt Helen Mary Jones, Dirprwy Brif Weithredwr, Voices from Care Cymru Yr Athro Peter Mackie, Prifysgol Caerdydd Gareth Lynn Montes, Arweinydd Polisi ac Ymchwil Tai, Cyngor Ffoaduriaid Cymru Kate Perry-Jones, Pennaeth Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Goroewyr, Cymorth i Fenywod Cymru Bill Rowlands, Pennaeth Gwasanaeth, End Youth Homelessness Cymru

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	David Rowlands, Pennaeth Dros Dro Polisi a Materion Cyhoeddus, Tai Pawb Debbie Thomas, Pennaeth Polisi Cymru, Crisis Sharon Thomas, Rheolwr Gwasanaethau Cymorth a Llety, GISDA Phoebe White, Rheolwr Polisi a Dylanwad, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Robin White, Pennaeth Ymgyrchoedd, Shelter Cymru Crash Wigley, Landmark Chambers
26 Mehefin 2025	Leanne Chapman, Cydlynnydd Rhanbarthol GMB GMB Martin Cooil, Rheolwr Tai a'r Gwasanaethau Atal, Cyngor Sir y Fflint Dr Ayla Cosh, Cyfarwyddwr Clinigol Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Paul Cotterell, Cymdeithas y Swyddogion Carchar Cheryl Emery, Pennaeth Cymunedau Diogel a Thai Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Louise Forman, Pennaeth Gweithrediadau, y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru—Arweinydd Partneriaethau ac Integreiddio, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi Laura Garvey-Cubbon, Rheolwr Gweithredol, Partneriaethau a Chyd-gomisiynu, Cyngor Caerdydd Bryn Hall, Uwch-swyddog Ymgysylltu a Datblygu, Clinks Emily James, Rheolwr Gwasanaeth—Tai, Cyngor Sir Penfro Ben Lloyd, Cyfarwyddwr Cymunedol G4S Elly Lock, Pennaeth Polisi a Materion Allanol, Cartrefi Cymunedol Cymru

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Suzanne Mazzone, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Tai, Clwyd Alyn Sarah Schofield, Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau, Adra Luke Takeuchi, Dirprwy Brif Weithredwr, Beacon Cymru David Walton, Pennaeth Tai a Chymunedau, Cyngor Dinas Casnewydd Clare Way, Cyfarwyddwr Gweithredoedd, Tai Tarian Helen White, Prif Weithredwr, Taff Housing
18 Medi 2025	Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai Hannah Fisher, Pennaeth Deddfwriaeth Atal Digartrefedd Llywodraeth Cymru Sarah Rhodes, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Tai, Llywodraeth Cymru Julie Stokes, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod (*) Saesneg yn unig	Sefydliad
*HSHAWB 01	Unigolyn
*HSHAWB 02	Craig Richards
*HSHAWB 03	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
*HSHAWB 04	Voices from Care Cymru
*HSHAWB 05	NYAS Cymru
*HSHAWB 06	Yr Athro Peter Mackie
*HSHAWB 07	Tai Pawb
*HSHAWB 08	Y Wallich
*HSHAWB 09	Cymorth i Ferched Cymru
*HSHAWB 10	Prison Officers Association
*HSHAWB 11	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
*HSHAWB 12	Shelter Cymru
*HSHAWB 13	Cymdeithas Tai Sir Fynwy
*HSHAWB 14	Cartrefi Cymunedol Cymru
*HSHAWB 15	Clinks
*HSHAWB 16	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
*HSHAWB 17	Dogs Trust
*HSHAWB 18	Propertymark
*HSHAWB 19	Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl
HSHAWB 20	Adra
*HSHAWB 21	Dave Cowan

Cyfeirnod (*) Saesneg yn unig	Sefydliad
*HSHAWB 22	Mike Norman
*HSHAWB 23	Cyngor Dinas Casnewydd
*HSHAWB 24	Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
*HSHAWB 25	Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
*HSHAWB 26	Confederasiwn GIG Cymru
*HSHAWB 27	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
*HSHAWB 28	CIH Cymru
*HSHAWB 29	Barcud
HSHAWB 30	Comisiynydd y Gymraeg
*HSHAWB 31	Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru
HSHAWB 32	Comisiynydd Plant Cymru
*HSHAWB 33	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
*HSHAWB 34	Gweithredu dros Blant
*HSHAWB 35	Cyngor Caerdydd
*HSHAWB 36	Cyngor Sir Ceredigion
*HSHAWB 37	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
*HSHAWB 38	Cyngor Sir Fynwy
*HSHAWB 39	Cyngor Sir Ynys Môn
*HSHAWB 40	Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid
HSHAWB 41	Cyngor Gwynedd
*HSHAWB 42	Cyfiawnder Tai Cymru
*HSHAWB 43	Crisis
*HSHAWB 44	Cyngor Abertawe
*HSHAWB 45	Sefydliad Bevan
*HSHAWB 46	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
*HSHAWB 47	Chwarae Cymru
*HSHAWB 48	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
*HSHAWB 49	Llamau
*HSHAWB 50	Y Groes Goch Brydeinig

Cyfeirnod (*) Saesneg yn unig	Sefydliad
*HSHAWB 51	Cyngor Sir Powys
*HSHAWB 52	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru